# Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

# Atodlen o Newidiadau Arfaethedig
i
# Ddrafft Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Caerdydd

**Hydref 2026**

## Cyflwyniad

1. Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd (CDLlN) yn mynd drwy Archwiliad gan Arolygwyr Cynllunio annibynnol ar hyn o bryd. Yn dilyn Sesiynau Gwrandawiad 1-15 roedd yn ofynnol i'r Cyngor wneud gwaith ychwanegol ar ystod o faterion a gododd yn sgil y trafodaethau yn y Sesiynau Gwrandawiad.

2. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ar y gwaith ychwanegol a baratowyd a chyfres o newidiadau arfaethedig i Gynllun Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN).

3. Mae'r atodlen hon yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Adneuo a'r Map Cynigion

4. Mae'r Atodlen yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r:
   - Pwyntiau Gweithredu yn dilyn Sesiynau Gwrandawiad Archwiliad 1-15 a
     - newidiadau a gynigir yn Ymateb y Cyngor i Sylwadau a Chwestiynau a godwyd gan yr Arolygwyr yn ID04 - CD05 (Gweler y Dogfennau Ar Ôl Cyflwyno) gan gynnwys materion yn weddill wedi'r Sesiynau Gwrandawiad ac nad ydynt wedi'u disodli gan newidiadau a gynigir mewn ymatebion i'r Pwyntiau Gweithredu
     - newidiadau a gynigir yn yr Atodlen o Fân Newidiadau (Gweler Dogfennau Cyflwyno ) ac nad ydynt wedi eu disodli gan newidiadau a gynigir mewn ymatebion i'r Pwyntiau Gweithredu.

## Ymgynghori ar y Newidiadau Arfaethedig

5. I wneud sylwadau ar y **Newidiadau Arfaethedig** a nodir yn yr atodlen hon e-bostiwch CDLl@caerdydd.gov.uk. Nodwch rif cyfeirnod y Newid Arfaethedig y mae'r sylw(adau) yn ymwneud ag ef/â nhw a nodwch yn glir a yw'r newid yn cael ei gefnogi neu ei wrthwynebu.

6. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan **Ddydd Gwener 6 Tachwedd 2026.** Sylwer y dylai sylwadau ymwneud â'r Wybodaeth Ychwanegol neu'r newidiadau arfaethedig a pheidio â cheisio cyflwyno sylwadau newydd neu ychwanegu at sylwadau blaenorol a bydd yr holl sylwadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus yn unol á chanllawiau GDPR.

7. Ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i dîm y CDLl yn CDLl@caerdydd.gov.uk.

8. Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud ag Archwiliad y CDLl, anfonwch e-bost at y Swyddog Rhaglen sef kerry.trueman@Cardiff.gov.uk.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

# Materion yn Codi o Sesiynau Gwrandawiad 1-15

## 1. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 2 Strategaeth

<table>
<tr><th>Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun</th><th>Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu</th><th>Cyfeirnod Cynllun</th><th>Newid Arfaethedig</th></tr>
<tr><td>PPC1</td><td>HS2.3<br>• adolygu egwyddor a nifer yr unedau a briodolwyd i Dir yn ardaloedd 9-12 Llaneirwg i ystyried eu bod yn rhannol mewn SoDdGA, a bod 2/3 ohonynt mewn SoBCN a'r rhagdybiaethau yn Rhaglen Dai y Cyngor,</td><td>Polisi H1.1</td><td>Safle i'w dileu<br><br>H1B: SAFLEOEDD TAI ANSTRATEGOL<br><br>Dyrennir y safle~~oedd~~ anstrategol canlynol ar gyfer tai:<br><br>
<table>
<tr><th>Cyfeirnod Safle</th><th>Enw’r Safle</th><th>Amcangyfrif o Unedau</th><th>Maint y safle (Ha)</th></tr>
<tr><td>~~H1.1~~</td><td>~~Tir yn Ardaloedd 9-12, Llaneirwg~~</td><td>~~150~~</td><td>~~3.98~~</td></tr>
<tr><td>H1.~~2~~1</td><td>Ysbyty Rookwood</td><td>90</td><td>3.4</td></tr>
</table>
<br>7.5 Mae’r safle~~oedd~~ tai anstrategol yn ffurfio rhan bwysig o'r banc tir ar gyfer tai ac ystyrir bod hi’n angenrheidiol i'r safle~~oedd~~ hwn gael ei ddyrannu yn y cynllun hwn er mwyn sicrhau y diogelir y tir i’w ddefnyddio yn y dyfodol er mwyn darparu tai.<br><br>~~7.6 Fel yr argymhellwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) y Cynllun Adneuo, bydd yn ofynnol i unrhyw gais yn y dyfodol am Dir H1.1 yn ardaloedd 9-12 Llaneirwg ddarparu tystiolaeth na fydd y datblygiad yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran ei rywogaethau adar cymwys. Er mwyn dangos hyn, bydd angen arolwg i benderfynu ar y cynefinoedd a'r defnydd presennol o'r safle i wirio a yw'r parsel tir mewn gwirionedd yn addas ar gyfer cefnogi poblogaeth sylweddol o rywogaethau adar dynodedig. Lle mae cynefinoedd yn addas, bydd gofyn cael arolygon o adar nad ydynt yn bridio i benderfynu a yw'r safle a'r tir cyfagos yn ffurfio ardal sylweddol o gynefin cynhaliol. Bydd angen cynnal arolygon adar yn ystod yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn. Os nodir bod cynefin o fewn y safle neu dir ger llaw yn cefnogi poblogaethau sylweddol o rywogaethau adar dynodedig, bydd angen mesurau osgoi a lliniaru, ac mae'n debygol y bydd angen asesu'r cais cynllunio drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n benodol i’r prosiect er mwyn sicrhau na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd.~~<br><br>7.7 Mae'r nifer arfaethedig o unedau a ddangosir ~~ar gyfer pob safle~~ yn ddangosol a gallant newid yn dibynnu ar fanylion unrhyw geisiadau cynllunio dilynol nad ydynt wedi'u cyflwyno na'u cymeradwyo eto.</td></tr>
<tr><td>PPC2</td><td>Datganiad o Dir Cyffredin</td><td>Mae Polisi SP9</td><td>BS9: CEFNOGI RÔL PORTHLADD CAERDYDD<br><br>Bydd Porthladd Caerdydd yn cael ei warchod er mwyn parhau â'i brif rôl drwy ddarparu gweithgareddau cyflogaeth traddodiadol sy'n benodol i borthladdoedd. Cefnogir gweithgareddau cynhyrchu cyflogaeth pellach, gan gynnwys darparu defnyddiau diwydiannol a logistaidd, a chynhyrchu ynni gwyrdd. ~~Bydd hyblygrwydd hefyd i ganiatáu defnyddiau hamdden, preswyl a~~</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~**chymysg, o fewn ardaloedd priodol ar yr amod eu bod yn gydnaws â defnyddiau cyfagos (sy'n gysylltiedig â'r porthladd).**~~<br><br>~~6.84 Mae'n bwysig cydnabod dros gyfnod y cynllun bod defnyddiau nad ydynt ddefnyddiau porthladd yn bosibl mewn rhai lleoliadau ym Mhorthladd Caerdydd, gyda thir ar gael i angori buddsoddiadau newydd i mewn i'r cymunedau lleol. Yn ogystal â defnyddiau diwydiannol a logistaidd, dylid ystyried datblygiad defnydd cymysg eraill yn gadarnhaol, lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) defnydd preswyl, hamdden a chynhyrchu ynni gwyrdd. Bydd caniatáu cyflawni defnyddiau ehangach i gynnwys defnyddiau cyflogaeth a chynhyrchu swyddi ehangach ar dir y porthladd, nid dim ond defnydd cysylltiedig â'r porthladd, yn helpu i harneisio arloesedd. Fodd bynnag, dylai gweithrediad y porthladd a'r defnyddiau ategol gael blaenoriaeth a bydd angen uwchgynllunio unrhyw gynlluniau preswyl defnydd cymysg yn briodol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnydd gweithredol y porthladd nac ar feddianwyr y datblygiad preswyl yn y dyfodol.~~<br><br>~~6.85 Mae'r safle yn destun gorsaf sydd wedi ei chynllunio ar gyfer Metro De Cymru, gan fanteisio ar seilwaith y rheilffordd bresennol sy'n gwasanaethu'r Porthladd. Mae hyn yn cynnig potensial sylweddol yn y dyfodol ar gyfer teithio cynaliadwy nôl a blaen i'r safle.~~ |

## 2. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 3: Tai Fforddiadwy

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC3 | Pwynt Gweithredu HS3.2<br>Newid Materion Yn Codi<br><br>Paragraff 7.15 i'w ddileu a mewnosod y testun canlynol ym Mholisi H3, <u>Bydd y Cyngor yn ceisio darparu amrywiaeth a chymysgedd o dai fforddiadwy cynaliadwy, yn unol â Pholisi SP12</u> | Polisi H3: Tai Fforddiadwy Paragraff 7.15<br><br>P81 | **H3: TAI FFORDDIADWY**<br><br>**Bydd y Cyngor yn <u>ceisio darparu ystod a chymysgedd o dai fforddiadwy cynaliadwy, yn unol â Pholisi SP12 a bydd</u> yn gofyn am 20% o dai fforddiadwy ar safleoedd tir llwyd a 30% o dai fforddiadwy ar safleoedd Maes Glas ym mhob cynnig preswyl sydd yn:**<br>• **Cynnwys 5 neu fwy o anheddau; neu**<br>• **Safleoedd o 0.1 hectar neu fwy o ran arwynebedd safle gros; neu**<br>• **Lle bydd cynigion preswyl gerllaw neu gysylltiedig yn golygu niferoedd ar y cyd o anheddau neu feintiau arwynebedd safleoedd sy'n uwch na'r trothwyon, bydd y Cyngor am gael tai fforddiadwy yn seiliedig ar y canrannau targed tai fforddiadwy a nodir uchod.**<br><br>**Ceisir darparu tai fforddiadwy ar y safle oni bai bod amgylchiadau eithriadol.**<br><br>7.14 Nod y Polisi hwn yw cynorthwyo'r Cyngor i ddiwallu anghenion tai amlwg drwy geisio cyfraniad tai fforddiadwy priodol gan ddatblygiadau preswyl newydd yn y ddinas.<br><br>~~7.15 Bydd y Polisi yn helpu i ddarparu ystod a chymysgedd o dai fforddiadwy cynaliadwy, yn unol â Pholisi PS12.~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.16 Mae PCC yn cydnabod bod angen cymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Mae hefyd yn hyrwyddo cymunedau cymysg a chynhwysol. Cyfarwyddyd manylach yn NCT2: Mae Cynllunio a Thai Fforddiadwy yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys polisïau tai fforddiadwy yn eu CDLlau lle mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) wedi darparu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi polisïau i ddarparu tai o'r fath drwy'r system gynllunio. Cymeradwywyd AFDL Caerdydd (2022-27) gan Lywodraeth Cymru yn 2025 ac mae'n nodi diffyg blynyddol o 960 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn. Dyma'r amcangyfrif blynyddol cyffredinol ychwanegol net am dai fforddiadwy ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd.<br><br>7.17 Mae'r Polisi yn berthnasol i'r holl ddatblygiadau tai arfaethedig a gwmpesir gan y trothwyon polisi, gan gynnwys cynigion ar dir nas datblygwyd o'r blaen, cynlluniau ailddatblygu, cynlluniau sy'n darparu llety arbenigol (ac eithrio'r rhai lle mae angen elfen sylweddol o ofal ar y preswylwyr). Mae hefyd yn cynnwys cynlluniau sy'n addasiadau, newidiadau defnydd, cynlluniau cyd-fyw a datblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys tai. Mae'n ymateb i'r angen amlwg i'r system gynllunio helpu i chwarae ei rhan wrth sicrhau tir ac unedau ar gyfer tai fforddiadwy.<br><br>7.18 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai rhent cymdeithasol a thai canolradd lle mae mecanwaith ddiogel ar waith i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rheini nad ydynt yn gallu fforddio tai'r farchnad agored, i'r meddianwyr cyntaf a meddianwyr dilynol. Yn ogystal, mae dyletswydd ar y Cyngor i roi sylw i anghenion tai pobl hŷn a'r rhai sydd ag anghenion llety arbenigol. Mewn rhai amgylchiadau, ni ellir mynd i'r afael ag anghenion tai penodol o fewn y stoc dai bresennol ac efallai y bydd angen unedau pwrpasol newydd. Pan fo tystiolaeth o angen ac ystyrir ei fod yn briodol, gellir ceisio / darparu llety arbenigol a / neu i bobl hŷn. Pan gynigir tai o'r fath, gall y Cyngor gytuno ar hyn fel rhan neu'r cyfan o'r gofyniad tai fforddiadwy, yn amodol ar gytundeb ar yr angen tai ac yn arbennig fforddiadwyedd.<br><br>7.19 Bydd y Cyngor yn darparu tystiolaeth fanwl o angen yn seiliedig ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) yng Nghaerdydd diweddaraf, wedi'i ategu gan restrau aros presennol y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gwybodaeth berthnasol arall.<br><br>7.20 Er mwyn creu cymunedau cymysg a chytbwys, bydd gofyn cael darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle oni bai bod y Cyngor o'r farn bod hyn yn anymarferol neu'n amhriodol. Pan fo tai fforddiadwy ar y safle i'w darparu, dylai'r Cyngor ei asesu/penderfynu a ellir ei ddarparu ynghyd ag unrhyw gyfleusterau cymunedol a/neu ddarpariaeth iechyd, fel rhan o un adeilad 'amlswyddogaethol'.<br><br>7.21 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cytunir ar ddewisiadau amgen yn lle darpariaeth ar y safle, ac mewn achosion y cytunir arnynt, gellir darparu tai fforddiadwy naill ai ar safle arall (dylid cytuno ar leoliad ac amserlenni ar gyfer darparu gyda'r Cyngor), neu gellir darparu cyfraniad ariannol i fynd i'r afael â gofynion tai fforddiadwy mewn rhannau eraill o Gaerdydd. Ym mhob achos, dylai darpariaeth fynd i'r afael â'r angen a nodwyd ynghlwm â'r datblygiad arfaethedig.<br><br>7.22 Mae'r targedau a nodir yn y Polisi yn deillio o ganfyddiadau astudiaeth hyfywedd tai fforddiadwy a gynhaliwyd gan Avison Young. Asesodd yr astudiaeth hon hyfywedd ystod o senarios tai (gan gynnwys cyfrifiad ar gyfer seilwaith angenrheidiol y gellid ei gyflawni drwy A106), yn unol â Pholisi SP 5: Sicrhau Seilwaith Newydd a SP6: Sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.23 Er mwyn dangos hyfywedd ac ystyried y costau uwch sydd ynghlwm â datblygu safleoedd tir llwyd, argymhellodd yr astudiaeth darged tai fforddiadwy dwy haen. Mae'r astudiaeth yn cadarnhau bod tai fforddiadwy yn hyfyw ar 30% ar safleoedd maes glas ac ar 20% ar safleoedd tir llwyd (yn seiliedig ar gymysgedd deiliadaeth o 80% rhent cymdeithasol a 20% Perchentyaeth Cost Isel).<br><br>7.24 Rhaid ffactora cost darpariaeth tai fforddiadwy i unrhyw ddatblygiad o gam cynnar, felly mae'n rhaid darparu cyfraniad tai fforddiadwy sy'n cydymffurfio â pholisi. |

## 3. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 5 Y Gymraeg

| **Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun** | **Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu** | **Cyfeirnod Cynllun** | **Newid Arfaethedig** |
|---|---|---|---|
| PPC4 | HS5.1<br>*Diwygio'r cymal "mae'r CDLl yn cefnogi cynigion datblygu sy'n ceisio diogelu......" i nodi gofyniad polisi cliriach*<br>*• Nid yw'r geiriad 'lle bo'n briodol.........' yn ddigon manwl ac mae angen ei ddiwygio i ddarparu sbardun cliriach*<br>*• Mae angen cryfhau'r geiriad 'buddion y Gymraeg........' . Priodoldeb y geiriad 'hyfywedd, bywiogrwydd a defnydd o'r iaith....' i'w ystyried yng nghyd-destun polisi cenedlaethol.*<br>*• Brawddeg olaf i'w diwygio. Fel y'i drafftiwyd, gallai cryfhau bychan ar effaith gadarnhaol fod yn fwy nag andwyo sylweddol. Dileu 'a/neu' lle mae'n ymddangos, gan gyflwyno cymalau ychwanegol os oes angen.* | SP15: Sicrhau a Gwella Cyfleoedd i Dyfu'r Gymraeg/WL1 Y Gymraeg | **SP15: SICRHAU A GWELLA CYFLEOEDD I DYFU'R GYMRAEG**<br>**Er mwyn sicrhau a gwella ei statws a chyfleoedd i dyfu'r Gymraeg, mae Caerdydd wedi'i dynodi yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol.**<br>**Rhaid i gynigion datblygu geisio diogelu, hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd dyddiol i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfrannu tuag at gefnogi Caerdydd ddwyieithog.**<br>**Rhaid i gynigion datblygu mawr glustnodi mesurau cadarnhaol i gefnogi gweledεdd a defnydd o'r Gymraeg i gryfhau bywiogrwydd yr iaith yng Nghaerdydd.**<br>Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r amodau sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.<br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys nod llesiant Cymru o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod y gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol drwy greu'r amodau sy'n caniatáu i'r iaith ffynnu a thrwy gefnogi creu lleoedd sy'n adlewyrchu diwylliant a hunaniaeth leol.<br>Mae gan Gyngor Caerdydd weledigaeth ar gyfer prifddinas Cymru sy'n wirioneddol ddwyieithog. 'Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog' yw strategaeth statudol yr awdurdod sy'n anelu at gynyddu'n sylweddol nifer y siaradwyr Cymraeg, dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn y gymuned a sicrhau bod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn y ddinas, yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br>Mae Caerdydd wedi profi twf parhaus yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac mae ganddi rôl bwysig wrth gefnogi twf a defnydd parhaus yr iaith. Gweledigaeth y Cyngor yw cefnogi cyfleoedd i bobl ddysgu, defnyddio a phrofi'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd ledled y ddinas.<br>Mae Polisi SP15 yn cael ei gefnogi ymhellach gan Bolisi WL1 a bydd canllaw pellach yn cael ei baratoi i lywio'r polisïau hyn drwy Ganllaw Cynllunio Atodol y Gymraeg a Datblygu.<br><br>**WL1 Y Gymraeg**<br>**Rhaid i bob cynnig datblygu mawr sylweddol sy'n 25 o anheddau neu fwy, sydd ag arwynebedd safle dros 0.99 hectar, neu'n cynnwys 1999 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros gael ei gefnogi gan Gynllun Gweithredu'r Gymraeg sy'n nodi mesurau cadarnhaol i amddiffyn, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.**<br>**Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n arwain at effaith andwyol annerbyniol ar fywiogrwydd a defnydd o'r Gymraeg na ellir eu lliniaru'n ddigonol.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r polisi yn ceisio sicrhau bod ystyriaethau ynghylch y Gymraeg yn cael eu hintegreiddio i'r gwaith o baratoi cynigion datblygu mawr sylweddol o'r camau dylunio a chynllunio cynharaf. Bwriedir i'r ymagwedd hwn fod yn gymesur â graddfa a natur y datblygiad a chanolbwyntio ar faterion y gellir dylanwadu'n rhesymol arnynt drwy'r system gynllunio.<br>Gall datblygiadau mawr sylweddol fod â mwy o botensial i ddylanwadu ar y cymunedau lle maent wedi'u lleoli. Mae'n ofynnol i bob cynnig datblygu mawr sylweddol gyflwyno Cynllun Gweithredu'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu nodi mesurau ymarferol a chymesur y bydd y datblygiad yn eu defnyddio i amddiffyn, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n ofynnol i ddatblygiadau mawr sylweddol ar safleoedd heb eu dyrannu gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu'r Gymraeg. **Dylai lefel y manylion sydd eu hangen fod yn gymesur â natur, graddfa a lleoliad y cynnig.**<br>Gallai mesurau gynnwys:<br>• mesurau sy'n gwella gwelededd a hygyrchedd y Gymraeg o fewn y datblygiad.<br>• ymgorffori nodweddion Cymraeg o fewn cynigion creu lleoedd;<br>• arwyddion a gwybodaeth datblygu dwyieithog;<br>• deunydd marchnata a hyrwyddo dwyieithog;<br>• Enwi Cymraeg ar ddatblygiadau;<br>Pan fo angen i ddatblygiadau o dan bolisïau eraill y Cynllun ddarparu, gwella neu gyfrannu tuag at seilwaith cymunedol, bydd buddion i'r Gymraeg sy'n deillio o'r ddarpariaeth honno yn cael eu hystyried wrth asesu cyfraniad y cynnig at amcanion Polisïau SP15 a WL1.<br>**Enwi a Gwelededd y Gymraeg**<br>Disgwylir i gynigion datblygu gefnogi gwelededd y Gymraeg o fewn yr amgylchedd adeiledig.<br>Dylai enwau datblygiadau ystyried hanes, diwylliant a hunaniaeth leol lleoedd a dylent gyd-fynd â gweithdrefnau enwi strydoedd y Cyngor.<br>Dylai arwyddion datblygu parhaol a dros dro, deunyddiau marchnata a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu fod yn ddwyieithog a rhoi amlygrwydd priodol i'r Gymraeg.<br>Darperir canllaw pellach ar weithredu Polisi SP15 a WL1 drwy gyfrwng Canllaw Cynllunio Atodol y Gymraeg a Datblygu. |
| PPC5 | HS5.3<br>**Newid i'r Materion sy'n Codi;** Trydydd paragraff ym mharagraff 7.231 - cyfeiriad at 50% i'w ail-leoli i Bolisi C4 ei hun. | | **C4: CYNLLUNIO AR GYFER YSGOLION**<br>• **Lle adnabuwyd angen am gyfleusterau ysgol newydd a / neu well o ganlyniad i ddatblygiad, bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau tuag at gost darpariaeth addysg ychwanegol. Bydd cyfraniadau a negodir yn cymharu'n deg a rhesymol â graddfa a math y datblygiad arfaethedig. Lle bo'n briodol, bydd angen cynnig darpariaeth ar y safle.**<br><br>**Dylai datblygu addysg feithrin, cynradd, uwchradd a chweched dosbarth:**<br>**i. Fod wedi'i ddylunio'n dda, cyd-fynd yn dda ag amwynderau a gwasanaethau cymdogaeth, ac yn hawdd eu cyrraedd trwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy;**<br>**ii. Gynnwys, lle bo'n briodol, ddarpariaeth at ddefnydd cymunedol priodol arall yn ogystal â'u defnydd addysgol; a**<br>**iii. Ystyried gofyniad/strategaeth y Cyngor i ddarparu cyfleusterau addysg digonol i ddarparu ar gyfer y twf arfaethedig yng nghyfran plant a phobl ifanc y Ddinas sy'n gallu siarad Cymraeg a'r bwriad i sefydlu o leiaf 50% o leoedd ysgol newydd ar safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol fel rhai cyfrwng Cymraeg.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.229 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol fel awdurdod addysg lleol i sicrhau fod nifer ddigonol a digon o amrywiaeth ar gael o lefydd ysgol cynradd ac uwchradd i ddiwallu anghenion poblogaeth y Sir.<br><br>7.230 Yn ogystal â'r ddyletswydd statudol gyffredinol hon, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob person ifanc, o bob cymuned ledled Caerdydd yn cael cyfle i siarad Cymraeg, i fod yn falch o'u hunaniaeth ac yn gallu dathlu a mwynhau'r ddwy iaith yn eu bywydau bob dydd ac i gynyddu nifer y bobl o bob oed i ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>7.231 Y prif egwyddorion a'r cyd-destun perthnasol ar gyfer ystyried datblygiadau newydd a'r Gymraeg yw:<br>• Mae Caerdydd yn ardal o bwysigrwydd ieithyddol i'r Gymraeg.<br>• I gymhwyso egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud' er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.<br>• ~~Ceisio sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth lleoedd ysgol newydd ar safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol fel darpariaeth Gymraeg.~~<br>• O ran safleoedd adfywio tir llwyd mawr dan arweiniad tai (Polisïau H2.1, H2.2, H2.4, H2.5 a H2.6), ceisio drwy rwymedigaethau cynllunio i wella'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn yr ardal leol gyfagos/dalgylch perthnasol a/neu gyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg newydd. Pan fo cyfiawnhad o ran maint y datblygiad, (yn unol â'r dull gweithredu ar safleoedd maes glas), bwriad i sicrhau y sefydlir o leiaf 50% o unrhyw ddarpariaeth ysgol newydd ar safleoedd tir llwyd fel lleoedd Cymraeg.<br>• Er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg nod y Cyngor yw ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg ar 10% uwchlaw'r niferoedd a ragamcenir.<br><br>7.232 Uchelgais y Cyngor, fel y'i mynegwyd yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 32 yw cynyddu'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg feithrin Cymraeg i blant tair oed o 18.5% yn 2021-22 i 30% erbyn 2031-32 a'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd Derbyn Cymraeg i blant pump oed o 19% yn 2021-22 i 30% erbyn 2031-32. Bydd sicrhau twf cynaliadwy lleoedd cyfrwng Cymraeg a sicrhau cynnydd yn y galw yng nghyd-destun newidiadau o ran dosbarthiad y galw hwnnw, ond â chyfraddau genedigaethau yn gostwng, yn gofyn am gynllunio manwl ar sail gwybodaeth. Mae rhan o'r ateb yn gofyn bod datblygiadau mawr newydd yn gwneud cyfraniadau i hwyluso a rheoli'r newid hwnnw yn y galw.<br><br>7.233 Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau ariannol (gweler Rhwymedigaethau Cynllunio SP6), tuag at gost darparu cyfleusterau ysgol gynradd a/neu uwchradd ychwanegol neu well gan ddatblygwyr sy'n cynnig datblygiadau tai a fyddai'n creu gofyniad am leoedd ysgol na ellid eu bodloni'n rhesymol gan ysgolion presennol oherwydd:<br><br>• na fyddai capasiti digonol yn yr ysgol(ion) lle mae datblygiadau tai newydd yn cael eu cynnig yn y dalgylch(oedd) ysgol dan sylw yn sgil y datblygiad(au); a/neu<br>• Mae yna ddigon o gapasiti sbâr yn y cyfryw ysgolion i ddarparu ar gyfer rhywfaint neu'r cyfan o'r niferoedd disgyblion a ragwelir yn cael eu creu gan y datblygiad(au) arfaethedig, ond bod angen buddsoddiad i'w gwneud yn addas.<br><br>7.234 Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio tir a/neu eiddo, gan ddibynnu ar faint a lleoliad y datblygiad. Gweler Polisi Allweddol SP5 Seilwaith Newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd hefyd angen mynd i'r afael â darpariaeth ysgolion mewn dalgylchoedd lle nad oes llawer neu ddim capasiti ar hyn o bryd i fodloni'r galw ychwanegol sy'n debygol o godi yn sgil datblygiad tai ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol (gan gynnwys safleoedd strategol) neu safleoedd mewnlenwi eraill. Gydag eithriadau prin, gofynnir am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr tuag at ddarparu gofod ystafelloedd dosbarth newydd, yn unol â'r anghenion sy'n codi o'r datblygiad arfaethedig.<br><br>7.236 Os bydd y Cyngor yn derbyn cyfraniadau datblygwr i ehangu'r ddarpariaeth bresennol, bydd angen i'r cyfraniadau gael eu trosglwyddo yn raddol dros gyfnod y gwaith adeiladu yn unol â'r canllawiau a nodir mewn CCA, a bydd angen ystyriaeth ofalus i sicrhau bod y cyflenwad o leoedd ysgol yn cyd-fynd â'r broses adeiladu a meddiannaeth anheddau. Bydd monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd ysgol yn ystyriaeth allweddol er mwyn llywio anghenion y presennol a'r dyfodol.<br><br>7.237 Dylid achub ar gyfleoedd i rannu adeiladau a chyfleusterau ysgol, neu gydleoli ar safleoedd a rennir gyda Gwasanaethau eraill y Cyngor a gwasanaethau allanol dethol. Byddai hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r tir ac yn darparu adnodd integredig sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i'r gymuned gyfan. Gallai cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau a rennir gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, cyfleusterau hamdden dan do, canolfannau chwarae, cyfleusterau addysg oedolion, cyfleusterau gofal plant integredig, cynefin naturiol cyfagos, cyfleusterau gofal iechyd.<br><br>Yn dibynnu ar gyfyngiadau daearyddol, dylid cymryd cyfleoedd i archwilio rhannu cyfleusterau/caeau chwarae ysgol gydag ysgolion eraill (e.e. Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn rhannu caeau) neu ddarpariaeth ysgol parhaus 3-19 oed.<br><br>7.239 Bydd canllawiau pellach ar gymhwyso'r Polisi hwn yn cael eu nodi mewn CCA. |

## 4. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 6: Cyflogaeth

| **Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun** | **Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu** | **Cyfeirnod Cynllun** | **Newid Arfaethedig** |
|---|---|---|---|
| PPC6 | *HS6.5*<br>• *EC5A*<br>- *Mynd i'r afael â'r tensiwn sy'n gynhenid rhwng EC3 ac EC5A o ystyried nad yw'n glir sut y gall y Cyngor fel y penderfynwr ystyried bod safleoedd EC3 yn gwbl addas i'w defnyddio ar gyfer cyflogaeth ac yn angenrheidiol i gyflawni nodau strategol ehangach, ac o bosibl yn ddiangen ac yn anaddas ar gyfer defnydd cyflogaeth.* | Polisi EC5A ac EC5B | Mewn ymateb i'r Pwynt Gweithredu, cynigir diwygio Polisi EC5A ac EC5B a'r testun ategol fel a ganlyn:<br><br>**EC5A: GWARCHOD A DEFNYDD AMGEN O DIR A SAFLEOEDD CYFLOGAETH**<br><br>**Ni chaniateir datblygu tir a safleoedd busnes, diwydiannol a warysau gwarchodedig o dan Bolisi EC3 (ac a nodir ar y Map Cynigion) at ddefnyddiau amgen nad ystyrir eu bod yn ddefnydd ategol (fel y'i diffinnir gan Bolisi EC4) oni bai y bodlonir yr holl feini prawf canlynol:**<br><br>**i) Ni fyddai'r cynnig yn amharu ar gyflawni strategaeth tir cyflogaeth Caerdydd, gan ystyried rôl a swyddogaeth y safle neu'r adeiladau o fewn portffolio tir cyflogaeth Caerdydd, a chyflenwad, argaeledd, ystod, dewis a dosbarthiad tir a safleoedd cyflogaeth ledled y Ddinas;**<br>**ii) Mae'r ymgeisydd wedi dangos nad oes unrhyw obaith rhesymol y bydd y tir neu'r safle yn cael ei gadw, ei ailddefnyddio neu ei feddiannu at ddibenion cyflogaeth, o ystyried galw'r farchnad a thystiolaeth farchnata;** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - *Yn hytrach na diangen/anaddas, i ystyried ai'r prawf yw effaith colli safle yn erbyn y strategaeth tir cyflogaeth ehangach*<br>- *Ystyried a ddylai polisi wahaniaethu rhwng darpariaeth swyddfa/parc busnes a safleoedd diwydiannol/warws*<br>- *Dileu pob enghraifft o 'a/neu', gan gyflwyno cymalau ychwanegol os oes angen.*<br>- *Os yw i'w gadw, diffinio ystyr 'ffisegol anaddas' yng nghyd-destun polisi EC3 sy'n ystyried bod y safleoedd yn addas.*<br>*EC5B*<br>*Y Cyngor i gynnwys testun ynghylch marchnata o'r datganiad gwrandawiad*<br>- | | **iii) Mae cyfleoedd i gadw'r cyfan neu ran o'r tir neu'r fangre mewn defnydd cyflogaeth trwy adnewyddu, addasu, isrannu, ailgyflunio neu ailddatblygu wedi'u hystyried yn llawn ac wedi dangos nad ydynt yn ymarferol; mae tystiolaeth wedi'i darparu ynghylch pam na fyddai cyfleoedd o'r fath yn hyfyw nac yn gyflawnadwy; a**<br>**iv) Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar weithrediad, amodau gweithredu, hyfywedd neu ehangu busnesau presennol a defnyddiau cyflogaeth yn yr ardal yn y dyfodol.**<br><br>**EC5B: GOFOD GWAITH NEWYDD O FEWN DATBLYGIAD DEFNYDD CYMYSG**<br><br>**Lle mae meini prawf EC5A (i - iv) wedi eu bodloni, ac ystyrir bod defnydd amgen yn briodol; dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gweithleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol newydd fel rhan o ailddatblygiad preswyl defnydd cymysg.**<br><br>**Dylai'r gofod cyflogaeth newydd a ddarperir fod ar ffurf adeiladau ar gyfer ymchwil a datblygu, gweithleoedd fforddiadwy, gofod swyddfa hyblyg, gofod diwydiannol ysgafn, safleoedd dosbarthu lleol, neu safleoedd tebyg, a gallent gynnwys safleoedd ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau meddygol neu iechyd.**<br><br>**Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth o farchnata a hyfywedd.**<br><br>**Pan ddangosir, drwy dystiolaeth gadarn, nad oes unrhyw obaith realistig o ddarparu defnyddiau cyflogaeth hyfyw ar y safle (gan gynnwys drwy ddefnydd parhaus, ailddatblygu neu adnewyddu, neu fel rhan o gynllun defnydd cymysg sy'n cadw defnydd cyflogaeth), dim ond pan fo cyfraniadau priodol gan y datblygwr yn cael eu sicrhau i wneud iawn am y niwed economaidd sy'n deillio o golli'r safle cyflogaeth y caniateir datblygu, yn unol â Pholisi SP6 (Rhwymedigaethau Cynllunio).'**<br><br>7.110 Mae'r Polisi hwn yn darparu meini prawf ar gyfer asesu cynigion i newid defnydd tir busnes, diwydiannol a warws gwarchodedig safleoedd a ddynodwyd o dan Bolisi EC3.<br>7.111 Er bod Polisi EC3 yn gwarchod tir ac eiddo cyflogaeth fel rhan o bortffolio tir cyflogaeth Caerdydd, gall amgylchiadau godi lle mae cynigion yn dod ymlaen ar gyfer defnyddiau amgen. Mae Polisi EC5A yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried cynigion o'r fath, gan gydnabod yr angen i gydbwyso gwarchod tir a safleoedd cyflogaeth gydag amgylchiadau marchnad sy'n newid ac ystyriaethau safle-benodol. Bydd disgwyl i gynigion sydd am weld colli tir neu safle cyflogaeth gwarchodedig ddangos, trwy dystiolaeth gadarn, nad oes unrhyw obaith rhesymol o weld defnydd cyflogaeth yn parhau.<br>7.112 Wrth benderfynu a oes posibilrwydd rhesymol y bydd tir neu safle yn cael ei gadw, ei ailddefnyddio neu ei feddiannu at ddibenion cyflogaeth o dan Bolisi EC5A, bydd y Cyngor yn ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys:<br><br>• Os ac am ba hyd y bu tir neu safle yn wag ac wedi ei farchnata'n weithredol, ynghyd â manylion ymholiadau a datganiadau o ddiddordeb a ddaeth i law yn ystod y cyfnod hwn;<br><br>• A yw'r safle yn cynnig buddion penodol nad ydynt ar gael yn gyffredinol ym mhortffolio tir cyflogaeth Caerdydd; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • A yw'r safle o fewn ardal o ddiweithdra uchel ac yn cynnig gobaith realistig o ddefnydd cyflogaeth;<br><br>• A ellir hwyluso adleoli meddianwyr presennol i safle amgen addas heb amharu ar eu gweithrediad a'u twf parhaus;<br><br>• A fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cadw elfen o arwynebedd llawr cyflogaeth fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg;<br><br>• P'un a yw cyfleoedd i gadw'r tir neu'r safle i gyd neu ran ohono mewn defnydd cyflogaeth trwy adnewyddu, addasu, isrannu, ailgyflunio neu ailddatblygu wedi'u harchwilio yn llawn; ac<br><br>• Effaith y cynnig ar rôl a swyddogaeth y safle neu'r eiddo o fewn portffolio tir cyflogaeth Caerdydd, gan gynnwys yr effaith ar gyflenwad, ystod, dewis a dosbarthiad tir a safleoedd cyflogaeth ledled y Ddinas.<br><br>7.113 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwahanol fathau o dir a safleoedd cyflogaeth yn cyflawni swyddogaethau gwahanol o fewn portffolio tir cyflogaeth Caerdydd ac yn ddarostyngedig i amodau marchnad gwahanol. Mae safleoedd diwydiannol, gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu yn aml yn cynrychioli adnodd cyfyngedig gyda chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer darpariaeth yn ei le. Gall gofod swyddfa a busnes fod yn destun patrymau newidiol o alw a gofynion gan feddianwyr, gan gynnwys yr angen am weithle modern a hyblyg. Bydd goblygiadau colli tir cyflogaeth felly yn amrywio yn ôl y math o ofod y bwriedir ei golli ac argaeledd darpariaeth amgen.<br><br>7.114 Pan ystyrir bod colli tir neu safle cyflogaeth gwarchodedig yn dderbyniol o dan Bolisi EC5A, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys defnyddiau cyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol, lle bo hynny'n briodol. Dylai datblygiadau o'r fath sicrhau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy mwyaf posib yn unol â Pholisi H3 Tai Fforddiadwy.<br>7.115 Gall ailddatblygu preswyl defnydd cymysg ddarparu cyfleoedd i gadw swyddogaeth gyflogaeth ar y safle drwy ddarparu gweithle modern a hyblyg sy'n diwallu gofynion busnes yn well ac sy'n cyfrannu at y cyflenwad, yr ystod a'r dewis o safleoedd cyflogaeth yng Nghaerdydd.<br>7.116 Gall gofod gwaith a ddarperir neu a gedwir o fewn cynigion ailddatblygu gynnwys gofod gwaith bach hyblyg ar gyfer busnesau newydd a thwf cam cynnar, defnyddiau B1(a), B1(b) a B1(c), gofod i wneuthurwyr, gofod gwaith fforddiadwy, gofod i ddiwydiannau diwylliannol, logisteg leol a chyfleusterau at ddibenion cymunedol. Mae mentrau a safleoedd o'r math hwn mewn sectorau allweddol sy'n dod i'r amlwg yn aml yn ffafrio mathau newydd o ofod gwaith. Gall darpariaeth o'r fath arwain at ddwysáu'r defnydd cyflogaeth ar safle. Dylai'r elfen ofod gwaith fod yn gymesur â graddfa a lleoliad y cynnig a thalu sylw i ddwysedd cyflogaeth y defnydd diweddaraf. Dylid ystyried dyluniad, lleoliad a meddiannaeth bosibl yr elfen ofod gwaith o fewn cynigion datblygu defnydd cymysg i sicrhau cydnawsedd y gofod â datblygiadau preswyl cyfagos.<br>7.117 Mae hefyd yn bwysig sicrhau nad yw cyflwyno defnyddiau preswyl neu ddefnyddiau eraill i ardal ddiwydiannol neu warysau yn cyfyngu ar amodau gweithredu y busnesau sy'n parhau yno.<br><br>7.118 Mae tir cyflogaeth Caerdydd yn adnodd cyfyngedig ac, ar ôl ei golli, mae'n annhebygol y byddai'n dychwelyd i ddefnydd cyflogaeth. Er y gall amodau marchnad sy'n newid effeithio ar hyfywedd datblygu cyflogaeth ar adeg benodol, nid yw hyn o reidrwydd yn dangos nad oes gan safle werth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyflogaeth hirdymor. Felly, gall colli tir cyflogaeth sydd wedi ei warchod leihau hyblygrwydd a gwydnwch portffolio tir cyflogaeth Caerdydd a rhaid ei ystyried yn ofalus yng nghyd-destun y strategaeth tir cyflogaeth ehangach.<br><br>7.119 Pan fo datblygwr yn dangos nad oes gan safle cyflogaeth warchodedig ragolygon rhesymol o ddefnydd cyflogaeth parhaus, naill ai fel safle cyflogaeth annibynnol neu fel rhan o ailddatblygu defnydd cymysg, gall y Cyngor ystyried defnyddiau amgen, yn amodol ar gydymffurfio â pholisïau eraill y Cynllun. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ba raddau y mae cynigion ailddatblygu yn ymgorffori gofod cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a mesurau eraill sy'n cefnogi amcanion economaidd y Cynllun. Bydd pob cynnig yn cael ei asesu ar ei rinweddau, gan gynnwys i ba raddau y gallai arwain at ddefnyddiau ynysig nad ydynt yn rai cyflogaeth o fewn ardaloedd cyflogaeth, ac a fyddai ailddatblygu mwy cynhwysfawr yn cefnogi amcanion cynllunio hirdymor yr ardal yn well.<br><br>7.120 Lle bo'n briodol, gofynnir i ddatblygwyr wneud darpariaeth ar gyfer cyfraniad priodol tuag at gyflwyno cyfleoedd cyflogaeth i wneud iawn mewn mannau eraill yn y Sir yn unol â Pholisi SP6 Rhwymedigaethau Cynllunio.<br><br>7.121 Lle mae potensial i ddatblygu unedau preswyl ar ardaloedd a glustnodwyd yn flaenorol at ddefnydd masnachol/diwydiannol, mae angen asesiad priodol ar gyfer presenoldeb halogiad tir. Nid yw'r safonau halogiad tir a osodir ar gyfer defnydd masnachol/diwydiannol yn addas i'w defnyddio mewn cyd-destun preswyl ac felly gall risgiau annerbyniol i'r defnyddwyr terfynol fod yn bresennol a fyddai'n gofyn am waith adfer priodol. |
| PPC7 | HS6.6<br>*Y Cyngor i adolygu Polisi EC6*<br>• *Mynd i'r afael â'r tensiwn rhwng yr angen i ddangos nad oes angen gofod swyddfa (i) a'r gofyniad i'w ddarparu (ii).*<br>• *Ystyried a ellir esbonio'r ymadrodd 'fformat cyfredol' yn gliriach*<br>• *Egluro cyfeiriad at preswyl yn (ii) i'w gwneud yn gliriach yr hyn a fwriedir*<br>• *Profi'r polisi wedi'i ailddrafftio i sicrhau ei fod yn darparu'r amddiffyniad a fwriadwyd i ofod swyddfa. Fel y drafftiwyd mae'n bosibl na fyddai angen darparu elfen o ddefnydd swyddfa.* | Polisi EC6 | **EC6: DIOGELU SWYDDFEYDD YN ARDALOEDD BUSNES Y CANOL A'R BAE**<br><br>**Ni chaniateir colli gofod swyddfa o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae oni bai y gellir dangos:**<br><br>**i. na fyddai'r golled yn tanseilio rôl economaidd a swyddogaeth yr Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae trwy ostyngiad annerbyniol yn y cyflenwad, yr ystod a'r dewis o ofod swyddfa;**<br>**ii. nid oes unrhyw obaith rhesymol y caiff y safle ei chadw neu ei hailddefnyddio at ddibenion swyddfa, o ystyried y galw am ofod swyddfa a'r angen i gynnal cyflenwad, ystod a dewis priodol o safleoedd swyddfa; ac**<br>**iii. Mae cyfleoedd ar gyfer adnewyddu, addasu, isrannu, ailgyflunio neu ailddatblygu i gadw neu ddarparu gofod swyddfa wedi'u hystyried yn llawn, ac mae tystiolaeth wedi'i darparu pam nad yw cyfleoedd o'r fath yn hyfyw nac yn gyflawnadwy.**<br><br>**Pan fo gofynion meini prawf i - iii wedi'u bodloni, bydd disgwyl i gynigion sy'n ymwneud â newid defnydd gofod swyddfa i ddefnyddiau nad ydynt yn gyflogaeth (preswyl), gadw neu ddarparu elfen o ofod llawr swyddfa lle gellir cyflawni hyn yn rhesymol fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg.**<br><br>7.122 Mae Polisi EC6 yn ceisio diogelu'r cyflenwad, yr ystod a'r dewis o ofod swyddfa o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae a nodwyd ar y Map Cynigion, gan gefnogi anghenion meddianwyr presennol a darpar feddianwyr. Mae hyn yn berthnasol i ofodau swyddfa p'un a ydynt wedi'u meddiannu, yn wag neu'n destun caniatâd cynllunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Ailddrafftio i ddileu 'a/neu' gan gyflwyno cymalau ychwanegol os oes angen* | | 7.123 Mae Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae yn cynnwys ystod eang o adeiladau swyddfa, gan gynnwys rhai Gradd A modern (e.e. y Sgwâr Canolog); adeiladau uchel a godwyd yn y 1960au a'r 1970au (e.e. Heol Casnewydd); swyddfeydd uwchben eiddo masnachol (e.e. Heol Eglwys Fair a Heol y Brodyr Llwydion); a filas hanesyddol i'r gogledd o ganol y ddinas (e.e. Plas y Parc a Phlas Windsor). Mae'r ystod yma yn darparu gofod i fusnesau sydd â gofynion gwahanol ac yn cefnogi rôl a swyddogaeth economaidd barhaus Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae.<br><br>7.124 Er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn parhau i ddenu a chadw busnesau, dylai Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae gynnal cyflenwad ac amrywiaeth ddigonol o ofod swyddfa i ddiwallu gofynion meddianwyr presennol a darpar feddianwyr. Mae hyn yn cynnwys swyddfeydd Gradd A mawr, gofod ar gyfer busnesau bach a chanolig, unedau deori a gofodau gweithio hyblyg. Gall colli adeiladau unigol ymddangos yn gyfyngedig, ond gall effaith gronnol newidiadau olynol ar ddefnydd leihau ystod, dewis ac argaeledd gofod swyddfa a thanseilio swyddogaeth cyflogaeth ABCB<br><br>7.125 Disgwylir i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth i ddangos nad oes unrhyw obaith rhesymol ac y gellir ei ddangos y gellid cadw neu ailddefnyddio'r safle at ddibenion swyddfa. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth bod y safle wedi'i marchnata'n wirioneddol ac yn effeithiol ar gyfer defnydd parhaus fel swyddfa, fel arfer am gyfnod parhaus o 24 mis o leiaf, am bris gofyn neu rent realistig o ystyried amodau'r farchnad sy'n bodoli a nodweddion, cyflwr, lleoliad a maint y safle.<br><br>7.126 Bydd y Cyngor yn ystyried hyd a natur yr ymarfer marchnata, y pris gofyn neu'r rhent o'i gymharu ag amodau'r farchnad, cyflwr ac addasrwydd y safle, lefelau'r diddordeb a'r ymholiadau a dderbyniwyd, ac unrhyw gynigion a wnaed. Ni fydd absenoldeb gosod neu werthu llwyddiannus, ynddo'i hun, yn dangos nad oes unrhyw obaith rhesymol o barhau â'r defnydd swyddfa. Bydd y dystiolaeth yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd, gan ystyried addasrwydd y safle a'r galw am ofod swyddfa o'r math, maint a lleoliad dan sylw.<br><br>7.127 Mae angen rhywfaint o swyddfeydd gwag er mwyn caniatáu trosiant arferol busnesau ac er mwyn gallu adnewyddu, addasu neu foderneiddio adeiladau i ddiwallu anghenion busnes sy'n newid. Fodd bynnag, gall swyddfa wag am gyfnod hir effeithio'n andwyol ar atyniad, bywiogrwydd a hyfywedd ABCB. Bydd swyddfeydd gwag felly yn cael eu hystyried yng nghyd-destun amodau'r farchnad ar y pryd, hyd a natur yr eiddo gwag, cyflwr ac addasrwydd yr eiddo, a lefel a natur y galw am ofod swyddfa.<br><br>7.128 Cydnabyddir fodd bynnag, dros amser, y gall rhai adeiladau swyddfa ddyddio yn eu fformat presennol (er enghraifft o ran cynllun y plât llawr neu'r seilwaith data ategol) ac nad ydynt bellach yn diwallu anghenion arferion gwaith modern. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd disgwyl i ymgeiswyr hefyd ddangos bod cyfleoedd rhesymol i gadw'r holl ddefnydd swyddfa neu ran ohono wedi wedi cael eu hystyried yn briodol. Gallai hyn gynnwys adnewyddu, moderneiddio, addasu, isrannu, ailgyflunio neu ailddatblygu'r eiddo.<br><br>7.129 Pan gynigir defnyddiau nad ydynt yn rai cyflogaeth (preswyl), bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut mae cyfleoedd i gadw neu ail-ddarparu gofod llawr swyddfa fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg wedi cael eu hystyried. Gall ailddatblygiad defnydd cymysg ar adeiladau swyddfa yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae greu cyfleoedd i ddarparu ystod a dewis mwy o ofod llawr swyddfa newydd ac wedi'u huwchraddio, yn enwedig o ran busnesau bach a chanolig. Gallai defnyddiau gynnwys, er enghraifft, gofod gwaith hyblyg ar gyfer busnesau newydd a thwf cam cynnar, gofodau 'desgio poeth' a chyd-weithio. Gall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darpariaeth o'r fath helpu i arwain at ddwysáu a chynyddu amrywiaeth defnyddiau cyflogaeth mewn ardal a, pan gaiff hyn ei gadw ar y llawr gwaelod, gall gyfrannu tuag at atyniad a hyfywedd strydoedd a mannau cyhoeddus trwy ddarparu ffryntiadau masnachol gweithredol.<br><br>7.130 Nid y bwriad yw gofyn am gyfran neu gwantwm penodol o ofod swyddfa ym mhob datblygiad. Bydd faint a math yr arwynebedd llawr swyddfa y gellir ei gadw neu ei ddarparu'n rhesymol yn dibynnu ar nodweddion, lleoliad, cyflwr ac addasrwydd y safle, y galw am ofod swyddfa a'r cyfraniad y mae'r safle yn ei wneud i swyddogaeth gyflogaeth Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae.<br><br>7.131 Pan fo modd ymgorffori elfen o arwynebedd llawr swyddfa'n rhesymol, dylid ei ddylunio a'i leoli fel y gall weithredu'n effeithiol at ddibenion swyddfa a'i fod yn cyfrannu at y cyflenwad, yr ystod a'r dewis o ofod swyddfa. Pan fo'r ymgeisydd o'r farn na ellir cyflawni darpariaeth swyddfa yn rhesymol, dylai'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth sy'n esbonio pam nad yw hyn yn ymarferol neu'n briodol.<br><br>7.132 Pan fo'r Cyngor yn fodlon na ellir cyflawni darpariaeth swyddfa yn rhesymol, gellir ceisio cyfraniad priodol tuag at gyfleoedd cyflogaeth i wneud iawn mewn rhannau eraill o'r Sir yn unol â Pholisi SP6 Rhwymedigaethau Cynllunio.<br><br>7.133 Nid yw'r polisi yn ceisio cadw adeiladau swyddfa waeth beth fo'u haddasrwydd neu y galw yn y farchnad. Yn hytrach, mae'n ceisio sicrhau bod colli gofod llawr swyddfa yn cael ei gyfiawnhau'n briodol, bod cyfleoedd rhesymol i'w gadw yn barhaus neu'n rhannol wedi'u hystyried, ac nad yw colli gofod llawr swyddfa yn tanseilio strategaeth economaidd y Cynllun a rôl a swyddogaeth Ardaloedd Busnes Y Canol a'r Bae. |
| PPC8 | **Pwynt Gweithredu HS6.7**<br>Yng ngoleuni'r newidiadau i bolisïau sy'n deillio o HS6.5 a HS6.6, y Cyngor i adolygu'r holl bolisïau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i sicrhau bod iaith, cymalau ac ymagwedd cyson ar draws polisïau cysylltiedig. | | Polisi H9, Paragraff 7.58 y testun ategol - newid enw'r polisi croesgyfeirio i'r fersiwn ddiwygiedig EC5A: Gwarchod a Defnydd Amgen o Dir a Safleoedd Cyflogaeth |

## 5. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 7 Manwerthu

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC9 | HS7.1<br>*Y Cyngor i adolygu geiriad, strwythur, diffiniad gofodol, a meini prawf y polisïau canlynol, a gwneud diwygiadau priodol i'r polisïau canlynol. Wrth adolygu, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y berthynas rhwng gwahanol feini prawf (cronnus, annibynnol), y pwysoli i'w gymhwyso i feini* | SP8, | **PS8: CEFNOGI ARDALOEDD BUSNES Y CANOL A'R BAE**<br><br>**Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae fydd y prif ffocws ar gyfer defnyddiau swyddfa, masnachol, hamdden, diwylliannol ac ategol i'r defnyddiau canol tref. O fewn yr Ardal Fusnes Ganolog, bydd yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog yn gwasanaethu fel y prif ffocws ar gyfer manwerthu, hamdden a datblygiad ategol canol tref.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *prawf unigol (hierarchaeth polisi), ac a yw'r meini prawf yn berthnasol ym mhob achos neu'n ddethol gymwys mewn gwahanol achosion, i gyd wedi'u diffinio'n glir.*<br>• *Polisïau: -*<br>- *SP8*<br>- *A2*<br>- *A3*<br>- *A4*<br>- *A5*<br>- *A9*<br>*Mae'r adolygiad i nodi'n glir sut mae'r newidiadau a awgrymwyd yn y ddogfen Ymateb i Gwestiynau Arolygwyr (ID04) ac yn natganiadau'r sesiwn wrandawiad wedi cael sylw.*<br><br>HS7.2<br>*Yng ngoleuni'r newidiadau i bolisïau sy'n deillio o HS7.1, y Cyngor i adolygu'r holl bolisïau eraill cysylltiedig i sicrhau bod iaith, cymalau ac ymagwedd yn gyson ar draws polisïau cysylltiedig.*<br>**Pwynt Gweithredu HS7.3**<br>*Cyngor i wirio terminoleg Polisi Cynllunio Cymru ar draws adrannau'r CDLlN sy'n ymwneud â manwerthu.* | | **Bydd y mathau canlynol o ddatblygiad yn cael eu cefnogi, yn amodol ar bolisïau perthnasol y Cynllun**<br><br>**i. Datblygiadau swyddfeydd newydd, defnyddiau masnachol, hamdden a diwylliannol o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae;**<br><br>**ii. Datblygiadau preswyl sy'n cefnogi cymeriad defnydd cymysg Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae. Bydd datblygu preswyl ar y llawr gwaelod ond yn cael ei gefnogi lle na fyddai'n arwain at golli ffryntiad masnachol gweithredol neu uned fasnachol weithredol.**<br><br>**iii. Defnyddiau manwerthu, hamdden a defnyddiau ategol canol tref yn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog lle maent yn cefnogi ac yn gwella hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad y AMMC.**<br><br>**iv. Defnyddiau eraill sydd wedi'u lleoli'n briodol yng nghanol dinasoedd, gan gynnwys defnydd diwylliannol, adloniant a lletygarwch sy'n cefnogi'r economi gyda'r hwyr a'r nos.**<br><br>6.73 Mae Polisi SP8 yn nodi'r ystod o ddefnyddiau priodol o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae ac yn cefnogi datblygiad sy'n cynnal ac yn cryfhau eu rôl fel prif leoliadau Caerdydd ar gyfer cyflogaeth, masnach, diwylliant, hamdden a gweithgareddau ymwelwyr. Yr Ardal Fusnes Ganolog (AFG) ac Ardal Fusnes y Bae (AFB), a nodir ar y Map Cynigion, yw prif leoliadau Caerdydd ar gyfer gweithgareddau swyddfa, masnachol, hamdden, diwylliannol, dinesig ac ymwelwyr. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio calon economaidd, gweinyddol a diwylliannol y ddinas ac yn gwasanaethu trigolion, busnesau ac ymwelwyr o bob rhan o Gaerdydd, y Brifddinas-ranbarth a thu hwnt. Mae eu lefelau uchel o hygyrchedd trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn cefnogi eu rôl fel lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygu sy'n cynhyrchu lefelau sylweddol o weithgarwch a niferoedd ymwelwyr.<br><br>6.74 O fewn yr Ardal Fusnes Ganolog, yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog yw'r prif leoliad ar gyfer defnyddiau manwerthu, hamdden a defnyddiau ategol canol tref. Mae cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad yr AMMC yn bwysig i rôl Caerdydd fel y ganolfan ranbarthol ar ben yr hierarchaeth siopa.<br><br>6.75 Yr Ardal Fusnes Ganolog yw'r prif ffocws ar gyfer datblygu swyddfeydd, gweithgarwch busnes, addysg uwch, swyddogaethau dinesig a gwasanaethau masnachol. Mae'r ardal yn cael ei chysylltu'n agos â llawer o asedau diwylliannol, treftadaeth, dinesig ac addysgol mwyaf arwyddocaol Caerdydd. Mae crynodiad cyflogaeth, gwasanaethau ac atyniadau yn yr ardal yn cyfrannu'n sylweddol at rôl Caerdydd fel prifddinas Cymru.<br><br>6.76 Mae Ardal Fusnes y Bae yn lleoliad o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer gweithgareddau llywodraeth, twristiaeth, diwylliant, hamdden a'r glannau. Mae'r ardal wedi gweld adfywiad sylweddol dros y degawdau diwethaf. Bydd datblygiad yn y dyfodol yn adeiladu ar y cryfderau hyn drwy gefnogi buddsoddiad, gwella cysylltedd, gwella'r ardal gyhoeddus a'r amgylchedd glannau, ac atgyfnerthu rôl Bae Caerdydd fel cyrchfan i drigolion, ymwelwyr a busnesau.<br><br>6.77 Mae defnyddiau hamdden, twristiaeth, diwylliannol ac adloniant yn gyfrannwyr pwysig at economi a hunaniaeth Caerdydd. Mae'r sectorau hyn yn cynhyrchu cyflogaeth, yn denu buddsoddiad ac ymwelwyr, ac yn cefnogi rôl y ddinas fel cyrchfan ranbarthol a chenedlaethol. Gall datblygiad sy'n ehangu |

ystod ac ansawdd cyfleusterau hamdden, hamddena, diwylliannol ac ymwelwyr gyfrannu at dwf economaidd, creu lleoedd, lles cymunedol a bywiogrwydd economïau'r dydd a'r nos.

6.78 Mae Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae hefyd yn cynnwys poblogaeth breswyl sy'n tyfu ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer byw cynaliadwy dinesig. Gall datblygiad preswyl gyfrannu at greu cymdogaethau cytbwys, defnydd cymysg sy'n cefnogi gwasanaethau lleol, gwella gweithgarwch gydol y dydd a'r nos, a gwneud defnydd effeithlon o leoliadau hygyrch iawn. Dylai datblygiad preswyl ategu a chefnogi prif swyddogaethau masnachol, diwylliannol, hamdden a chyflogaeth yr ardaloedd hyn ac ni ddylai fod yn anfantais i'w twf a'u gweithrediad parhaus.

6.79 Bydd buddsoddiad parhaus mewn trafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith teithio llesol, gwelliannau i'r ardal gyhoeddus ac adfywio defnydd cymysg yn cryfhau ymhellach rôl yr Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae fel prif ffocws Caerdydd ar gyfer cyflogaeth, masnach, diwylliant, hamdden a gweithgarwch ymwelwyr. Bydd y buddsoddiadau hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni twf cynaliadwy, yn gwella cysylltedd rhwng canol y ddinas a Bae Caerdydd, ac yn atgyfnerthu safle Caerdydd fel prifddinas economaidd a diwylliannol Cymru.

**R1: HIERARCHAETH MANWERTHU A DULL CANOL TREFI YN GYNTAF**

**Bydd cynigion manwerthu (gan gynnwys newidiadau defnydd, ailddatblygu ac isrannu), masnachol, hamdden, addysg, iechyd, cymuned, cyfleusterau gwasanaeth cyhoeddus, datblygiadau cyflogaeth priodol (Swyddfeydd B1) a defnyddiau preswyl yn cael sylw yn ôl yr hierarchaeth ganlynol, gan ystyried os yw natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig yn gydnaws â rôl a swyddogaeth ddiffiniedig y ganolfan yn unol â'r ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf.**

Ffefrir defnyddiau gweithredol (defnydd dosbarthiadau A1, A2, A3, B1 (swyddfeydd), C1, C2, C3, D1 neu D2 o ran trefn y dosbarthiadau defnydd neu ddefnydd sui generis a geir fel arfer mewn canolfannau, neu unrhyw ddefnydd cymysg sy'n cynnwys un neu fwy o'r dosbarthiadau hyn) sydd yn cyfrannu at gynnal ~~bywiogrwydd~~ bywiogrwydd, hyfywedd ac ~~amrywiaeth~~ atyniad canolfannau.

**Bydd datblygiad preswyl newydd sy'n gwneud defnydd cadarnhaol o loriau uchaf eiddo ac o fannau segur a gaiff eu danddefnyddio i ffwrdd o ffryntiadau masnachol yn cael eu hannog o fewn canolfannau.**

**Hierarchaeth Canolfannau**

| | Rôl | Canolfannau |
|---|---|---|
| **~~Ardal Siopa Ganolog~~ (~~neu~~ Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog (AMMC)** | Mae'n darparu ystod eang o siopau, gwasanaethau manwerthu ac heb fod yn fanwerthu, busnesau, cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chymunedol i wasanaethu'r ddinas a chefnwlad sylweddol y tu hwnt i'r ddinas. Mae'n ganolbwynt i'r rhwydweithiau cymunedol ac i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. | ~~Ardal Siopa Ganolog~~ Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog |
| **Canolfannau Ardal** | Maent yn darparu (neu â'r potensial i ddarparu) amrywiaeth | Heol Albany / Heol Wellfield<br>Heol y Plwca |

| | | |
|---|---|---|
| | o siopau, gwasanaethau manwerthu a heb fod yn fanwerthu, busnesau a chyfleusterau cymunedol i faestref ac o bosib i faestrefi cyfagos. | Stryd Clifton<br>Heol Ddwyreiniol y Bont-faen<br>Heol y Crwys / Heol Woodville<br>Stryd Bute / Stryd James<br>Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd<br>Heol Penarth / Heol Clare<br>Llaneirwg<br>Y Ddraenen<br>Heol yr Eglwys Newydd |
| **Canolfannau Lleol** | Maent yn darparu (neu â'r potensial i ddarparu) grŵp bach o unedau, fel arfer yn cynnwys siop gyfleustra fach, siopau bach eraill o natur leol, a rhai gwasanaethau manwerthu neu heb fod yn rhai manwerthu. fel rheol, bydd yn gwasanaethu'r faestref y saif ynddi. | Llwynbedw<br>Stryd Bute (Sgwâr Loudoun)<br>Heol y Gadeirlan<br>Rhodfa Countisbury<br>Lôn Caerau<br>Lawnt y Tyllgoed<br>Rhodfa Gabalfa<br>Y Rhodfa Fawr<br>Stryd Fawr, Llandaf<br>Y Maelfa, Llanedern<br>Heol Casnewydd, Tredelerch<br>Pentref Rhiwbeina<br>Heol Salisbury<br>Heol y Sblot<br>Heol yr Orsaf, Llanisien<br>Heol yr Orsaf, Ystum Taf<br>Heol yr Orsaf, Radur<br>Stryd Tudor<br>Rhodfa Nant Helyg<br>Heol Wilson |

7.154 Mae'r polisi hwn yn nodi hierarchaeth rhwydwaith canolfannau'r ddinas yn unol â'u rôl a'u swyddogaeth. Mae hyn yn rhoi cyd-destun ar gyfer asesu cynigion datblygu newydd ac i arwain datblygiad i'r lleoliadau mwyaf priodol yn unol â'r dull 'canol trefi yn gyntaf'. Dilynir ymagwedd ddilyniannol yn unol â'r hierarchaeth hon. Mae'r hierarchaeth, yr ymagwedd bolisi drosfwaol a chymhwyso'r dull dilyniannol sy'n ceisio diogelu bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau, yn ceisio sicrhau bod cydbwysedd i'w chael rhwng cyflwyno unedau manwerthu mawr y tu allan i ganolfannau a chynnal a gwella canolfannau presennol.

7.155 ~~Canol Dinas Caerdydd~~ Yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog (AMMC) fydd y prif gyrchfan o hyd ar gyfer y prif ddefnyddiau canol tref, gan gynnwys manwerthu, swyddfeydd, masnach, hamdden, y celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth a defnyddiau ategol gyda'r hwyr a'r nos a datblygiadau sylweddol eraill sy'n cynhyrchu niferoedd ymwelwyr sy'n gwasanaethu marchnad ledled y ddinas ac yn rhanbarthol. Cefnogir ~~Canol y Ddinas~~ yr AMMC gan amrywiaeth o Ganolfannau Ardal a Chanolfannau Lleol llai eu maint. Mae Canolfannau Ardal yn gwasanaethu anghenion dalgylch lleol eang a byddant yn brif ffocws ar gyfer datblygu a buddsoddi o ran prif ddefnyddiau canol tref y tu allan i'r ~~Ganol y Ddinas~~ AMMC, gan gynnwys gofodau gweithio hyblyg, defnyddiau ategol gyda'r hwyr a'r nos a chyfleusterau cymunedol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Canolfannau Lleol yn fwy preswyl eu natur ac yn gwasanaethu anghenion dydd-i-ddydd dalgylch lleol, llai eu faint, sy'n darparu siopa, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol ac maent yn werthfawr wrth gyfrannu at gymunedau cynaliadwy lle mae'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl ar gael yn agos i'w cartrefi.<br>7.157 Mae Polisi R1 yn cefnogi ~~Canol y Ddinas~~ AMMC, Canolfannau Ardal a Lleol fel canolfannau o weithgarwch economaidd-gymdeithasol a'r pwyntiau ffocws ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion y cymunedau a wasanaethant. Maent yn gweithredu fel y lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy ar gyfer cyfleusterau manwerthu, hamdden, cymunedol newydd a chefnogi datblygiad masnachol. Bydd cydleoli cyfleusterau a gwasanaethau mewn lleoliadau o'r fath yn helpu i gefnogi eu hiechyd a'u ~~bywiogrwydd~~ bywiogrwydd hirdymor fel lleoedd cyfleus a deniadol i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu, astudio, cyrchu gwasanaethau iechyd a lles ynddynt ac i gynnal busnes. Bydd yr ymagwedd yma hefyd yn annog teithiau cysylltiedig a gostyngiad yn y galw am deithio, gan gydnabod eu bod yn cynnig mwy nag ardaloedd manwerthu dynodedig. Rhaid i ddatblygiadau mawr gydymffurfio â'r polisi 'Canol Trefi yn Gyntaf' sydd wedi'i gynnwys yn PCC a Chymru'r Dyfodol, i helpu i adeiladu cymunedau cryf, ac ymateb i effeithiau tymor hir Covid-19, sydd nid yn unig wedi ail-ffocysu bywydau pobl a chymunedau ond wedi gweithredu fel sbardun pellach tuag at wneud canolfannau yn lleoedd aml-swyddogaethol.<br>7.158 Wrth gydnabod bod ~~Canol y Ddinas~~ AMMC, Canolfannau Ardal a Lleol yn symud i ffwrdd o'u rolau manwerthu traddodiadol, mae Polisi R1 a'i bolisïau ategol, yn ceisio cynnal llwyddiant parhaus y canolfannau hyn, gan gydnabod a chefnogi eu rôl a'u galluogi i arallgyfeirio mewn modd sy'n eu cadw wrth galon y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac yn sicrhau canolfannau sydd yn canolbwyntio ar amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r ymagwedd 'Canol Trefi yn Gyntaf' yn allweddol i alluogi canolfannau o'r fath i ddod fwyfwy yn lleoedd aml-swyddogaethol a chanolbwynt cymunedol a'u gwneud yn hyfyw fel cyrchfannau i fynd iddynt. Bydd hyn yn ategu ymdrechion i adfywio canolfannau manwerthu a masnachol drwy greu mwy o ofod allanol, ailddefnyddio ardaloedd sydd heb eu defnyddio, dechrau hybiau cydweithio o bell, a'r ffocws i wasanaethau cyhoeddus mwy hygyrch.<br>7.159 Felly, cefnogir defnyddiau gweithredol (A1/A2/A3/B1 (swyddfeydd) /C1/C2/C3/D1/D2) sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal a gwella ~~bywiogrwydd~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad canolfannau a hyfywedd a ~~bywiogrwydd~~ llewyrch ffryntiadau masnachol. Dylai cynigion datblygu neu ailddatblygu newydd barchu eu lleoliad o fewn canolfan a darparu arwynebedd llawr gweithredol priodol ar y llawr gwaelod. Gall darparu gofod llawr manwerthu a masnachol newydd, modern ar y llawr gwaelod ddenu meddianwyr newydd a chynyddu ~~bywiogrwydd, atyniad a~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad cyffredinol canolfannau.<br><br>7.160 Yn yr un modd, mae addasu gofod ~~gwag~~ ar lefelau llawr uchaf at ddefnydd preswyl a/neu ofod segur a gwagle segur i ffwrdd o'r ffryntiad masnachol yn gyfraniad gwerthfawr i stoc dai'r ddinas ac yn darparu cartrefi y mae mawr eu hangen a bydd hefyd yn cael ei annog am ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu cymunedau cynaliadwy, bywiog, cymysg eu defnydd lle mae pobl yn byw, siopa a gweithio. Mae canolfannau yn parhau i fod yn brysur y tu hwnt i oriau busnes, gan gynyddu lefelau gwyliadwriaeth a darparu marchnad ar gyfer defnyddiau ategol sy'n gysylltiedig ag economi'r nos.<br><br>**R2: Datblygu yn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog**<br><br>**O fewn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog, fel y nodir ar y Map Cynigion, caiff cynigion datblygu eu caniatáu dim ond pan:**<br><br>**i. Nad ydynt yn arwain at golli annerbyniol ar ddefnyddiau Dosbarth A1 (siop) o fewn Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig, gan ystyried gofynion Polisi R3.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **ii. Cynnal a gwella rôl yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog fel y brif gyrchfan siopa, masnachol, hamdden a diwylliannol;**<br><br>**iii. Cyfrannu'n gadarnhaol at fywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog trwy ddarparu manwerthu a defnyddiau ategol eraill yng nghanol y ddinas.;**<br><br>**iv. Cadw neu hwyluso'r defnydd effeithiol o loriau uchaf, gan gynnwys ar gyfer defnyddiau masnachol, preswyl, hamdden, diwylliannol neu ddefnyddiau ategol eraill yng nghanol y ddinas, pan fo'n gydnaws â chymeriad a gweithrediad yr adeilad; ac**<br><br>**v. Cefnogi adfywio, adnewyddu a gwella canol y ddinas trwy wella ei atyniad, ei hygyrchedd, ei ansawdd amgylcheddol a'i wydnwch cyffredinol.**<br><br>**Bydd y meini prawf uchod yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, gan ystyried natur, graddfa a lleoliad y cynnig. Ni fydd pob maen prawf yn berthnasol i bob cynnig.**<br><br>7.161 Pwrpas y polisi hwn yw darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer asesu cynigion datblygu o fewn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog (AMMC), fel y nodir ar y Map Cynigion. Mae'r polisi yn ceisio cynnal a gwella rôl yr ardal fel prif gyrchfan manwerthu, masnachol, hamdden a diwylliannol ar gyfer Caerdydd a De-ddwyrain Cymru, tra'n cefnogi ei hadfywiad parhaus a'i haddasu i amodau economaidd sy'n newid.<br><br>7.162 Yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog yw pen hierarchaeth fanwerthu Caerdydd a De-ddwyrain Cymru. Mae'n gartref i brif strydoedd siopa, canolfannau siopa ac arcedau hanesyddol y ddinas ynghyd â swyddfeydd, gwestyau, bwytai, caffis, hamdden, adloniant, datblygiadau preswyl ac atyniadau diwylliannol. Mae canol y ddinas yn parhau i esblygu mewn ymateb i ymddygiad defnyddwyr sy'n newid, i newid technolegol ac i batrymau buddsoddi. Mae cynnal cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau ategol, tra'n diogelu prif swyddogaeth manwerthu'r ddinas, yn hanfodol i gefnogi ei hyfywedd, ei bywiogrwydd a'i gwydnwch hirdymor.<br><br>7.163 Mae Polisi R2 yn berthnasol i bob cynnig datblygu o fewn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog. O fewn yr ardal hon, mae rhai strydoedd siopa, arcedau a chanolfannau siopa wedi'u nodi fel Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig o dan Bolisi R3 oherwydd eu pwysigrwydd arbennig i brif swyddogaeth manwerthu'r ddinas. Bydd cynigion sy'n ymwneud â cholli defnyddiau Dosbarth A1 (siop) o fewn y ffryntiadau hyn felly yn cael eu hasesu yn erbyn gofynion penodol Polisi R3. Mewn mannau eraill o fewn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog, bydd cymysgedd ehangach o ddefnyddiau canol y ddinas yn cael eu cefnogi yn gyffredinol lle mae cynigion yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad canol y ddinas ac yn cefnogi ei hadfywio a'i hadnewyddiad.<br><br>7.164 O ran cydnawsedd defnyddiau, bydd angen ystyried yr egwyddor 'Cyfrwng Newid' fel y'i nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.<br><br>**R3: Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | O fewn y Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig a nodwyd ar y Map Cynigion, caniateir cynigion sy'n ymwneud â cholli defnyddiau Dosbarth A1 (siop) dim ond lle y gellir dangos na fyddai'r cynnig, naill ai'n unigol neu'n gronnus â defnyddiau nad ydynt yn siopau neu ymrwymedig ar hyn o bryd, yn tanseilio prif swyddogaeth manwerthu, bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y Ffryntiad Siopa Gwarchodedig.<br><br>Wrth asesu cynigion, bydd y Cyngor yn rhoi sylw, lle bo'n berthnasol, i'r materion canlynol:<br><br>i. Cyfran, dosbarthiad a chrynodiad y defnyddiau nad ydynt yn siopau presennol ac ymrwymedig o fewn y Ffryntiad Siopa Gwarchodedig, ac effaith gronnol y cynnig ar swyddogaeth manwerthu, llewyrch a hyfywedd y ffryntiad.<br><br>ii. Faint o arwynebedd llawr Dosbarth A1 a ffryntiad manwerthu gweithredol a fyddai'n cael ei golli a'r cyfraniad y mae'r safle yn ei wneud i gynnal ffryntiad manwerthu parhaus.<br><br>iii. A yw'r safle wedi cael ei farchnata'n weithredol am gyfnod parhaus o 12 mis o leiaf am bris marchnad realistig ac ar delerau masnachol rhesymol heb sicrhau meddiannydd Dosbarth A1 hyfyw.<br><br>iv. Lleoliad, amlygrwydd a nodweddion y safle o fewn y ffryntiad, gan gynnwys a fyddai'r cynnig yn creu neu'n ymestyn darn parhaus o dair uned neu fwy o nad ydynt yn siopau, neu fel arall yn arwain at grynodiad niweidiol o ddefnyddiau nad ydynt yn siopau.<br><br>v. A fyddai'r defnydd arfaethedig yn darparu ffryntiad llawr gwaelod gweithredol, gan gynnwys triniaeth siop briodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad y stryd siopa, yr arcêd neu'r ganolfan siopa.<br><br>vi. Effaith y cynnig ar amwynder meddianwyr cyfagos.<br><br>Bydd yr ystyriaethau uchod yn cael eu hasesu yn eu cyfanrwydd, gan ystyried natur, graddfa a lleoliad y cynnig. Rhoddir pwysau arbennig i effaith gronnol y cynnig ar swyddogaeth manwerthu, parhad, bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y Ffryntiad Siopa Gwarchodedig.<br><br>7.164 Mae'r Polisi hwn yn ceisio gwarchod swyddogaeth fanwerthu strydoedd siopa’r Ardal Manwerthu a Masnachu Canolog (Heol y Frenhines, Stryd Working, a'r Ais), ei chanolfannau siopa (Dewi Sant, Canolfan Capitol ac Arcêd y Frenhines) a'i Arcedau Fictoraidd (Arcêd y Stryd Fawr, Arcêd Heol y Dug, Arcêd y Castell, Arcêd Morgan, Arcêd Brenhinol ac Arcêd Wyndham). Mae'r Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig wedi'u nodi ar y Map Cynigion.<br><br>7.165 Prif bwrpas Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig yw cynnal amgylchedd manwerthu parhaus a deniadol o fewn prif strydoedd siopa, arcedau a chanolfannau siopa'r ddinas. Wrth gymhwyso Polisi R3, bydd cynigion yn cael eu hasesu gan ystyried eu heffaith gronnol ar swyddogaeth fanwerthu, bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y ffryntiad. Bydd arwyddocâd unrhyw golli ffryntiad manwerthu arfaethedig yn dibynnu ar y gyfran bresennol, y dosbarthiad a'r crynodiad o ddefnyddiau nad ydynt yn siopau, ynghyd â lleoliad, amlygrwydd a nodweddion y fangre o fewn y ffryntiad. Ystyrir a fyddai'r cydbwysedd rhwng defnyddiau siop (Dosbarth A1) a defnyddiau nad ydynt yn siopau yn aros ar neu'n uwch na 50%.' |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.166 Er mai manwerthu yw prif swyddogaeth Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig, gall cymysgedd priodol o ddefnyddiau ategol canol y ddinas gefnogi'r niferoedd ymwelwyr, cynyddu gweithgarwch gydol y dydd a'r nos, a gwella bywiogrwydd a gwydnwch cyffredinol canol y ddinas. Mae Polisi R3 yn caniatáu defnyddiau eraill, gan gynnwys Dosbarth A2 (Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol) a Dosbarth A3 (Bwytai, Caffis a Bariau Byrbrydau), lle nad ydynt yn tanseilio rôl a chymeriad manwerthu sylfaenol y ffryntiad neu'n anfantais i'w swyddogaeth manwerthu. Bydd defnyddiau o'r fath yn cael eu cefnogi lle maent yn cynnal ffryntiadau llawr gwaelod gweithredol ac nad ydynt yn creu crynodiadau niweidiol o ddefnyddiau nad ydynt yn fanwerthu. Bydd cynigion yn cael eu hystyried yn llai ffafriol lle byddent yn creu crynodiadau sylweddol o ddefnyddiau nad ydynt yn siopau neu'n ychwanegu at res parhaus o dair uned neu fwy nad ydynt yn siopau lle byddai hyn yn gwanhau gweithgaredd cerddwyr, y dewis siopa neu gymeriad manwerthu cyffredinol y ffryntiad.<br><br>7.167 Mae marchnata priodol yn ystyriaeth bwysig pan fo cynigion yn cynnwys colli arwynebedd llawr manwerthu Dosbarth A1 yn barhaol. Yn hyn o beth, bydd disgwyl i geisiadau gael eu cefnogi gan; tystiolaeth o 12 mis o leiaf o farchnata parhaus a marchnata ar rent/pris gwerthu realistig; adroddiad asiant masnachol; amserlen o ymholiadau ac ymweliadau; copïau o hysbysebion a manylion; esboniad o pam nad yw meddiannaeth manwerthu wedi'i wireddu.<br><br>7.168 Cydnabyddir y gall elfen o leoedd manwerthu gwag ddigwydd trwy drosiant naturiol busnesau neu drwy adnewyddu. Fodd bynnag, gall siopau gwag hirdymor fod yn ddangosydd cryf o ddirywiad a gallant effeithio'n andwyol ar ganol y ddinas ym marn siopwyr, busnesau a buddsoddwyr. Caiff cynigion sy'n ceisio dod â safleoedd manwerthu gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd buddiol, yn dilyn tystiolaeth o farchnata priodol, eu hystyried yn fwy ffafriol ar yr amod nad ydynt yn tanseilio swyddogaeth manwerthu'r Ffryntiad Siopa Gwarchodedig. Gall defnyddiau dros dro neu 'yn y cyfamser' hefyd gyfrannu'n gadarnhaol trwy gynnal gweithgaredd, cefnogi deori busnesau neu ddarparu gofod arddangos wrth leihau costau rheoli a chynnal a chadw i dirfeddianwyr.<br><br>**R4: CANOLFANNAU ARDAL**<br>**Bydd cynigion manwerthu (gan gynnwys newidiadau defnydd, ailddatblygu ac isrannu), masnachol, hamdden, addysg, iechyd, cymunedol, cyfleusterau gwasanaeth cyhoeddus, datblygiadau cyflogaeth priodol (B1 swyddfeydd) a defnyddiau preswyl yn cael eu ffafrio yn y canolfannau ardal canlynol a nodwyd ar y map cynigion.**<br><br>**1. Heol Albany / Heol Wellfield**<br><br>**2. Heol y Plwca**<br><br>**3. Stryd Clifton**<br><br>**4. Heol Ddwyreiniol y Bont-faen**<br><br>**5. Heol y Crwys / Heol Woodville**<br><br>**6. Stryd Bute / Stryd James**<br><br>**7. Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd** |

8. Heol Penarth / Heol Clare

9. Llaneirwg

10. Draenen Pen-y-graig

11. Heol yr Eglwys Newydd

Bydd hyn yn amodol ar:

i. Bod y cynnig o ran graddfa a swyddogaeth yn briodol i'r ganolfan ardal fel y'i diffinnir ym Mholisi R1: Hierarchaeth Manwerthu ac Ymagwedd Canol Trefi Yn Gyntaf
ii. Bod lleoliad unrhyw swyddfeydd busnes (defnydd dosbarth B1) uwch law'r llawr gwaelod;
iii. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar ddefnydd ymarferol o'r lloriau uwch;
iv. Cynigion ar gyfer defnyddiau heblaw dosbarth A1 (Siop) na fyddai'n arwain at niwed annerbyniol i hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad y ganolfan neu ffryntiad penodol, yn enwedig cynyddu nifer yr unedau na fyddai ar gael i'r cyhoedd yn ystod diwrnod gwaith arferol;
v. Ni fydd y cynnig yn arwain at effaith andwyol annerbyniol i amwynder preswyl a thraffig na ellid ei oresgyn trwy osod amodau;
vi. Bod y cynnig yn darparu budd cymunedol neu'n mynd i'r afael â diffyg a nodwyd yn y ddarpariaeth yn yr ardal y gellir dangos ei fod yn gwrthbwyso colli defnydd manwerthu.
vii. Lleoliad unrhyw ddatblygiad preswyl newydd uwchben y llawr gwaelod ac mewn gofod segur a gwag i ffwrdd o ffryntiadau masnachol.
viii. Ni fydd y cynnig yn creu nac yn ychwanegu at grynodiadau andwyol o ddefnyddiau cymunedol nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol (3 neu fwy o unedau yn olynol).

Bydd y meini prawf uchod yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, gan ystyried natur, graddfa a lleoliad y cynnig. Bydd y pwysau a roddir i bob maen prawf yn dibynnu ar amgylchiadau'r cynnig, ac ni fydd pob maen prawf yn berthnasol ym mhob achos.

~~Dylai niwed annerbyniol ystyried:~~

- ~~Lefel bresennol y defnydd heb fod yn fanwerthu, defnydd hamdden neu gymunedol yn y ganolfan yn ei chyfanrwydd;~~
- ~~Maint yr uned fanwerthu o'i gyferbynnu â maint cyffredinol y ganolfan neu grwp penodol o ffryntiadau;~~
- ~~Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn rai manwerthu, hamdden neu gymunedol o fewn ffryntiad.~~

~~Caiff cynigion sy'n arwain at, neu sy'n ychwanegu at res barhaus o ddefnydd nad yw'n fanwerthu, hamdden neu gymunedol (3 uned neu fwy mewn rhes) eu hystyried yn llai ffafriol a bydd ceisiadau ar gyfer defnyddiau o'r fath yn cael eu hystyried yn erbyn y canlynol:~~

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • ~~Cyfradd unedau gwag yn y ganolfan a/neu ffryntiad penodol~~<br><br>• ~~A yw'r safle wedi bod yn wag, ac os felly am ba hyd, tra bod marchnata rhagweithiol at ei ddefnydd presennol neu flaenorol yn mynd rhagddo.~~<br><br>7.168 Nod y polisi hwn yw hyrwyddo'n gadarnhaol a diogelu Canolfannau Ardal fel cyrchfannau deniadol hyfyw, sy'n cynnig amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a defnydd sector cyhoeddus gan ddarparu ystod o gyfleusterau cyfleus i'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu, cyfleusterau sy'n hawdd eu cyrraedd drwy gerdded a beicio ac sydd fel arfer ar lwybrau bysiau amlder uchel neu'n agos i'r llwybrau hynny. Mae'r Canolfannau Ardal a nodwyd ym Mholisi R4 wedi'u diffinio ar y Map Cynigion<br>'7.169 Mae'r polisi hwn yn ceisio cydbwysedd rhwng cadw ystod briodol a dewis o ddefnyddiau manwerthu (A1) i ddiwallu anghenion siopa lleol a chaniatáu defnyddiau ategol buddiol eraill sy'n ategu ac sy'n briodol i raddfa a swyddogaeth y ganolfan. Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo a chefnogi siopa, prif ddefnyddiau eraill canol tref, a defnyddiau cymunedol, er y gellir derbyn defnyddiau nad ydynt yn syrthio'n hawdd i'r naill gategori na'r llall, defnydd sui generis a geir fel arfer mewn canolfannau siopa, neu unrhyw ddefnydd cymysg sy'n cynnwys un neu fwy o'r dosbarthiadau defnydd hyn, lle byddent yn ategu ac yn fuddiol i fywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfan. Bydd yr effaith ar fywiogrwydd a hyfywedd canolfan ardal yn ystyried:<br>• Lefel bresennol y defnydd heb fod yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol yn y ganolfan;<br>• Maint yr uned fanwerthu o'i chyferbynnu â maint cyffredinol y ganolfan neu grwp penodol o ffryntiadau;<br>• Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol o fewn ffryntiad.<br><br>7.170 Cymru'r Dyfodol: Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cydnabod bod canolfannau'n symud i ffwrdd o'u rolau manwerthu traddodiadol tuag at leoedd mwy aml-swyddogaethol ac yn dod yn ganolbwynt cymunedau fel lleoedd i fyw, canolbwynt i weithgareddau cymunedol a ffocws ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi, er y dylai defnyddiau manwerthu (A1) fod yn sail i ganolfannau manwerthu a masnachol, mai dim ond un o'r ffactorau yw hwn sy'n cyfrannu tuag at eu bywiogrwydd (para 4.3.30).<br><br>7.171 I gydnabod hyn ac er bod awydd i gynnal swyddogaeth fanwerthu (Dosbarth Defnydd A1), mae Polisi R4 yn cynnig dull hyblyg o ymdrin â newidiadau defnydd o fewn Canolfannau Ardal i ymateb i effeithiau'r farchnad ac atgyfnerthu rôl a swyddogaeth Canolfannau Ardal fel calon cymunedau cynaliadwy ac yn rhoi cyfle i ystyried effeithiau unigol cynigion gan roi pwys i gynigion at ddibenion eraill (A2, A3, B1, C1, C2, C3, D1, D2) sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ~~fywiogrwydd,~~ lewyrch, hyfywedd ac atyniad Canolfannau Ardal.<br>7.172 Mae'n bwysig bod defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau manwerthu, hamdden neu gymunedol yn cael eu gwasgaru cymaint â phosibl fel nad yw ffryntiadau siopa bywiog yn cael eu darnio, ac felly bydd cynigion sy'n arwain at res barhaus o ddefnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol (3 neu fwy o unedau yn olynol) yn cael eu hystyried yn llai ffafriol a bydd ceisiadau am ddefnyddiau o'r fath yn cael eu hystyried yn erbyn y gyfradd eiddo gwag yn y ganolfan a ffryntiad penodol ac a yw, ac am ba hyd, y mae'r safle wedi bod yn wag tra'n cael ei farchnata'n weithredol ar gyfer ei defnydd presennol neu flaenorol. |

Er mai nod y polisi yw diogelu a hyrwyddo rôl fanwerthu y canolfannau hyn, gall newidiadau defnydd helpu i'w cefnogi, yn enwedig os byddent yn llenwi unedau gwag hirdymor ac yn helpu i fynd i'r afael â dirywiad hirdymor ym mherfformiad ac atyniad canolfan. Mae lefel uchel o unedau gwag yn aml yn dynodi perfformiad manwerthu gwael, llai o alw a/neu hyder gan fuddsoddwyr, a gall fod yn niweidiol i ~~fywiogrwydd,~~ lewyrch, hyfywedd ac atyniad canolfan yn yr hirdymor. Felly bydd ceisiadau i newid defnydd sy'n cynnwys defnyddiau heb fod yn A1 ~~o safleoedd defnydd A1 ar hyn o bryd~~ o safleoedd gwag a arferai fod yn ddefnydd A1, yn cael eu hystyried yn erbyn y canlynol:

- Cyfradd safleoedd gwag yn yr ardal gyfagos; a
- A yw'r safle wedi bod yn wag, ac os felly am ba hyd, tra'n cael ei marchnata'n rhagweithiol ar gyfer ei ddefnydd ~~presennol neu~~ blaenorol.

7.174 Bydd newid defnydd o ddefnydd gweithredol A1 yn llai tebygol o gael ei gefnogi a bydd disgwyl i ymgeiswyr ddarparu manylion marchnata am gyfnod o 12 mis ar werth marchnad realistig a chymhwyso sut maent wedi marchnata'r eiddo yn weithredol ar draws ystod eang o lwyfannau, gan gynnwys ymgyrch farchnata genedlaethol ar ystod o gyfryngau. ~~gan gynnwys ymgyrch farchnata genedlaethol dros ystod o gyfryngau, er enghraifft marchnata lleol megis ffenestri asiantaethau neu os yw wedi bod yn destun ymgyrch farchnata genedlaethol ar draws ystod o gyfryngau, gan gynnwys llwyfannau digidol.~~ ~~Bydd y polisi hwn yn ffafrio swyddfeydd dosbarth busnes (Dosbarth Defnydd B1) uwch law lefel y llawr gwaelod o fewn Canolfannau Ardal. Ar y llawr gwaelod, dim ond swyddfeydd proffesiynol ac ariannol (A2) gyda ffryntiad siop fydd yn dderbyniol. Nid yw swyddfeydd defnydd B1 yn darparu ffryntiad na gwasanaeth gweithredol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.~~

7.175 Gall darparu gofod preswyl ar loriau uwch o fewn canolfannau ac mewn gofod segur neu wag i ffwrdd o'r ffryntiad masnachol gefnogi eu bywigrwydd, eu hyfywedd a'u hatyniad a chyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy, bywiog a defnyddiau cymysg lle mae pobl yn byw, siopa a gweithio. Mae canolfannau yn parhau i fod yn brysur y tu hwnt i oriau busnes, gan gynyddu lefelau gwyliadwriaeth a darparu marchnad ar gyfer defnyddiau ategol sy'n gysylltiedig ag economi'r nos. Fodd bynnag, cydnabyddir na all Canolfannau Ardal gynnig yr un radd o amwynder ag ardaloedd preswyl pur. Er mwyn hwyluso cyfleoedd i swyddfeydd a defnyddiau busnes priodol eraill ar loriau uwch mewn Canolfannau Ardal, mewn rhai achosion, gall fod yn ~~angenrheidiol~~ briodol caniatáu newid defnydd adeiladau sydd mewn defnydd preswyl.

7.176 Mae Canolfannau Ardal newydd yn rhan o'r safleoedd strategol dan arweiniad preswyl ym Mhlasdŵr (Gogledd-orllewin Caerdydd) a Gogledd-ddwyrain Caerdydd. Unwaith y byddant ar waith, bydd y canolfannau yn cael eu hystyried fel rhan o'r Hierarchaeth Fanwerthu a bydd cynigion ar gyfer newid defnydd ynddynt yn cael eu penderfynu yn unol â'r polisi hwn.

7.177 Bydd canolfannau newydd ychwanegol mewn ardaloedd twf ac adfywio sy'n cynnig datblygiad preswyl sy'n dod ymlaen yng nghyfnod y cynllun ac sy'n bodloni gofynion Polisïau R6 ac R7 hefyd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn yr hierarchaeth.

**R5: CANOLFANNAU LLEOL**

**Bydd cynigion ar gyfer defnyddiau manwerthu (gan gynnwys newidiadau defnydd, ailddatblygu ac isrannu), masnachol, hamdden, addysg, iechyd, cymunedol, cyfleusterau gwasanaeth cyhoeddus, datblygiadau cyflogaeth priodol (swyddfeydd B1) a defnyddiau preswyl yn cael eu ffafrio o fewn y canolfannau lleol canlynol a nodir ar y map cynigion.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 1. Llwynbedw<br>2. Stryd Bute (Sgwâr Loudoun)<br>3. Heol y Gadeirlan<br>4. Rhodfa Countisbury<br>5. Lôn Caerau<br>6. Lawnt y Tyllgoed<br>7. Rhodfa Gabalfa<br>8. Y Rhodfa Fawr<br>9. Stryd Fawr, Llandaf<br>10. Y Maelfa, Llanedern<br>11. Heol Casnewydd, Tredelerch<br>12. Pentref Rhiwbeina<br>13. Heol Salisbury<br>14. Heol y Sblot<br>15. Heol yr Orsaf, Llanisien<br>16. Heol yr Orsaf, Ystum Taf<br>17. Heol yr Orsaf, Radur<br>18. Stryd Tudor<br>19. Rhodfa Nant Helyg<br>20. Heol Wilson<br>Bydd hyn yn amodol ar:<br>i. Bod y cynnig o raddfa a swyddogaeth sy'n briodol i'r ganolfan leol fel y'i diffinnir ym Mholis R1: Hierarchaeth Manwerthu ac Ymagwedd Canol Trefi Yn Gyntaf<br>ii. Cadw llety preswyl ar y lloriau uwch; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **iii. Cynigion ar gyfer defnyddiau heblaw Dosbarth A1 (siop) na fyddai'n arwain at niwed annerbyniol i ~~fywiogrwydd,~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad y ganolfan neu ffryntiad penodol, yn enwedig cynyddu nifer yr unedau na fyddai ar gael i'r cyhoedd yn ystod diwrnod gwaith arferol;**<br>**iv. Na fyddai'r cynnig yn arwain at effaith andwyol annerbyniol ar amwynder preswyl a thraffig na ellid ei oresgyn trwy osod amodau;**<br>**v. Bod y cynnig yn darparu budd cymunedol neu'n mynd i'r afael â diffyg a nodwyd yn y ddarpariaeth yn yr ardal y gellir dangos ei fod yn gwrthbwyso colli defnydd manwerthu.**<br>**vi. Nad yw'r cynnig yn creu nac yn ychwanegu at grynodiadau andwyol o ddefnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol (3 neu fwy o unedau yn olynol).**<br><br>**Bydd y meini prawf uchod yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, gan ystyried natur, graddfa a lleoliad y cynnig. Bydd y pwysau a roddir i bob maen prawf yn dibynnu ar amgylchiadau'r cynnig, ac ni fydd pob maen prawf yn berthnasol ym mhob achos.**<br><br>~~**Dylai niwed annerbyniol ystyried:**~~<br><br>• ~~**Y lefel bresennol o ddefnydd nad yw'n fanwerthu, hamdden neu ddefnydd cymunedol yn y ganolfan yn gyffredinol**~~<br><br>• ~~**Maint yr uned fanwerthu o'i gyferbynnu â maint cyffredinol y ganolfan neu grwp penodol o ffryntiadau;**~~<br><br>• ~~**Gwasgariad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol o fewn ffryntiad.**~~<br><br>~~**Caiff cynigion sy'n arwain at, neu sy'n ychwanegu at res barhaus o ddefnydd nad yw'n fanwerthu, hamdden neu gymunedol (3 uned neu fwy mewn rhes) eu hystyried yn llai ffafriol a bydd ceisiadau ar gyfer defnyddiau o'r fath yn cael eu hystyried yn erbyn y canlynol:**~~<br><br>• ~~**Cyfradd unedau gwag yn y ganolfan a/neu ffryntiad penodol**~~<br><br>• ~~**A yw'r safle wedi bod yn wag, ac os felly am ba hyd, tra bod marchnata rhagweithiol at ei ddefnydd presennol neu flaenorol yn mynd rhagddo.**~~<br><br>7.178 Mae Canolfannau Lleol fel rheol yn llai a mwy preswyl eu natur na Chanolfannau Ardal ac nid oes ganddynt na'r maint na'r amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu neu ddefnyddiau nad ydynt yn fanwerthu. O ganlyniad, mae cynigion heblaw am rai A1 yn aml yn anos eu derbyn yn foddhaol nag mewn Canolfannau Ardal. Nod y polisi hwn yw hyrwyddo a diogelu rôl siopa Canolfannau Lleol a cheisio cydbwysedd rhwng cadw ystod briodol a dewis o ddefnyddiau manwerthu (A1) i ddiwallu anghenion siopa lleol a chaniatáu defnyddiau ategol buddiol eraill sy'n ategu ac sy'n briodol i raddfa a swyddogaeth y ganolfan. Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo a chefnogi siopa, prif ddefnyddiau eraill canol trefi, a defnyddiau cymunedol, er y gellir derbyn defnyddiau nad ydynt yn syrthio'n hawdd i'r naill gategori na'r llall, defnydd sui generis a geir fel arfer mewn canolfannau siopa, neu unrhyw ddefnydd cymysg sy'n cynnwys un neu fwy o'r dosbarthiadau defnydd hyn, lle byddent yn ategu ac yn fuddiol i ~~fywiogrwydd,~~ hyfywedd a bywiogrwydd canolfan. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.179 Cymru'r Dyfodol: Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cydnabod bod canolfannau'n symud i ffwrdd o'u rolau manwerthu traddodiadol tuag at leoedd mwy aml-swyddogaethol ac yn dod yn ganolbwynt cymunedau fel lleoedd i fyw, canolfannau gweithgareddau cymunedol a ffocws ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi, er y dylai defnyddiau manwerthu (A1) fod yn sail i ganolfannau manwerthu a masnachol, mai dim ond un o'r ffactorau yw hwn sy'n cyfrannu tuag at eu bywiogrwydd (para 4.3.30).<br>7.180 Pan fo cynigion yn cynnwys newid defnydd uned fanwerthu A1 i ddefnydd nad yw'n siopa (dosbarth defnydd ac eithrio A1), asesir yr effaith ar hyfywedd a bywiogrwydd canolfan leol gan roi sylw i<br>• Lefel bresennol y defnydd nad yw'n fanwerthu, hamdden neu gymunedol o fewn y ganolfan yn ei chyfanrwydd;<br>• Maint yr uned fanwerthu o'i chyferbynnu â maint cyffredinol y ganolfan neu grwp penodol o ffryntiadau;<br>• Dosbarthiad ac agosrwydd defnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol o fewn ffryntiad.<br>• • A oes gan unrhyw un ohonynt ganiatâd cynllunio heb ei weithredu ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn siopa;<br><br>7.181 Mae'n bwysig bod defnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden a chymunedol yn cael eu gwasgaru cymaint â phosibl er mwyn nad yw ffryntiadau siopa bywiog yn cael eu tameidio, ac felly bydd cynigion sy'n arwain at ddefnyddiau nad ydynt yn fanwerthu, hamdden neu gymunedol (3 neu fwy o unedau olynol) yn cael eu hystyried yn llai ffafriol a bydd ceisiadau am ddefnyddiau o'r fath yn cael eu hystyried yn erbyn y gyfradd eiddo gwag yn y ganolfan ac mewn ffryntiad penodol ac a yw ac am ba hyd y mae'r adeilad wedi bod yn wag tra'n cael ei farchnata'n weithredol ar gyfer ei ddefnydd blaenorol.<br><br>7.182 Er mai nod y polisi yw gwarchod a hyrwyddo rôl fanwerthu y canolfannau hyn, gall newidiadau defnydd helpu i'w cefnogi, yn enwedig os byddai'n llenwi unedau gwag hirdymor ac yn helpu i fynd i'r afael â dirywiad hirdymor ym mherfformiad ac atyniad canolfan. Mae lefel uchel o unedau gwag yn aml yn dynodi perfformiad manwerthu gwael, llai o alw a/neu hyder gan fuddsoddwyr, a gall fod yn andwyol i ~~fywiogrwydd,~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad canolfan yn yr hirdymor. Caiff ceisiadau am newidiadau defnydd sy'n cynnwys defnydd nad yw'n ddefnydd A1 ~~o safle sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn A1 neu o~~ o adeilad gwag a feddiannwyd gynt gan ddefnydd A1 eu hystyried ar sail y lefelau gweigion yn y ganolfan leol a thystiolaeth sy'n dangos maint a hyd y marchnata ar yr adeilad.<br><br>• ~~Cyfradd safleoedd gwag yn yr ardal gyfagos; a~~<br><br>• A yw safle wedi bod yn wag, ac am ba hyd, tra bod marchnata rhagweithiol am ei ddefnydd presennol neu flaenorol wedi mynd rhagddo.<br><br>7.183 Bydd newid defnydd ar uned A1 gweithredol yn llai tebygol o gael ei gefnogi a bydd disgwyl i ymgeiswyr ddarparu manylion marchnata am gyfnod o ~~6~~-12 mis ar werth realistig a chymhwyso sut maent wedi marchnata'r eiddo yn weithredol, dros ystod o lwyfannau, gan gynnwys ymgyrch farchnata genedlaethol ar ystod helaeth o gyfryngau. ~~Er enghraifft, marchnata lleol fel ffenestri asiantaeth neu a yw wedi bod yn destun ymgyrch farchnata genedlaethol ar draws ystod eang o gyfryngau, gan gynnwys llwyfannau digidol.~~ Caiff colli unedau preswyl ei wrthod fel arfer ar y lloriau uwch mewn Canolfannau Lleol lle mae nodweddion yr adeiladau a'u lleoliad ym parhau'n addas ar gyfer defnydd preswyl. |

7.184 Mae pedair Canolfan Leol newydd yn rhan o'r safleoedd strategol dan arweiniad preswyl, 3 Chanolfan Leol ym Mhlasdâr (Gogledd-orllewin Caerdydd) ac 1 Canolfan Leol ar Dir i'r Gogledd o Gyffordd 33 (M4). Ar ôl eu gweithredu, bydd y canolfannau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r Hierarchaeth Fanwerthu a bydd cynigion ar gyfer newid defnydd ynddynt yn cael eu hystyried yn erbyn y fframwaith polisi hwn.
7.185 Bydd canolfannau newydd ychwanegol mewn ardaloedd twf ac adfywio sy'n cynnig datblygiad preswyl sy'n dod ymlaen yng nghyfnod y cynllun ac sy'n bodloni gofynion Polisïau R6 ac R7 hefyd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn yr hierarchaeth.

**R6: YMAGWEDD CANOL TREFI YN GYNTAF**

**Caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol newydd y tu allan i ganolfannau, gan gynnwys newidiadau defnydd, estyniadau, uno neu isrannu unedau presennol neu ddiwygiadau i amodau cynllunio presennol sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau, dim ond os: -**

**I. gellir dangos bod angen y gofod llawr arfaethedig (gyda blaenoriaeth wedi'i rhoi i sefydlu angen meintiol) ac na ellir diwallu yr angen hwnnw o fewn yr ardal fanwerthu a masnachol canolog, neu o fewn canolfan ardal neu leol;**

**II. Na fyddai'r cynnig yn achosi niwed annerbyniol i ~~fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad yr Ardal Manwerthu a Masnachu Canolog, Canolfannau Ardal neu Leol neu gynnig neu strategaeth ar gyfer gwarchod a gwella'r canolfannau hyn;**

**III. Mae'r safle yn hygyrch drwy gyfrwng dewis o ddulliau teithio a;**

**IV. Nid yw'r cynnig ar dir a ddyrennir ar gyfer defnyddiau eraill. Mae hyn yn arbennig o wir am dir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth a thai, lle gellir dangos bod manwerthu a datblygu masnachol yn cyfyngu ar ystod ac ansawdd safleoedd at ddefnydd o'r fath.**

7.186 Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf y bydd cynigion ar gyfer manwerthu newydd a defnyddiau eraill sy'n ategol i ganolfannau manwerthu a masnachol y tu allan i'r Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog, Ardaloedd a Chanolfannau Lleol a nodir ar y Map Cynigion, yn cael eu hasesu yn eu herbyn yn unol â pholisi cenedlaethol.
Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i unrhyw gynigion sy'n cyflwyno gofod llawr manwerthu ychwanegol (gan gynnwys lloriau mesanîn, lle mae angen caniatâd i hyn), newidiadau defnydd, estyniadau, uno neu isrannu unedau neu ddiwygiadau i amodau cynllunio presennol sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau.
7.188 Nod y polisi yw rheoli natur a maint datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol er mwyn lleihau niwed a gwarchod a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad yr Ardaloedd Manwerthu a Masnachol Canolog a'r Canolfannau Ardal a Lleol a nodwyd yn yr hierarchaeth fanwerthu (Polisi R1) a hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a phatrymau teithio cynaliadwy. ~~Byddai cynigion ar raddfa fach o 200m2 neu lai sy'n diwallu angen lleol neu ddarparu defnydd ategol/cysylltiol i weithwyr mewn ardal gyflogaeth yn cael eu heithrio o'r prawf hwn. Gall y siopau hyn chwarae rhan bwysig wrth gynnal cymdogaethau lleol a lleihau'r angen i deithio ac ni fyddent yn debygol o niweidio canolfannau presennol yn sylweddol.~~
7.189 Mae'r dull prawf dilyniannol fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio manwerthu a defnyddiau newydd sy'n ategol i ganolfannau manwerthu a masnachol tuag at ganolfannau a ddiffinnir yn yr hierarchaeth ganolfannau. Os nad oes safle neu adeilad addas i ddiwallu angen a nodwyd ar gael yn yr hierarchaeth ganolfannau, dylid ystyried safleoedd ar gyrion canolfannau ac os nad oes safleoedd o'r

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fath yn addas neu ar gael, dim ond wedyn y dylid ystyried safleoedd y tu allan i'r canol mewn lleoliadau lle ceir dewis o ddulliau teithio, gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>Yng Nghaerdydd y drefn a ffefrir yw:<br>• ~~O fewn yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog~~<br>• ~~Ar ymylon yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog~~<br>• ~~O fewn Canolfan Ardal neu Leol~~<br>• ~~Ar ymylon Canolfan Ardal neu Leol~~<br>• ~~Lleoliad y tu allan i'r canol sy'n hygyrch trwy ddewis o drafnidiaeth.~~<br>• O fewn yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog<br>• O fewn Canolfan Ardal neu Leol<br>• Ar ymylon yr Ardal Masnachol a Manwerthu Canolog<br>• Ar ymylon Canolfan Ardal neu Leol<br>• Lleoliad y tu allan i'r canol sy'n hygyrch trwy ddewis o drafnidiaeth.<br><br>7.190 Mae PCC yn cydnabod efallai na fydd rhai mathau o fanwerthu, er enghraifft gwerthu nwyddau swmpus ac sydd angen ystafelloedd arddangos mawr, yn gallu dod o hyd i safleoedd neu adeiladau priodol o fewn y canolfannau manwerthu a masnachol presennol. Lle mae hyn yn wir, dylai siopau o'r fath gael eu lleoli yn y lle cyntaf ar safleoedd a nodwyd at y diben hwnnw yn y cynllun datblygu, yn ddelfrydol ar safleoedd ar gyrion y canol. Lle nad yw safleoedd o'r fath ar gael neu'n addas, gellir ystyried safleoedd eraill ar gyrion canolfannau manwerthu a masnachol, ac yna lleoliadau y tu allan i'r canol yn amodol ar gymhwyso'r profion anghenion ac effaith.<br>7.191 Bydd effaith datblygiad manwerthu y tu allan i ganolfannau dynodedig yn cael ei asesu o ran yr effaith uniongyrchol ar ~~fywiogrwydd,~~lewyrch, hyfywedd ac atyniad y cynnig ar ganolfannau dynodedig a'r effaith ar y strategaeth fanwerthu ei hun. Rhaid i'r holl gynigion ar gyfer defnydd manwerthu a masnachol ategol y tu allan i'r canol sy'n bodloni'r profion anghenion manwerthu, a'r dull dilyniannol ddangos na fyddent yn niweidio canolfannau dynodedig na'r strategaeth fanwerthu, naill ai, neu ar y cyd â datblygiadau diweddar eraill o ran ceisiadau â chaniatâd sydd heb eu gweithredu.<br><br>Bydd angen Datganiadau Effaith ar Fanwerthu ar gyfer pob cais cynllunio manwerthu o 2,500 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr gros a gynigir ar gyrion ein canolfannau dynodedig y tu allan i'r canol ~~unwaith y bydd angen wedi'i nodi~~. Oherwydd sensitifrwydd canolfannau ardal a lleol i effeithiau niweidiol hyd yn oed o du cynigion cymharol fach, bydd angen datganiad neu asesiad o'r effaith fasnachol gyfrannol ar ddatblygiadau o fewn dalgylchoedd y canolfannau hyn. Bydd y rhain yn cael eu hasesu fesul achos a dylai datblygwyr geisio cyngor cyn gwneud cais am fwy o wybodaeth am ofynion penodol sy'n ymwneud ag union leoliad, graddfa a ffurf datblygiad arfaethedig.<br><br>7.193 Pan roddir caniatâd ar gyfer datblygiadau manwerthu y tu allan i'r canol, neu mewn rhai achosion, datblygiad ar gyrion canolfan, bydd amodau ynghlwm i reoli graddfa a natur y gweithgaredd manwerthu i leihau unrhyw effaith bosibl ar ganolfannau dynodedig neu'r strategaeth fanwerthu.<br><br>7.194 Bydd cyfraniadau yn cael eu negodi gan ddatblygiadau manwerthu y tu allan i'r canol tuag at wella'r amgylchedd yn y ganolfan ddynodedig agosaf i liniaru effaith andwyol, yn unol â'r polisi Rhwymedigaethau Cynllunio. |

7.195 Mae'r Cyngor yn monitro ~~bywiogrwydd,~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad canolfannau dynodedig.  Bydd disgwyl i bob cais manwerthu y tu allan i'r canol archwilio iechyd y canolfannau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio ac effaith debygol. y ceisiadau arnynt.

**R7: CREU CANOLFANNAU NEWYDD**

**Bydd datblygu canolfannau newydd i ddarparu siopau, gwasanaethau, cyfleusterau a ffocws cymunedol mewn ardaloedd o dwf ac adfywio sy'n cynnig datblygiad preswyl yn cael ei ~~asesu yn erbyn polisi R6: datblygiad manwerthu (tu allan i'r canol) a bydd yn cael ei~~ gefnogi lle:**

**I. Mae'r ~~datblygiad~~ ganolfan o faint priodol ~~sy'n bodloni~~ i fodloni angen lleol a glustnodwyd;**

**II. Na fyddai'r ~~datblygiad~~ cynnig ~~ewyllys~~ yn cael effaith ~~yn negyddol~~ annerbyniol ar ~~bywiogrwydd,~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad canolfannau dynodedig;**

**III. Mae'r ~~datblygiad~~ ganolfan wedi ei lleoli ar hyd coridorau trafnidiaeth gyhoeddus ac yn hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio; ac**

**IV. Mae'r ~~Datblygiad~~ ganolfan yn rhan o ddatblygiad ~~canol~~ cynlluniedig sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o le ac sy'n darparu cymysgedd o siopau, gwasanaethau, cyfleusterau a defnyddiau i wasanaethu'r gymuned leol.**

**Pan fo'r cynnig yn cynnwys datblygiad manwerthu, bydd yr elfen fanwerthu yn cael ei hasesu yn unol â Pholisi R6: Datblygiad Manwerthu (Tu Allan I'r Canol).**

7.196 Gall datblygu canolfannau newydd fod yn briodol o fewn ardaloedd twf ac adfywio sy'n cynnwys datblygu preswyl lle mae eu hangen i ddarparu ~~manwerthu,~~ siopau, gwasanaethau, cyfleusterau cymunedol a ffocws cymunedol ~~o fewn ardaloedd twf ac adfywio sy'n cynnig datblygiad preswyl.~~ Dylai graddfa a natur canolfan newydd adlewyrchu maint a nodweddion y datblygiad y bwriedir ei wasanaethu a rôl y canolfannau presennol.  Gall ~~cyfleusterau~~ canolfannau o'r fath ~~yn aml yn c~~gynnwys amrywiaeth o siopau a gwasanaethau llai, sy'n gwasanaethu'r dalgylch lleol, gan gynnwys archfarchnadoedd llai a siopau bwyd a diod, ynghyd â gwasanaethau, cyfleusterau cymunedol a chyfleoedd ~~gwaith lleol~~ar gyfer cyflogaeth leol.

~~7.197 Ni ddylai darparu canolfannau'n y dyfodol o fewn ardaloedd twf ac adfywio effeithio'n negyddol ar fywiogrwydd, hyfywedd nac atyniad canolfannau presennol ac felly bydd cynigion ar gyfer canolfannau newydd yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi R6.  Dylai cynigion cynllunio ddangos mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer canolfannau newydd o ran amwynder, trafnidiaeth a dylunio a gosodiad.~~

7.197 Dylid cynllunio canolfannau newydd fel rhan annatod o ddatblygu ardaloedd twf ac adfywio a dylid eu lleoli lle maent yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.  Dylid eu dylunio a'u lleoli i gyfrannu at ymdeimlad cryf o le a darparu cymysgedd o siopau, gwasanaethau a chyfleusterau i wasanaethu'r gymuned leol.

7.198 Dylai canolfannau newydd ategu'r canolfannau dynodedig presennol ac ni ddylent gael effaith annerbyniol ar eu hyfywedd, eu bywiogrwydd a'u hatyniad. Dylai cynigion ddangos bod y lleoliad, y raddfa a'r cymysgedd o ddefnyddiau arfaethedig yn briodol o ystyried anghenion y gymuned leol, hygyrchedd canolfannau presennol a'r effeithiau posibl ar eu hyfywedd, eu bywiogrwydd a'u hatyniad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Pan fydd cynnig yn cynnwys datblygiad manwerthu, bydd yr elfen fanwerthu yn cael ei hasesu yn erbyn Polisi R6: Datblygiad Manwerthu (Tu Allan I'r Canol)<br><br>**R8: DEFNYDDIAU BWYD A DIOD**<br>**Mae Defnyddiau Bwyd a Diod wedi'u lleoli yn fwyaf priodol yn y lleoliadau canlynol, yn amodol ar bolisïau perthnasol y cynllun.**<br>**i. Yr Ardal Masnachol a Manwerthu Canolog**<br>**ii. Ardal harbwr mewnol/glannau Ardal Fusnes Caerdydd**<br>**iii. Canolfannau Ardal a Lleol**<br><br>7.198 Mae Polisi R8 yn nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer defnyddiau bwyd a diod. Bydd defnyddiau o'r fath yn destun ystyriaethau amwynder, materion priffyrdd, trosedd ac ofn troseddu, a'r effaith ar rôl a chymeriad siopa canolfannau dynodedig. Mae defnyddiau bwyd a diod yn annhebygol o fod yn dderbyniol o fewn neu ger llaw ardaloedd preswyl, lle byddent yn achosi niwsans a cholli amwynder, neu'n arwain at golli eiddo preswyl.<br>7.199 Mae'r defnydd o fwyd a diod, gan gynnwys bwytai a siopau bwyd poeth, wedi eu lleoli'n well mewn canolfannau dynodedig lle gallant ategu a gwella'r rôl siopa bresennol, cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn gallu manteisio ar hygyrchedd da ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gall defnyddiau gael effeithiau o ran gweithgaredd cerbydau a cherddwyr, sŵn, mygdarthau, sbwriel a tharfu hwyr y nos, ac felly fel rheol wedi eu lleoli'n well mewn canolfannau nac mewn ardaloedd preswyl. Mae'r Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog, ardal harbwr mewnol / glannau Ardal Fusnes y Bae, a Chanolfannau Ardal yn fwy tebygol o allu darparu ar gyfer defnyddiau bwyd a diod yn foddhaol oherwydd eu maint, eu hygyrchedd a'u cymeriad. Fodd bynnag, gall dwyseddau uchel o ddefnyddiau o'r fath fod yn andwyol i amwynder preswyl o fewn neu ger llaw canolfannau neu yn gronnol danseilio rôl siopa a chymeriad pennaf canolfan, gan gynnwys ei hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad.<br>7.200 Mae defnydd o fwyd a diod yn briodol mewn egwyddor o fewn yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog. Gall defnyddiau o'r fath gyfrannu at yr ystod a'r dewis o gyfleusterau sydd ar gael i ymwelwyr, gweithwyr a phreswylwyr, cefnogi economi'r nos, cynyddu amser ymdroi, a chefnogi twristiaeth. Bydd angen i gynigion gydymffurfio â pholisïau perthnasol y Cynllun, gan gynnwys Polisi R2: Datblygu yn yr Ardal MManwerthu a Masnachol Canolog a, lle bo'n berthnasol, Polisi R3: Ffryntiadau Siopa Gwarchodedig. Bydd effaith gronnol defnyddiau bwyd a diod hefyd yn cael ei ystyried lle bo'n berthnasol i sicrhau nad ydynt yn tanseilio rôl siopa a chymeriad yr Ardal Manwerthu a Masnachol Canolog.<br>7.201 Gall defnydd bwyd a diod yn ardal fewnol harbwr/glannau Ardal Fusnes y Bae gyfrannu at yr amrywiaeth a'r dewis o gyfleusterau sydd ar gael i breswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr a chefnogi rôl Bae Caerdydd fel cyrchfan ar gyfer hamdden, twristiaeth a gweithgareddau gyda'r nos. Bydd angen i gynigion ystyried cymeriad a swyddogaeth yr ardal ac ni ddylent arwain at effeithiau annerbyniol ar amwynder preswyl, diogelwch priffyrdd neu'r amgylchedd ehangach.<br><br>7.202 Gall defnyddiau bwyd a diod ategu prif rôl siopa Canolfannau Ardal a Lleol drwy ddarparu cyfleusterau ychwanegol a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Bydd angen i gynigion ddangos na fyddent yn effeithio'n andwyol ar amgylchedd byw trigolion cyfagos ac naill ai'n unigol neu'n gronnus gyda defnyddiau eraill nad ydynt yn siopa, yn tanseilio rôl siopa a chymeriad y ganolfan yn unol â Pholisïau R4: Canolfannau Ardal ac R5: Canolfannau Lleol.<br><br>7.203 Mae Canolfannau Lleol a chanolfannau cymdogaeth llai yn gyffredinol yn fwy preswyl eu natur ac nid oes ganddynt na'r maint na'r amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu neu heb fod yn fanwerthu ag |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sydd gan ganolfannau mwy. Felly, gall defnyddiau bwyd a diod fod yn anos eu darparu, yn enwedig lle byddent yn achosi sŵn, aflonyddwch, arogl, sbwriel neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ganlyniad, rhoddir mwy o bwyslais ar ddiogelu amwynder preswyl, gan gynnwys trwy reolaethau ar oriau agor a natur y defnydd.<br><br>7.204 Y tu allan i'r lleoliadau a nodir ynm Mholisi R8, mae'n annhebygol y bydd defnyddiau bwyd a diod yn dderbyniol mewn ardaloedd preswyl neu gerllaw iddynt, oherwydd eu heffaith ar amwynder preswyl a'r potensial i achosi niwsans o ran sŵn ac arogl.<br>7.205 Bydd cynigion bwyd a diod o fewn ardaloedd cyflogaeth presennol yn cael eu hystyried yn erbyn Polisi EC4: Darparu Cyfleusterau Ategol i Weithwyr mewn Datblygiadau Busnes, Diwydiannol a Warws.<br>7.206 Bydd canllaw pellach ar gymhwyso'r Polisi hwn i'w weld yn y CCA Defnyddiau Bwyd a Diod.<br><br>**R9: ADDASU I DDEFNYDD PRESWYL**<br><br>**O fewn Ardal Fusnes y Canol a'r Bae, Canolfannau Ardal a Lleol, bydd addasu gofod addas gwag uwchben eiddo masnachol i ddefnydd preswyl**<br>**yn cael ei ffafrio lle:**<br><br>**i. Mae ffryntiad y llawr gwaelod yn cael ei gadw ar gyfer defnydd masnachol;**<br><br>**ii. Gellir cynnal gwasanaethau a diogelwch digonol i'r defnydd(iau) masnachol presennol;**<br><br>**iii. Gellir gwneud darpariaeth briodol ar gyfer parcio, mynediad, mynediad i gerddwyr, gofod amwynder, seilwaith gwyrdd a gwaredu gwastraff ynghyd ag unrhyw addasiadau allanol priodol a;**<br><br>**iv. Nid yw'r defnydd preswyl yn cyfaddawdu ar ddefnydd y llawr gwaelod ac arwain at effaith annerbyniol ar amodau gweithredu busnesau presennol.**<br><br>**Bydd cynigion ar gyfer trosi gofod addas uwchben adeiladau masnachol i ddefnydd preswyl yn cael eu cefnogi mewn egwyddor, yn amodol ar gydymffurfio â'r meini prawf uchod.**<br><br>**Bydd cynigion sy'n arwain at golli swyddfeydd yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi EC6: Diogelu Swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae**<br><br>**Bydd cynigion sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi C2: Gwarchod Cyfleusterau Cymunedol.**<br><br>7.206 Mae trosi gofod addas gwag uwchben safleoedd masnachol i ddefnydd preswyl yn gyfraniad gwerthfawr i stoc dai y ddinas ac yn darparu cartrefi y mae mawr eu hangen. Mae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu cymunedau bywiog, cymysg eu defnydd lle mae pobl yn byw ac yn siopa. Mae canolfannau yn parhau'n brysur ac wedi'u poblogi y tu hwnt i oriau busnes, gan gynyddu gwyliadwriaeth, a darparu marchnad ar gyfer defnyddiau ategol sy'n gysylltiedig ag economi'r nos.<br><br>7.207 Mae cartrefi newydd yn agored i ffynonellau llygredd presennol fel sŵn. Ni ddylai cyfyngiadau afresymol gael eu rhoi ar fusnesau, lleoliadau a chyfleusterau presennol oherwydd datblygu a ganiateir ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Mae'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael ag effaith sŵn ar y datblygiad newydd yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | unol â'r egwyddor 'asiant newid'. Pan gynigir datblygiadau newydd yn agos at ddefnyddiau cynhyrchu sŵn sy'n bod eisoes, megis lleoliadau cerddoriaeth ac economi'r nos, rhaid dylunio datblygiadau i amddiffyn y meddianwyr newydd rhag effeithiau sŵn fel na cheir bygythiad i'r defnydd presennol. |
| PPC10 | Newid bywiogrwydd i bywiogrywdd i adlewyrchu terminoleg yn PCC | SP12 Tudalen 57 | Diwygio pwynt bwled cyntaf Polisi SP12 i ddarllen: **"Cefnogi ~~bywiogrwydd,~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad Canolfannau Ardal a Lleol presennol a'u hadfywiad, gan gynnwys datblygiadau manwerthu a masnachol eraill a thai o raddfa briodol;"** |

## 6. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 8: Yr Amgylchedd Naturiol

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC11 | **Pwynt Gweithredu HS8.1**<br>*Cyngor i ddrafftio Polisi SPXX newydd i ymgorffori dull fesul cam a sicrhau bod y CDLl yn gyffredinol yn unol â pholisi cenedlaethol.*<br>*Awgrymu mai BG4 yw'r sylfaen ar gyfer hyn, wedi'i ddyrchafu'n bolisi strategol*<br>**Pwynt Gweithredu HS8.2**<br>*Y Cyngor i adolygu ac ailddrafftio SP3, SP4, SP21, BG1, NG2, BG3, BG5 a BG6 i alinio â'r Polisi SPXX newydd a'i ategu.*<br>*SPXX i nodi fesul cam, ac eithrio SoDdGAau (BG1), y polisïau BG i nodi lle y dangoswyd nad oes safleoedd amgen ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac nad oes osgoi yn bosibl, rhaid i'r datblygiad ddangos ei fod wedi lleihau, lliniaru neu wneud iawn fel y bo'n briodol.*<br>*i. Ar gyfer SP3 ac SP4, sicrhau bod dull fesul cam yn dylanwadu ar uwchgynllunio a dylunio o'r dechrau,*<br>*ii. Diwygio Polisi BG1 i adlewyrchu polisi cenedlaethol. Dim ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol y dylid caniatáu datblygiad nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli SoDdGA.*<br>*iii. Y diwygiad i BG5 i gynnwys y frawddeg ychwanegol (olaf) a ychwanegwyd gan y Cyngor yn y datganiad Gwrandawiad.* | Polisïau SP1, BG1 - 7 | Mewn ymateb i'r Pwyntiau Gweithredu hy mae'r Cyngor yn cynnig y diwygiadau canlynol i'r cynllun:<br>Ychwanegu Polisi Newydd SPXX sy'n ymgorffori BG4<br>Dileu BG4<br>~~**BG4: BUDDION NET AR GYFER BIOAMRYWIAETH A'R DATGANIAD SEILWAITH GWYRDD**~~<br><br>~~**Caniateir datblygu dim ond os gellir dangos drwy Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd (SG), y gellir cyflawni Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth (BNB). Dylai hyn ystyried agweddau mor bwysig ag: effeithiau cronnus datblygiad, gwydnwch ecolegol ac osgoi effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau fel y nodir fel cam cyntaf, yn y Dull Fesul Cam.**~~<br><br>~~7.373 Mae'r Polisi hwn yn adlewyrchu canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru a'i nod yw sicrhau bod datblygu'n cyflawni Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae'n cyd fynd â Pholisi SP21 drwy warchod a gwella treftadaeth naturiol Caerdydd, gan gynnwys ei bioamrywiaeth.~~<br><br>~~7.374 Bydd canllawiau manwl pellach ar baratoi Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a sut y bydd y Cyngor yn asesu Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth (NBB) ar y cyd â chynigion datblygu yn cael eu nodi yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol.~~<br><br>**Polisi SPxx Newydd: Dull Fesul Cam, Seilwaith Gwyrdd a Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth**<br>**Rhaid i gynigion datblygu gynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau a darparu budd net i fioamrywiaeth gan ystyried egwyddorion DECCA o Amrywiaeth, Graddfa, Cyflwr Cysylltedd ac Addasadwyedd.**<br>**Rhaid i gynigion datblygu ddangos, trwy Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd sy'n gymesur â graddfa a natur y datblygiad, sut mae bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a seilwaith gwyrdd wedi llywio dewis safleoedd, cynllunio, dylunio, adeiladu a rheoli hirdymor.**<br>**Rhaid i ddatblygu gymhwyso'r dull fesul cam i fioamrywiaeth trwy:**<br>**1. Osgoi effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth, nodweddion ecolegol a seilwaith gwyrdd.**<br>**2. Lleihau effeithiau na ellir eu hosgoi. Pan ddangosir bod effeithiau yn anochel, rhaid lleihau niwed trwy fesurau dylunio lliniaru ar y safle.**<br>**3 Lliniaru ac adfer nodweddion bioamrywiaeth, lle mae osgoi a lleihau yn anochel ar y safle, lle bynnag y bo modd.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *iv. Diwygio 7.376 a 7.377 fel yr awgrymwyd gan y Cyngor yn y datganiad Gwrandawiad.*<br>*Diwygio Polisi BG6 i nodi lle nad oes dewisiadau amgen ac nad yw'n bosibl osgoi, mae angen lliniaru a gwella er mwyn cyflawni budd cyhoeddus.* | | **4 Darparu mesurau i Wneud Iawn dim ond pan fo effeithiau gweddilliol sylweddol yn parhau ar ôl osgoi, lleihau a lliniaru ac adfer.**<br>**5 Darparu mesurau gwella bioamrywiaeth.**<br>**6 Darparu rheolaeth hirdymor sy'n cwmpasu'r holl gamau a amlinellir uchod.**<br><br>Mae Caerdydd yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn bod datblygiad yn cynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau a sicrhau Budd Net i Fioamrywiaeth. Mae diogelu, adfer a gwella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn hanfodol i greu lleoedd iach, gwydn a chynaliadwy.<br><br>Rhaid integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd mewn cynigion datblygu o'r camau cynharaf o ddewis a dylunio safleoedd i sicrhau bod adferiad natur, gwydnwch ecosystemau ac addasu i'r hinsawdd yn cael eu gwreiddio gydol y broses gynllunio.<br><br>Mae'r Dull Fesul Cam yn darparu'r fframwaith i sicrhau budd net i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o bob datblygiad. Mae'r Dull Fesul Cam yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu osgoi effeithiau ar fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn gyntaf cyn ystyried lleihau, lliniaru, adfer neu wneud iawn. Dylid ystyried gwneud iawn dim ond lle na ellir yn rhesymol osgoi effeithiau andwyol ac a allai ddigwydd ar neu oddi ar y safle. Mae camau olaf y Dull Fesul Cam o wella a rheoli hirdymor yn hanfodol i gyflawni Budd Net i Fioamrywiaeth a sicrhau bod enillion ecolegol yn cael eu cynnal dros amser.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae cyfyngiadau a chyfleoedd ecolegol wedi dylanwadu ar gynllun, dyluniad a chyflawniad y safle. Mae Datganiadau Seilwaith Gwyrdd yn darparu'r prif fecanwaith ar gyfer dangos cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a dylai fod yn gymesur â graddfa a chymhlethdod y datblygiad.<br><br>Rhaid i ddatblygiad gyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch ecosystemau trwy ystyried egwyddorion DECCA o Amrywiaeth, Ehangder, Cyflwr, Cysylltedd ac Addasrwydd, sy'n darparu fframwaith cydnabyddedig ar gyfer cynnal ecosystemau gwydn.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr osgoi clirio safle cyn asesiad ecolegol a pharatoi Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Bydd y Cyngor yn cymhwyso dull rhagofalus wrth asesu gwerth bioamrywiaeth yn yr achosion hyn a chyfleoedd ar gyfer darparu budd net i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau lle mae gwaredu cynefinoedd wedi digwydd cyn cynnal asesiad ecolegol digonol.<br><br>Ceir canllawiau pellach ar baratoi Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a chymhwyso'r Dull Fesul Cam yn y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) a Nodiadau Canllaw Technegol (NCTau).<br><br>Dileu Polisi SP21: Cynnal a Gwella Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth a BG2 Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwysigrwydd i Fioamrywiaeth adolygu ac ailenwi Gwydnwch Ecolegol a Rhwydweithiau Natur<br>~~**SP21: CYNNAL A GWELLA SEILWAITH GWYRDD A BIOAMRYWIAETH**~~<br><br>~~**Mae seilwaith gwyrdd (gan gynnwys seilwaith glas ac awyrol) yn darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i ystod o faterion amgylcheddol a chymdeithasol, megis yr argyfwng yn yr hinsawdd, yr argyfwng natur, llifogydd, llygredd aer, effeithiau ynys wres drefol, iechyd y cyhoedd a lles meddyliol. Mae asedau**~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~**seilwaith gwyrdd/bioamrywiaeth yn allweddol i gymeriad, gwerth ac arbenigrwydd Caerdydd a'i hymdeimlad o le. Mae asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd yn cynnwys:**~~<br><br>~~i. **Cefn gwlad ac arfordir sydd heb eu datblygu.**~~<br>~~ii. **Safleoedd gwarchodedig statudol ac anstatudol.**~~<br>~~iii. **Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth/gwarchodedig, a'r ystod gyffredinol o rywogaethau ledled Caerdydd.**~~<br>~~iv. **Nodweddion o ran tirlun, daeareg a threftadaeth sy'n cyfrannu at osodiad y ddinas.**~~<br>~~v. **Rhwydweithiau hydrolegol gan gynnwys dyffrynnoedd afonydd strategol bwysig yr afonydd Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni, nentydd, llynnoedd a phyllau.**~~<br>~~vi. **Coed, coetiroedd a gwrychoedd**~~<br>~~vii. **Priddoedd.**~~<br>~~viii. **Lleiniau ymyl ffyrdd, ynysoedd cylchfannau a phlannu ar hyd ffyrdd er mwyn sgrinio.**~~<br>~~ix. **Llwybrau hamdden a beicio strategol a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.**~~<br>~~x. **Ystod o reilffyrdd gweithredol ac anweithredol, sy'n cysylltu cynefinoedd ledled y ddinas.**~~<br>~~xi. **Parciau, caeau chwarae, mannau chwarae gwyrdd a mannau gwyrdd agored â chyfleoedd i chwarae.**~~<br>~~xii. **Mannau tyfu gan gynnwys rhandiroedd, perllannau cymunedol a gerddi preifat.**~~<br>~~xiii. **Cynefinoedd dŵr croyw megis Bae Caerdydd, Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen, a rhwydwaith o byllau ar hyd a lled y ddinas, a**~~<br>~~xiv. **Systemau rheoli dŵr wyneb integredig holistig.**~~<br><br>~~**Disgwylir i ddatblygiadau gynnal a gwella cyfanrwydd, hyd a lled, amrywiaeth, ansawdd a chysylltedd asedau seilwaith gwyrdd; darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol; darparu "Buddion Net i Fioamrywiaeth"; a sicrhau y gellir cynnal gwydnwch ecosystemau. Bydd angen Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn cwmpasu Seilwaith Gwyrdd presennol a chyfleoedd i'r dyfodol ar gyfer pob cynnig datblygu sylweddol.**~~<br><br>~~6.163 Nod y polisi yw sicrhau bod asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd yn cael eu cynllunio a'u darparu'n strategol trwy rwydwaith seilwaith gwyrdd. Mae'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn bwysig er ei fwyn ei hun ac am ei gyfraniad i ansawdd bywyd yn ehangach, gan gynnwys y gwerth y mae pobl yn ei roi arno. Mae'n cynnig ystod o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd, gwella cynefinoedd bioamrywiaeth a chysylltedd rhywogaethau, darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, cyfrannu at iechyd a lles cymunedau a manteision gweledol i bawb.~~<br><br>~~6.164 Mae canllawiau a deddfwriaeth bolisi cenedlaethol clir mewn perthynas â chynnal a gwella Seilwaith Gwyrdd ac adferiad natur. Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol 2040 - 'Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd' a Phennod 6 o PPW12 ill dau yn ymateb i Ddeddf Adran 6 Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016.~~<br><br>~~6.165 O ystyried hyn mae'n bwysig ystyried materion bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn gynnar yn y broses wrth ystyried cynigion datblygu. Yn unol â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (Dyletswydd Adran 6) a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid cymryd~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~pob cam rhesymol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau a dylid cydbwyso'r rhain ag anghenion ehangach economaidd a chymdeithasol busnesau a chymunedau.~~<br><br>~~6.166 Pan ganiateir datblygiad, bydd amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio yn cael eu defnyddio i warchod neu wella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd. Dylai datblygiadau newydd gynnwys seilwaith gwyrdd newydd a / neu well sydd o faint, math a safon briodol i sicrhau nad oes unrhyw ddarnio na cholli cysylltedd. Dylent hefyd ddangos sut y bydd y datblygiad yn cyflawni budd bioamrywiaeth net ac yn hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.~~<br><br>~~Byddai gweithredu polisïau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu a gwarchod mannau agored cyhoeddus ledled Caerdydd hefyd yn gwrthbwyso unrhyw gynnydd mewn pwysau hamdden ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd, a thrwy hynny helpu i osgoi effaith sylweddol debygol ar y safle hwnnw.~~<br><br>~~6.168 Mae Polisi 9 Cymru yn y Dyfodol 2040 yn nodi Lefelau Gwent fel Ardal Adnoddau Naturiol Genedlaethol. Bydd y polisi hwn yn helpu i wella bioamrywiaeth (budd net) a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau a darpariaeth seilwaith gwyrdd ar gyfer Gwastadeddau Gwent. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy Asesiadau Seilwaith Gwyrdd sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu sy'n effeithio ar yr ardal hon, Datganiadau Ardal a chanllawiau cynllunio sy'n cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru.~~<br><br>~~6.169 Bydd angen dull cydweithredol rhanbarthol i gyflawni hyn ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyfagos, a rhanddeiliaid eraill ar baratoi canllawiau cynllunio strategol. Bydd hyn yn darparu arweiniad pellach i ddatblygwyr ar ddarparu Budd Net priodol ar gyfer Bioamrywiaeth ar gyfer Gwastadeddau Gwent a hefyd yn cyfeirio cyfleoedd ar gyfer sicrhau rhwydweithiau ecolegol gwydn a lle mae diogelu yn debygol o fod yn bwysig.~~<br><br>~~6.170 Dylai rheolaeth dros rwydwaith seilwaith gwyrdd Caerdydd fod ar waith cyn y datblygiad, a dylid ceisio rhwymedigaethau cynllunio priodol. Darperir rhagor o wybodaeth a chanllawiau drwy baratoi Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i'r polisi hwn."~~<br><br>Dileu Polisi BG2:<br><br>~~**BG2: RHWYDWEITHIAU ECOLEGOL A NODWEDDION O BWYS I FIOAMRYWIAETH**~~<br><br>~~**Caniateir cynigion datblygu dim ond os nad ydynt yn achosi niwed annerbyniol i:**~~<br><br>~~**i. Nodweddion o bwys ar gyfer fflora a ffawna gwyllt, gan gynnwys cysylltedd seilwaith gwyrdd a 'cherrig camu' sy'n galluogi gwasgaru, atgynhyrchiad a hyfywedd genetig rhywogaethau gwarchodedig a rhai â blaenoriaeth;**~~<br><br>~~**ii. Seilwaith gwyrdd o bwys, cyflawni dyletswyddau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau a seilwaith gwyrdd sy'n cyfrannu at werth cyffredinol y dirwedd (sy'n cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau mwy "cyffredin" a "thoreithiog").**~~<br><br>~~**Rhoddir blaenoriaeth benodol i ddiogelu, ehangu, cysylltedd, gwella a rheolaeth ar gynefinoedd lled-naturiol a gedwir. Lle bo'r angen i ddatblygu yn drech na chadwraeth natur / pwysigrwydd ecolegol**~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~**cyffredinol y safle, dangosir yn glir nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer y datblygiad a bod darpariaethau digolledol hirdymor i'w sicrhau trwy gynigion.**~~<br><br>~~7.359 Nod y Polisi hwn yw diogelu rhwydweithiau ecolegol a nodweddion tirwedd Caerdydd sydd o bwys ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'n cyd-fynd â Pholisi PS21 drwy warchod a gwella treftadaeth naturiol Caerdydd, gan gynnwys ei bioamrywiaeth. Mae'r Polisi hefyd yn cyfrannu at nodau ac amcanion y Cynllun drwy sicrhau bod bioamrywiaeth a digonedd cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau brodorol Caerdydd yn cael eu gwarchod a'u gwella.~~<br><br>~~Yn aml, mae rhywogaethau gwyllt, boed wedi'u gwarchod yn gyfreithiol ai peidio, yn aml wedi eu gwasgaru'n eang yn y dirwedd, gyda phoblogaethau sylweddol wedi eu hynysu oddi wrth ei gilydd. Mewn achosion o'r fath, gall nodweddion tirwedd gynnig coridorau bywyd gwyllt i rai rhywogaethau, yn ogystal â chysylltiadau neu 'gerrig camu' rhwng cynefinoedd. Er ei bod yn hanfodol cynnal a gwella rhwydwaith o safleoedd i ddiogelu'r lefelau bioamrywiaeth presennol, ni ellir cyflawni hyn heb ddiogelu a rheoli'r cynefinoedd a'r ardaloedd sydd rhyngddynt hefyd.~~<br><br>~~Nodwyd bod gwarchod, rheoli a gwella rhwydweithiau ecolegol yn bwysig dros ben yn Erthygl 10 Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE. Mae Rheoliad 39(3) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio annog rheolaeth gadarnhaol dros nodweddion tirwedd sy'n ffurfio'r rhwydwaith hwn ac sy'n bwysig i fflora a ffawna gwyllt. Atgyfnerthir hyn hefyd yn PCC gan ei fod yn cynghori CDLlau i ddiogelu a rheoli nodweddion tirwedd sydd o bwys mawr i gadwraeth natur.~~<br><br>~~At ddibenion y Polisi hwn, nodweddion y dirwedd sydd o bwys i fflora a ffawna gwyllt yw'r rheiny, yn rhinwedd eu strwythur llinol a pharhaus (megis afonydd gyda'u glannau neu systemau traddodiadol o farcio terfynau caeau) neu eu swyddogaeth fel cerrig camu (fel pyllau neu goetiroedd bach), sy'n hanfodol ar gyfer mudo, gwasgariad a chyfnewid genetig ymhlith rhywogaethau gwyllt.~~<br><br>~~Pan gynigir datblygiad a allai beri niwed annerbyniol i rwydweithiau neu nodweddion o'r fath, bydd angen gwybodaeth gan bob ymgeisydd i alluogi cynnal asesiad llawn o'r cynnig. Bydd angen cynnal asesiadau o'r fath, gan gynnwys arolygon ecolegol, ar yr adeg briodol o'r flwyddyn. Bydd canllawiau pellach ar gael yn y CCA Bioamrywiaeth.~~<br><br>~~Os oes ystyriaethau cynllunio materol sy'n tra-arglwyddiaethu o blaid datblygu, yna bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau mesurau rhesymol gan ddatblygwyr i leihau neu wrthbwyso unrhyw effeithiau neu golli nodweddion cynefinoedd neu rywogaethau sy'n bresennol ar safle. Er enghraifft, bod blychau nyth y wennol ddu yn darparu blwch bridio a nythu saff a diogel i wenoliaid duon a sicrhau bod datblygiadau yn dda i ddraenogod trwy fesurau fel gosod tyllau mewn mannau addas ym mhob ffens a mur newydd i gynnig mynediad i ddraenogod i bob rhan o'r safle.~~<br><br>~~Cytunir ar fesurau o'r fath cyn dechrau'r datblygiad a byddant yn cael eu sicrhau drwy amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio priodol. Bydd Rhwymedigaethau Cynllunio yn cael eu sicrhau yn unol â Pholisi PS6.~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Polisi SP21 Diwygiedig: Gwydnwch Ecolegol a Rhwydweithiau Natur**<br><br>**Rhaid i gynigion datblygu ddiogelu, cynnal a gwella gwydnwch ecolegol a rhwydweithiau natur.**<br><br>**Caniateir datblygu dim ond pan y gellir dangos:**<br><br>• **Bydd amrywiaeth, graddfa, cyflwr, cysylltedd ac addasrwydd ecosystemau yn cael eu cynnal a'u gwella;**<br>• **Mae rhwydweithiau ecolegol presennol, cynefinoedd, asedau seilwaith gwyrdd a choridorau ecolegol a cherrig camu wedi cael eu gwarchod a'u hymgorffori yn nyluniad y datblygiad;**<br>• **Mae cysylltedd rhwng cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau yn cael ei gynnal a'i wella ac mae darnio cynefinoedd, colli swyddogaeth ecosystemau ac ynysu poblogaethau rhywogaethau yn cael eu hosgoi;**<br>• **Darperir clustogfeydd, coridorau, cerrig camu a mesurau seilwaith gwyrdd eraill priodol lle bo angen i gynnal a gwella gwydnwch ecolegol; ac**<br>• **Mae'r mwyaf wedi ei wneud o'r cyfleoedd i gryfhau cysylltedd ecolegol ar ac oddi ar y safle, adfer cynefinoedd a rheolaeth ecolegol hirdymor.**<br><br>Mae cynnal a gwella gwydnwch ecolegol yn hanfodol i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac iechyd hirdymor ecosystemau. Mae ecosystemau gwydn yn cefnogi adferiad rhywogaethau, gwasanaethau ecosystemau a lles cymunedol ehangach. Rhaid ystyried rhwydweithiau ecolegol a gwyrdd o'r camau cynharaf o ddylunio safle, gan gadw cysylltiadau ecolegol presennol ond hefyd eu cryfhau lle bo modd.<br><br>Mae egwyddorion DECCA yn darparu fframwaith ar gyfer dangos gwydnwch ecosystemau gan ystyried eu hamrywiaeth, eu graddfa, eu cyflwr, eu cysylltedd a'u haddasrwydd a dylid eu hystyried law yn llaw â mesurau cynllunio seilwaith gwyrdd a gwella bioamrywiaeth.<br><br>Dylai datblygu osgoi darnio cynefinoedd gan gydnabod bod rhwydweithiau ecolegol yn gweithredu ar draws ffiniau gweinyddol a safleoedd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer adfer cynefinoedd, creu a gwell cysylltedd ecolegol o fewn a thu hwnt i'r safle datblygu.<br><br>Mae rhwydweithiau natur yn darparu cysylltiadau ecolegol pwysig rhwng safleoedd dynodedig, cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau, gan alluogi bywyd gwyllt i symud, addasu ac adfer mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill. Dylai datblygu ddiogelu cysylltiadau ecolegol presennol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer adfer cynefinoedd a gwell cysylltedd ar raddfeydd y safle a'r tirwedd. Mae cynefinoedd, cyrsiau dŵr, coed, gwrychoedd, glaswelltiroedd ac asedau seilwaith gwyrdd eraill i gyd yn cyfrannu at gysylltedd ecolegol ehangach.<br><br>Darperir canllawiau pellach sy'n ymwneud â rhwydweithiau ecolegol, dylunio coridorau, clustogi cynefinoedd a gwydnwch ecolegol mewn CCA a NCTau<br><br>Adolygu Polisi BG7 Pwysau Hamdden Aber Afon Hafren a Choedwig Ffawydd Caerdydd ac ail-rifo BG1<br><br>**BG1 diwygiedig: Pwysau Hamdden ar Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Bydd cynigion datblygu a fyddai'n arwain at gynnydd yn y pwysau gan ymwelwyr ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd ac ACA, AGA Aber Afon Hafren yn cael eu caniatáu dim ond pan fydd modd dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd yn digwydd neu lle gelir sicrhau mesurau lliniaru strategol priodol yn unol â strategaeth liniaru a chanllawiau ategol cymeradwy y Cyngor.**<br><br>Mae ACA, AGA a Safle Ramsar Aber Hafren ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd yn safleoedd cadwraeth natur o bwys rhyngwladol a warchodir o dan ddeddfwriaeth cynefinoedd. Mae tystiolaeth a baratowyd i lywio'r Cynllun a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi pwysau hamdden fel ffynhonnell effaith sylweddol ar y safleoedd dynodedig hyn sydd angen ei liniaru i fynd i'r afael ag ef.<br><br>Gall mwy o dwf poblogaeth, datblygu tai a thwristiaeth arwain at fwy o ymwelwyr yn defnyddio cynefinoedd sensitif a safleoedd cadwraeth natur dynodedig. Gall mwy o weithgareddau hamdden fel cerdded, cerdded cŵn, beicio, marchogaeth a hamdden anffurfiol achosi effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynefinoedd gwarchodedig a rhywogaethau/rhywogaethau cymwys a all arwain at ddiraddio cynefinoedd, aflonyddu a cholli swyddogaeth ecolegol.<br><br>Mae Strategaeth Lliniaru Hamdden wedi'i pharatoi i fodloni gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wrth ganiatáu datblygiad preswyl a thwristiaeth ar gyfer Safle Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau hamdden datblygiad tai newydd a thwristiaeth ar y safleoedd. Mae Strategaeth Gyfun Lliniaru Hamdden Aber Afon Hafren Caerdydd a Bro Morgannwg yn nodi dalgylch lliniaru 12.6km i'w gymhwyso lle ystyrir bod datblygiad yn debygol o gynyddu'r pwysau gan ymwelwyr ar Aber Afon Hafren ac mae Coed Ffawydd Caerdydd yn nodi dalgylch lliniaru o 6km i'w gymhwyso lle ystyrir bod datblygiad yn debygol o gynyddu'r pwysau gan ymwelwyr ar Goed Ffawydd Caerdydd.<br><br>Mae'r Strategaethau Lliniaru Hamdden yn cynnwys dwy elfen<br><br>• Rheoli a Monitro Mynediad Strategol (RhMMS) sy'n cynnwys mesurau sy'n ymwneud â rheoli pwysau hamdden ar ac o amgylch Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd<br>• Seilwaith Gwyrdd a Mannau Gwyrdd Naturiol Amgen Addas (MGNAAau) i leihau'r pwysau hamdden ar ac o amgylch Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd<br><br>Lle bo angen, bydd angen i ddatblygu gyfrannu at fesurau lliniaru hamdden strategol, gan gynnwys rheoli ymwelwyr, rheoli mynediad, diogelu a gwella cynefinoedd, darparu cyfleoedd hamdden amgen, monitro, a mesurau eraill sy'n angenrheidiol i gynnal uniondeb safleoedd gwarchodedig a chefnogi gwydnwch ecolegol.<br><br>Darperir rhagor o fanylion am ofynion lliniaru a mecanweithiau cyfraniadau trwy ganllaw cynllunio atodol.<br><br>Adolygu Polisi Safleoedd Dynodedig BG1 a'i ail-rifo fel BG2:<br><br>~~**BG1: SAFLEOEDD DYNODEDIG**~~<br><br>~~**Caniateir datblygiad dim ond os nad yw'n andwyol i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur rhyngwladol neu genedlaethol neu niwed annerbyniol i safleoedd cadwraeth natur a/neu bwysigrwydd**~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **daearegol a ddynodwyd yn lleol. Bydd disgwyl i gynigion datblygu ddangos sut maent yn gwella cadwraeth natur a/neu bwysigrwydd daearegol y dynodiadau lle y maent o fewn y Parth Dylanwad.**<br><br>**Ar gyfer pob safle lle mae potensial am niwed, caniateir datblygu dim ond pan fo mesurau gwneud iawn a lliniaru priodol a chymesur yn nodi nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal neu'r nodwedd.**<br><br>**Ymgynghorir â Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol wrth ystyried safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol. Efallai y bydd hefyd angen ystyried Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – gan gynnwys sgrinio, asesiad priodol neu randdirymiadau.'**<br><br>**Bydd yr holl fesurau lliniaru ar gyfer safleoedd o'r fath yn realistig ac yn gyflawnadwy yn unol ag arfer gorau a'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael.**<br><br>7.343 Pwrpas y Polisi yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau ynghylch diogelu safleoedd o bwysigrwydd er cadwraeth natur rhag datblygiad andwyol.<br><br>7.344 Mae cynigion mewn safleoedd dynodedig statudol gan gynnwys AGA, ACA, SoDdGA neu safleoedd sy'n cynnwys cynefinoedd na ellir eu disodli fel y'u diffinnir gan Bolisi Cynllunio Cymru, fel mater o egwyddor, yn annerbyniol.<br><br>7.345 Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Mae Nature Conservation and Planning (2009) yn nodi polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig rhyngwladol a dynodedig yn genedlaethol. Rhaid ymgynghori â CNC ar gynigion a allai effeithio ar safleoedd rhyngwladol / cenedlaethol ac unrhyw rywogaethau gwarchodedig.<br><br>7.346Yn achos datblygiadau y mae'n ofynnol eu hasesu o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), pan fo penderfyniad cychwynnol o arwyddocâd tebygol wedi nodi ei bod yn debygol y gallai'r cynnig gael effaith sylweddol, neu os gafwyd penderfyniad cadarn ynghylch a fyddai'r datblygiad yn cael effaith sylweddol ar y safle dynodedig ai peidio, bydd angen asesiad priodol o dan Reoliad 61(1) ac efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth gan yr ymgeisydd neu bartïon eraill.<br><br>7.347 Pan fydd cynigion datblygu efallai'n debygol o arwain at darfu neu niwed i rywogaeth a warchodir gan Ewrop neu'r DU neu i'w chynefin, gofynnir am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr<br><br>Os rhoddir caniatâd cynllunio, gall fod yn destun amodau priodol, neu ceisir cytundebau rheoli neu rwymedigaethau cynllunio i sicrhau amddiffyniad, monitro, lliniaru neu wneud iawn priodol a rheolaeth ffafriol.<br><br>Nid yw'r rhwydwaith o safleoedd SoDdGAs/ACA/AGA a Ramsar ohonynt eu hunain yn ddigonol i gynnal bioamrywiaeth Caerdydd. Mae'n bwysig felly nodi safleoedd bywyd gwyllt eraill sydd wedi'u dynodi'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~lleol megis Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SoBCNau) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLau). Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd 177 SoBCN a 6 GNL.~~<br><br>~~7.350 Gellir dynodi safleoedd daearegol a geomorffolegol o bwysigrwydd nad ydynt yn deilwng o hysbysiad fel SoDdGA hefyd eu dynodi yn SoBCN neu yn Safle Daearegol o Bwys Rhanbarthol (RIGS). Mae safleoedd o'r fath yn diffinio'r lleoedd pwysicaf ar gyfer daeareg a geomorffoleg y tu allan i'r rhai sydd wedi'u diogelu'n statudol. Bydd safleoedd daearegol yng Nghaerdydd yn cael eu dynodi yn ystod cyfnod y Cynllun. Nod y Polisi hwn yw diogelu'r GN Llau, SoBCNau a'r SGBRh y cyfeirir atynt uchod.~~<br><br>~~7.351 Bydd y Polisi yn cyfrannu at warchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth yn unol â Pholisi BG2 a bydd yn gweithio tuag at gyflawni amcan y Cynllun o warchod a gwella nodweddion amgylchedd naturiol a threftadaeth Caerdydd.~~<br><br>~~7.352 Mae PCC a NCT 5 yn darparu canllawiau ar bolisïau cynllunio i warchod buddiannau bioamrywiaeth. Yn unol â'r canllawiau hyn, bydd y Cyngor yn asesu'n ofalus gynigion ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar safleoedd anstatudol a rhai dynodedig lleol drwy werthuso:~~<br>• ~~A yw'r angen am y datblygiad arfaethedig yn drech na phwysigrwydd y budd cadwraeth natur penodol ac unrhyw niwed sy'n debygol o gael ei achosi iddo;~~<br>• ~~A all y datblygiad arfaethedig gael lleoliad mwy boddhaol mewn man arall; ac y cynigir mesurau lliniaru neu wneud iawn priodol.~~<br><br>~~7.353 Pan gynigir datblygiad a allai effeithio ar safle anstatudol neu un wedi'i ddynodi'n lleol, bydd angen digon o wybodaeth gan bob ymgeisydd i alluogi cynnal asesiad llawn o'r cynigion. Ni fydd yr angen am asesiadau o'r fath yn gyfyngedig i ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd dynodedig oherwydd, yn dibynnu ar natur y datblygiad a'r diddordeb er cadwraeth natur, gall effeithiau sylweddol ddigwydd hyd yn oed os yw datblygiad arfaethedig wedi'i leoli gryn bellter o'r diddordeb cadwraeth. Bydd angen cynnal yr asesiadau gofynnol, gan gynnwys arolygon ecolegol, ar yr adeg briodol o'r flwyddyn. Bydd canllawiau pellach ar gael yn y CCA Bioamrywiaeth.~~<br><br>~~7.354 Lle rhoddir caniatâd cynllunio, gall fod yn destun amodau priodol neu gytundebau rheoli i sicrhau amddiffyniad digonol, monitro, lliniaru neu wneud iawn addas a rheolaeth ffafriol. Pan fo angen darpariaeth sy'n gwneud iawn, dylai fod o'r un safon a maint â'r hyn a gollwyd yn sgil y datblygiad. Mewn achosion o'r fath, bydd manylion math a lefel y ddarpariaeth yn cael eu darparu, a'u cytuno gan y swyddog achos, cyn penderfynu ar y cais cynllunio. Efallai y bydd angen hyn hefyd ar gyfer ceisiadau cynllunio amlinellol lle bo hynny'n briodol. Lle bo angen, gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio yn unol â Pholisi PS6.~~<br><br>~~7.355 Caiff SoBCNau eu mesur yn unol â'r adolygiad blynyddol o SoBCNau ac adroddir arno hefyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl.~~<br><br>~~7.356 Mae polisi cenedlaethol ar gynnal a gwella bioamrywiaeth wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys y dull cam o gam o osgoi niwed a darparu budd net i fioamrywiaeth. Mae'r dull yn cynnwys osgoi difrod, lleihau difrod, lliniaru difrod ac adfer, darparu iawndal ar y safle, darparu iawndal oddi ar y safle a'r opsiwn i wrthod ceisiadau lle nad yw datblygiad yn briodol.~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~Mae'r Safleoedd Dynodedig a nodir yn y polisi hwn wedi eu diffinio ar y Map Cyfyngiadau.~~<br><br>~~Os ystyrir nad oes cydymffurfiaeth â chytundebau Adran 106 neu amodau cynllunio, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymryd camau gorfodi.~~<br><br>**BG2: Safleoedd Dynodedig**<br>**Rhaid i gynigion datblygu amddiffyn, cynnal a gwella bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau ac uniondeb safleoedd cadwraeth natur a daearegol dynodedig, gan gynnwys eu cynefinoedd cefnogol, swyddogaethau ecolegol a chysylltiadau rhwydwaith ecolegol ehangach.**<br><br>• **Bydd datblygiad sy'n effeithio ar safle dynodedig Ewropeaidd yn cael ei ganiatáu dim ond lle y gellir dangos, ar ei ben ei hun a/neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.**<br>• **Bydd datblygiad sy'n effeithio ar safle dynodedig yn genedlaethol, gan gynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn cael ei ganiatáu dim ond lle y gellir dangos y bydd nodweddion arbennig, gwerth ecolegol a swyddogaeth y safle yn cael eu cynnal. Dim ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol y dylid caniatáu datblygiad nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle. Pan ystyrir bod amgylchiadau cwbl eithriadol wedi'u bodloni, bydd ymgeiswyr yn dangos bod angen a manteision y cynnig yn amlwg yn fwy na phwysigrwydd cenedlaethol y safle a bod yr holl fesurau rhesymol wedi'u cymryd yn dilyn y Dull Fesul Cam ar gyfer bioamrywiaeth.**<br>• **Rhaid i ddatblygiadau sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig lleol, gan gynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SoBCNau), Gwarchodfeydd Natur Lleol osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar eu bioamrywiaeth, eu geoamrywiaeth a'u gwerth ecolegol. Rhaid i gynigion datblygu ddangos cymhwyso'r Dull Fesul Cam i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.**<br><br>Mae safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol yn cynrychioli'r ardaloedd pwysicaf ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Mae'r dynodiadau hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau).<br><br>Ni chaniateir datblygiad sy'n debygol o niweidio nodweddion arbennig SoDdGA yn cael ei ganiatáu. Bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi i warchod SoDdGA a dim ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol y dylid caniatáu datblygiad nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle. Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod angen a manteision y cynnig yn amlwg fwy na phwysigrwydd cenedlaethol y safle a bod pob mesur rhesymol wedi'i gymryd i osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau andwyol. Bydd effeithiau Parth Dylanwad/parthau adfer natur ar gysylltedd ecolegol, gwydnwch ecosystemau a rôl SoDdGAau o fewn rhwydweithiau natur ehangach hefyd yn cael eu hystyried, yn ogystal ag effeithiau anuniongyrchol fel pwysau hamdden, newidiadau hydrolegol, llygredd, darnio ac effeithiau cronnus. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae diogelu'r holl safleoedd dynodedig yn cyfrannu'n sylweddol at ddyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn cefnogi amcanion Adfer Natur yng Nghaerdydd.<br><br>Mae safleoedd a ddynodwyd yn lleol yn elfen bwysig o rwydwaith ecolegol Caerdydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at gadwraeth bioamrywiaeth, gwydnwch ecolegol a mynediad cymunedol at natur.<br><br>Mae safleoedd o'r fath yn cynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SoBCNau), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLlau), a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (SGBRh).<br><br>Er nad oes gan ddynodiadau lleol yr un amddiffyniad statudol â safleoedd cenedlaethol neu ryngwladol, maent yn cynrychioli ardaloedd o werth ecolegol neu ddaearegol sylweddol ac maent yn ystyriaethau perthnasol mewn penderfyniadau cynllunio.<br><br>Dylai cynigion datblygu geisio osgoi effeithiau ar safleoedd a ddynodwyd yn lleol a lle na ellir osgoi effeithiau, dangos bod mesurau lliniaru a gwella priodol wedi'u hymgorffori.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio cyfleoedd i gryfhau rhwydweithiau ecolegol lleol trwy adfer cynefinoedd, gwella a gwell cysylltedd ecolegol.<br><br>Mae canllawiau pellach ar ofynion asesu a lliniaru safleoedd dynodedig wedi'u cynnwys o fewn CCA a NCTau ategol.<br><br>Adolygu Polisi BG3: Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth ac ail-enwi Cynefinoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig, a Cynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn<br><br>~~**BG3: CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU Â BLAENORIAETH**~~<br><br>~~**Caniateir cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar hyfywedd parhaus cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn gyfreithiol, neu sydd o werth sylweddol i Gaerdydd yn seiliedig ar ddosbarthiad hysbys neu faint y boblogaeth, dim ond lle:**~~<br><br>~~**i. Mae'r angen i ddatblygu yn drech na chadwraeth natur/pwysigrwydd ecolegol y safle gan ystyried y Dull Fesul Cam;**~~<br><br>~~**ii. Mae'r datblygwr yn dangos nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer y datblygiad sy'n osgoi effeithiau cadwraeth natur; ac**~~<br><br>~~**iii. Mae mesurau lliniaru sy'n cael eu hystyried yn hunangynhaliol ac yn gynaliadwy yn ariannol yn cael eu darparu gan y datblygwr.**~~<br><br>~~**Os nad oes modd osgoi niwed, caiff ei leihau drwy ei liniaru'n effeithiol er mwyn sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur/gwerth ecolegol cyffredinol yr ardal neu'r rhywogaeth/grŵp. Os nad yw hyn yn bosibl, darperir mesurau gwneud iawn a gynlluniwyd i gadw, gwella, rheoli a, lle y bo'n briodol, adfer cynefinoedd a rhywogaethau naturiol.**~~ |

~~7.366 Mae'r Polisi hwn yn unol â nodau ac amcanion y Cynllun drwy gynnal a gwella nodweddion treftadaeth naturiol Caerdydd, gan gynnwys ei fioamrywiaeth a'i helaethrwydd o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau brodorol. Yn fwy penodol, bydd yn helpu i ddiogelu'r Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth presennol fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae'r Polisi hefyd yn helpu i gyflawni Polisi SP21.~~

~~7.367 Mae presenoldeb rhywogaeth a ddiogelir o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'r DU yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried cynigion datblygu a fyddai yn debygol o darfu ar neu beri niwed i'r rhywogaeth neu ei chynefin. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gynnal arolwg ecolegol i gadarnhau a yw rhywogaeth a warchodir yn bresennol ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar rywogaeth a warchodir. Ar ôl hynny, bydd y cynigion datblygu yn cael eu hasesu yn unol â'r meini prawf a nodir yn PCC a Phennod 6 Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009).~~

~~7.368 Bydd angen i gynigion datblygu sydd â'r potensial i achosi effaith andwyol sylweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth gael eu hategu gan arolwg ecolegol ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar y rhywogaethau a warchodir. Bydd yr angen am asesiadau o'r fath yn cael ei wneud ar adeg briodol o'r flwyddyn. Bydd canllawiau pellach ar gael yn y CCA Bioamrywiaeth.~~

~~7.369 Wrth ystyried unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y Cynefin neu Rywogaethau â Blaenoriaeth bydd y Cyngor yn edrych ar:~~

- ~~Ddosbarthiad a statws presennol y cynefin neu'r rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghaerdydd fel y'u hysbysir gan Gronfa Ddata Fiolegol Caerdydd yn ogystal â ffynonellau data eraill a allai fod yn berthnasol, yn gywir ac yn ymarferol i'w defnyddio at ddibenion o'r fath yn y dyfodol;~~
- ~~A yw'r cynigion datblygu yn debygol o gael effaith sylweddol ar y cynefinoedd/rhywogaethau â blaenoriaeth; a~~
- ~~P'un a oes mesurau lliniaru effeithiol wedi'u darparu.~~

~~7.370 Pan roddir caniatâd cynllunio, gall y Cyngor atodi amodau neu lunio cytundebau a fyddai'n goresgyn effeithiau andwyol posibl datblygiadau ar gynefinoedd neu rywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth. Bydd y Cyngor yn annog yr ymgeisydd i nodi a chynnwys mesurau sy'n cyfrannu at adfer neu ehangu cynefinoedd pwysig, a bydd y rhain yn cael eu nodi yn yr amodau tirlunio a phlannu sy'n cyd-fynd â'r caniatâd cynllunio. Bydd unrhyw rwymedigaethau cynllunio sy'n ofynnol yn unol â Pholisi SP6.~~

~~7.371 Lle ceir effaith andwyol sylweddol ar boblogaeth sylweddol o'r Cynefinoedd neu'r Rhywogaethau â Blaenoriaeth a lle na all amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio ddiogelu'r buddiant hwnnw yn ddigonol, efallai y bydd angen gwrthod cynigion datblygu.~~

~~7.372 Mae Cynefinoedd a Rhywogaethau â blaenoriaeth yn cael eu monitro fel rhan o'r adolygiad 3 blynedd o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r DU.~~

**Polisi BG3: Cynefinoedd, Rhywogaethau Gwarchodedig a Chynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn**

**Dim ond os y gellir dangos y caniateir cynigion datblygu sy'n effeithio ar gynefinoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig neu Rywogaethau Pwysig Iawn, neu gynefinoedd a rhywogaethau eraill o werth ecolegol lleol cydnabyddedig:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • **Ni fydd unrhyw golled, dirywiad, darnio neu aflonyddu annerbyniol ar gynefinoedd gwarchodedig, cynefinoedd sy'n cynnwys rhywogaethau a warchodir, Cynefinoedd neu Rywogaethau Pwysig Iawn, cynefinoedd, rhywogaethau neu nodweddion ecolegol na ellir eu disodli sy'n cyfrannu at rwydweithiau natur a gwydnwch ecosystemau.**<br>• **Bydd statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau ac uniondeb ecolegol cynefinoedd ategol yn cael eu cynnal.**<br>• **Dim ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol a phan fo'n gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol y caniateir datblygiad sy'n arwain at golli neu ddirywiad cynefinoedd unigryw, megis coetir hynafol a choed hynafol a hynod.**<br>• **Mae effeithiau andwyol uniongyrchol, anuniongyrchol a chronnus wedi'u hosgoi trwy ddewis safleoedd, cynllunio a dylunio.**<br>• **Mae'r dull fesul cam wedi'i gymhwyso trwy geisio osgoi effaith, lleihau, lliniaru/adfer a, lle bo angen, gwneud iawn, gwella a rheoli tymor hir.**<br>• **Cyflawnir Budd Net i Fioamrywiaeth ar gyfer pob un.**<br><br>Mae Caerdydd yn cynnwys ystod amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig a Chynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn, sydd, ynghyd â nodweddion ecolegol eraill, yn cyfrannu at fioamrywiaeth, cysylltedd ecolegol, gwydnwch ecosystemau a'r Rhwydwaith Adfer Natur ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd pwysig yn rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, rhywogaethau a ddiogelir yn gyfreithiol, Cynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn a choridorau bywyd gwyllt sy'n hwyluso symudiad rhywogaethau ar draws y dirwedd a'r rhywogaethau hynny sydd o werth lleol trwy eu graddfa daearyddol neu faint y boblogaeth. Mae diogelu, adfer a gwella'r asedau hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â'r Argyfwng Natur, cefnogi gwydnwch hinsawdd a chyflawni amcanion llesiant y Cyngor.<br><br>Gall datblygiad effeithio'n andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu'n gronnus ac felly rhaid i gynigion gael eu llywio gan dystiolaeth ecolegol briodol sy'n gymesur â natur, graddfa a lleoliad y datblygiad. Dylai asesiadau ecolegol ystyried nid yn unig gynefinoedd a rhywogaethau unigol ond hefyd cyflwr cynefinoedd, swyddogaeth ecolegol, cysylltedd a rôl safleoedd o fewn Rhwydweithiau Natur ehangach a rhwydweithiau ecolegol gwydn.<br><br>Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos bod y Dull Fesul Cam wedi'i gymhwyso, gan roi blaenoriaeth i osgoi effeithiau andwyol cyn ystyried mesurau lleihau, lliniaru, gwneud iawn, gwella a rheoli tymor hir. Dylid ystyried rhywogaethau neu gynefinoedd gwarchodedig, Cynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig Iawn a'r rhai o werth lleol ar y camau cynharaf o ddatblygiad prosiect er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i'w hosgoi a lleihau'r angen am liniaru neu wneud iawn.<br><br>Wrth asesu cynigion, rhoddir sylw arbennig i gynnal a chryfhau cysylltedd ecolegol, cefnogi Rhwydweithiau Adfer Natur a gwella gwydnwch ecosystemau. Rhaid ymgorffori cyfleoedd ar gyfer creu, adfer, gwella a rheoli hirdymor ar gynefinoedd mewn cynigion datblygu i sicrhau buddion bioamrywiaeth sy'n cefnogi adferiad rhywogaethau a gwydnwch ecolegol. |

Mae Cynllun Adfer Natur y Cyngor, adrodd ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau a chanllawiau technegol cysylltiedig yn darparu gwybodaeth ychwanegol am flaenoriaethau rhywogaethau a chynefinoedd yng Nghaerdydd.

Polisi Diwygiedig BG5 Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

**Polisi BG5 Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd**

**Dylai cynigion datblygu ~~helpu i~~ warchod a gwella coedwig drefol gynaliadwy.**
**Ni chaniateir ~~cynigion sy'n arwain at g~~waredu coed yn barhaol a/neu achosi niwed sylweddol i goed, coetiroedd a gwrychoedd oni ddangosir yn glir y bydd hyn yn sicrhau buddion ~~amwynder~~ cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir ac y gwneir iawn am golledion yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol.**

7.375 Mae coed, coetiroedd a gwrychoedd yn cynnig nifer o fuddion, gan gynnwys: -

- Amwynder gweledol.
- Diffinio ymdeimlad o le.
- Fel treftadaeth ddiwylliannol neu henebion treftadaeth naturiol pwysig.
- Darparu lleoedd i ymlacio a hamddena.
- Cefnogi bioamrywiaeth.
- Gwella iechyd a lles.
- Rhyng-gipio a storio llygryddion.
- Rhyng-gipio a storio dŵr.
- Atafaelu Carbon.
- Amsugno pridd a deunydd organig priddlyd.
- Amddiffyn rhag erydiad pridd.
- Difrodi er mwyn gwella microhinsawdd.
- Lliniaru effeithiau disgwyliedig newid yn yr hinsawdd.

7.376 Bydd coedwig drefol gynaliadwy yn cynnwys ystod oed amrywiol ond cytbwys a chymysgedd o rywogaethau coed, er y bydd coed mawr, hirhoedlog yn cael eu ffafrio i'w gwarchod a'u plannu oherwydd y buddion mwy y maent yn eu cynnig wrth liniaru effeithiau disgwyliedig newid yn yr hinsawdd. Bydd dewis rhywogaethau priodol ar gyfer plannu yn dibynnu ar y cyd-destun lleol – er enghraifft, mewn cyd-destunau lled-naturiol, coed brodorol lleol sy'n debygol o gael eu ffafrio, ond mewn cyd-destunau hynod drefol, efallai y bydd coed anfrodorol sydd yn gallu addasu'n well i eithafion hinsoddol yn fwy priodol. Mae coedwig drefol gynaliadwy yn allweddol i'r uchelgais o sicrhau brigdwf o 25% erbyn 2030.

7.377 Er mwyn helpu i benderfynu a fydd cael gwared ar goed a/neu niwed sylweddol i goed, coetiroedd neu wrychoedd o fewn neu yn ffinio â safle yn sicrhau buddion amwynder cyhoeddus sylweddol a fydd wedi'u diffinio'n glir, rhaid i ymgeiswyr eu hasesu nhw yn unol â'r Safon Brydeinig 5837 gyfredol, Rheoliadau Gwrychoedd 1997 ac fel rhan o ~~Asesiad~~Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd ehangach yn unol â Phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru. Rhaid i'r ~~asesiadau~~ datganiadau gyflwyno gwybodaeth yn hytrach na chael eu llywio gan ddyluniad. Mae Canllaw Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd Cyngor Caerdydd (Nodyn Canllawiau Technegol Coed a Datblygu) yn rhoi arweiniad pellach er mwyn penderfynu a fydd cael gwared ar goed, coetiroedd neu wrychoedd o fewn neu yn ffinio â safle yn sicrhau buddion ~~amwynder~~ cyhoeddus sylweddol a fydd wedi'u diffinio'n glir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.378 I atal difrod i goed, coetiroedd a gwrychoedd yn ystod datblygiad, bydd angen cynlluniau gwarchod, yn unol â'r Safon Brydeinig 5837 gyfredol. Mae coed hynod, coed hynafol a choetir hynafol angen mesurau gwarchod arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu clustogi rhag newidiadau i'r amgylchedd a allai fod yn niweidiol i'w hiechyd a/neu eu gallu i ddarparu cynefin i organebau eraill.<br><br>7.379 Coed yw'r organebau mwyaf a hirhoedlaf yng Nghaerdydd. Wrth ystyried datblygiadau a allai effeithio arnynt, rhoddir ystyriaeth i effeithiau byrdymor a hirdymor posibl. Lle na ellir osgoi colli coed, coetir neu wrychoedd, bydd gofyn cael plannu i wneud iawn (a fydd yn gymesur â'r golled arfaethedig fel y nodwyd drwy asesiad o werth seilwaith gwyrdd gan gynnwys bioamrywiaeth, gwerth y dirwedd ac atafaelu carbon). Bydd plannu o’r newydd ar gymhareb sy'n cyfateb i ansawdd a phwysigrwydd amgylcheddol ac ecolegol y goeden/coed a gollwyd, ac yn ddelfrydol bydd hyn ar y safle, neu'n union gyfagos i'r safle, ac ar gymhareb o 3 choeden o leiaf o fath tebyg a maint i’w plannu ar gyfer pob 1 a gollwyd. Pan fo ardal o goetir neu lain gysgodi yn cael eu colli fel rhan o gynllun arfaethedig, rhaid i'r plannu cyfadferol fod ar raddfa, dyluniad a chymysgedd rhywogaethau sy'n adlewyrchu'r ardal honno a gollwyd. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r gyfradd blannu fod o leiaf 1600 o goed yr hectar ar gyfer coed llydanddail, a 2500 o goed yr hectar ar gyfer coed conwydd. Bydd y safle plannu ar gyfer pob coeden newydd yn addas i gefnogi ei sefydlu a'i hiechyd ac yn sicrhau ei thwf hirdymor heb ddim i gyfyngu arni rhag gwneud y gorau o'r buddion amgylcheddol ac ecolegol y mae'r safle’n eu cynnig.<br><br>7.380 Er bod hi’n haws gwaredu a phlannu coed iau, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod digon o goed ifanc yn goroesi i aeddfedrwydd, gan ystyried nifer y datblygiadau a allai ddigwydd yn ystod eu hoes naturiol. Ffefrir cynigion sy’n creu gofod i goed mwy dyfu’n aeddfed dros gynigion ar gyfer mân goed gwasgaredig.<br><br>Mae coetiroedd hynafol, coetiroedd lled-naturiol, gan gynnwys coed unigol hynod, hynafol a threftadaeth, a gwrychoedd hynafol yn adnoddau naturiol unigryw, ac mae ganddynt werth tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliannol sylweddol. Rhaid i goed, coetiroedd a gwrychoedd o'r fath gael eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywiad oni bai mewn achosion hynod brin bod manteision cyhoeddus sylweddol a diffiniedig; Rhaid i'r warchodaeth hon atal gweithrediadau a allai fod yn niweidiol ac arwain at eu colli’n ddiangen.<br><br>Polisi Diwygiedig BG6 Priddoedd<br><br>**Polisi BG6 Priddoedd**<br><br>**Bydd cynigion datblygu yn dangos yn glir sut y byddant yn gwarchod ac yn gwella adnoddau pridd pwysig ar gyfer y manteision lluosog y maent yn eu fforddio. Ni chaniateir symud yn barhaol, selio a/neu wneud niwed sylweddol i swyddogaeth priddoedd oni ddangosir yn glir y bydd hyn yn sicrhau buddion ~~amwynder~~ cyhoeddus sylweddol fydd wedi eu diffinio’n glir.**<br>7.382 Mae priddoedd yn cynnig manteision lu gan gynnwys: -<br>• Cynefin ar gyfer organebau.<br>• Rheoli hinsawdd.<br>• Cylchredeg maetholion.<br>• Darparu deunyddiau adeiladu.<br>• Atafaelu Carbon.<br>• Rheoli llifogydd. |

- Puro dŵr a lleihau halogyddion.
- Sylfaen ar gyfer seilwaith dynol.
- Amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol.
- Darparu bwyd a thanwydd.

7.383 Mae priddoedd na welodd ddim, neu fawr ddim tarfu arnynt, fel y rhai sy'n cynnal glaswelltir, coetir neu lystyfiant lled-naturiol arall, yn anodd iawn eu hadfer, eu hail-greu neu eu hamnewid. Mae ffurfiant pridd yn digwydd dros gyfnod hir iawn a gall priddoedd o dan lystyfiant lled-naturiol fod wedi bod heb unrhyw darfu / fawr ddim tarfu arnynt ers miloedd o flynyddoedd. Gall aredig ac arferion amaethyddol eraill darfu ar/newid priddoedd sy'n cynnal cnydau amaethyddol, o leiaf ar hyd yr arwyneb, eto’i gyd mae priddoedd o'r fath fel arfer yn dal i fod yn adnodd pwysig a gellir adfer unrhyw swyddogaeth priddoedd a gollwyd neu a ddifrodwyd gan amaeth yn gyflymach na phridd sy'n destun cywasgu a halogi gan brosesau adeiladu.

7.384 Bydd datblygiadau newydd yn pwysleisio gwarchod ac adfer priddoedd yn y fan a'r lle yn hytrach na dibynnu ar fewnforio priddoedd neu waith dwys i wella/adfer priddoedd. Y ffordd orau o ddisgrifio priddoedd a fewnforiwyd ac a ‘enillwyd ar y safle’ a achubwyd o bentyrrau stoc yw fel 'deunyddiau ffurfio pridd' gan nad ydynt wedi bod yn destun prosesau pedolegol hirdymor, neu amharwyd ar y prosesau hynny gan waith cloddio.

7.385 Bydd effaith gyffredinol datblygu ar briddoedd yn ffurfio rhan o Ddatganiad ~~Asesiad~~ Seilwaith Gwyrdd yn unol â Phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru.

7.386 Bydd y gwaith o reoli priddoedd yn gynaliadwy yn cael ei lywio gan Arolwg Adnoddau Pridd yn unol â Chanllaw Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd Cyngor Caerdydd (Nodyn Cyfarwyddyd Technegol Priddoedd a Datblygu) a bydd hyn yn llywio cynhyrchu Cynllun Adnodd/Rheoli Pridd sy'n nodi sut y bydd y datblygiad yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a sut caiff priddoedd eu rheoli'n gynaliadwy a’u hail-ddefnyddio. Mae Strategaeth Pridd Cyngor Caerdydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am briddoedd yng Nghaerdydd a'r arfer gorau o ran rheoli pridd yn gynaliadwy.
7.387 Lle na ellir osgoi symud yn barhaol, selio a/neu niwed sylweddol i swyddogaeth priddoedd, cyflwynir manylion llawn unrhyw fesurau lliniaru i ddangos sut y bwriedir gwneud iawn am hyn. Er enghraifft, gall plannu llystyfiant coediog hirhoedlog adfer strwythur priddoedd, deunydd organig a chyflymu ffurfio pridd a lleihau erydiad pridd. Efallai y bydd mesurau gweithredol i ddad-gywasgu pridd yn fecanyddol yn briodol mewn rhai achosion, ond mewn achosion eraill gall dull mwy goddefol fod yn briodol yn cynnwys defnyddio tomwellt, mater organig, Bio-olosg neu adel i olyniaeth naturiol ddigwydd fel bod dad-gywasgiad pridd a’i weithrediad yn dychwelyd yn arafach, gan ganiatáu ar gyfer olyniaeth ecolegol.
7.388 Lle na ellir osgoi symud yn barhaol, selio a/neu niwed sylweddol i swyddogaeth priddoedd, cyflwynir manylion llawn unrhyw fesurau lliniaru i ddangos sut y bwriedir gwneud iawn am hyn. Bydd natur y gwella neu’r adfer yn dibynnu ar y safle dan sylw a natur y broblem, ond mae rhai enghreifftiau o fesurau lliniaru i wella neu adfer pridd yn cynnwys:

- Plannu llystyfiant coediog hirhoedlog gan gynnwys coed â gwreiddiau dwfn i adfer strwythur pridd, deunydd organig a chyflymu ffurfio pridd a lleihau erydiad pridd.

- Gall dad-gywasgu mecanyddol fod yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig lle mae isbridd wedi'i gywasgu, gyda'r math o offer a methodoleg a ddefnyddir yn dibynnu ar natur problem a maint y safle. Gall rhwygo priddoedd gydag offer rhwygo ddad-gywasgu isbridd lle cafodd ei

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gywasgu gan waith adeiladu. Ar raddfa lai, gall chwistrellu aer cywasgedig fod yn effeithiol wrth dorri haenau cywasgedig a gellir cyfuno hyn â thaenu tomwellt fertigol a rheiddiol.<br><br>• Gall ymgorffori tomwellt arwyneb, mater organig, Bio-olosg, brechlynau microbaidd neu frechlynau milodol i'r pridd gynyddu bioamrywiaeth y pridd a/neu wella ei strwythur.<br><br>• Ar rai safleoedd, bydd caniatáu ar gyfer olyniaeth naturiol fel bod dad-gywasgu pridd a'i weithrediad yn dychwelyd yn arafach, yn briodol. Mae gwahanol gymunedau milodol a blodeuol pridd yn debygol o dra-arglwyddiaethu ar wahanol gyfnodau olynol ac, yn gyffredinol, po hwyraf y cyfnod olynol, ucha'n byd yw cynnwys mater organig y pridd. Efallai y bydd angen ymyrraeth reoli i atal neu arafu olyniaeth i ffafrio rhywogaeth benodol, neu grŵp o rywogaethau.<br><br>• Sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng priddoedd i'w hadfer a phriddoedd sydd ger llaw ar dir lle na fy tarfu cymharol arno, megis coetir neu laswelltiroedd hŷn. Bydd hyn yn caniatáu i rywogaethau gytrefu'r pridd a adferwyd yn naturiol er bod yn rhaid cydnabod bod rhai rhywogaethau fel pryfed genwair yn debygol o wladychu yn gyflymach nag organebau symudol llai fel gwiddon, felly bydd bioamrywiaeth a chyfansoddiad ffawnal priddoedd a adferwyd yn newid dros amser, ond efallai y bydd angen amserlenni hir iawn i gyflawni cymhlethdod naturiol, pridd sydd heb ei darfu. |

## 7. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 9: Materion Tai Eraill

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC12 | **Pwynt Gweithredu HS9.1**<br>*Diwygio SP3 a/neu SP4 i gynnwys cyfeiriad at sicrhau cartrefi gydol oes/tai anghenion arbenigol lle nodir angen amdanynt.* | Mae Polisi SP3 | Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi SP3 Pwynt iv fel a ganlyn:<br>**iv. Cymunedau Iach, Cynhwysol ac Addasadwy: Cefnogi cymunedau iach a chynaliadwy sy'n meithrin dylunio cynhwysol, gan sicrhau bod adeiladau, strydoedd a mannau yn hygyrch i bob defnyddiwr ac yn addasadwy i newidiadau i ffyrdd o fyw yn y dyfodol, gan gynnwys darparu cartrefi gydol oes / angen tai arbenigol (lle nodir angen).** |
| PPC13 | **Pwynt Gweithredu HS9.2**<br>Diwygiad Arfaethedig i Bolisi H5 (iv) | Polisi H5 | Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi H5 (iv) fel a ganlyn (dangosir y testun ychwanegol wedi'i danlinellu):<br>**iv. Mae'r eiddo o ~~faint,~~ ddyluniad lle byddai gosodiad, maint ystafelloedd, ystod y cyfleusterau, trem a'r gofod amwynder y tu allan i'r eiddo terfynol yn sicrhau safon addas o amwynder preswyl a diogelwch i fodloni gofynion nifer y preswylwyr a fwriedir;** |
| PPC14 | **Pwynt Gweithredu HS9.3**<br>*Diwygio Polisi CP2*<br>*i. Creu 3 pholisi, Addasu, Estyniadau, Amnewid.*<br>*ii. Cynnwys y nod o geisio defnydd cyflogaeth yn gyntaf ar gyfer addasiadau (7.322) yn y polisi.* | Polisi CP2 | Mewn ymateb i'r Pwyntiau Gweithredu, mae'r Cyngor yn cynnig rhannu polisi CP2 yn dri pholisi ar wahan a diwygio'r geiriad yn unol â Sylwadau'r Arolygwyr<br><br>**~~CP2: ADDASIADAU, ESTYNIADAU AC ADEILADAU AMNEWID YNG NGHEFN GWLAD~~**<br><br>**~~Bydd rhagdybiaeth yn erbyn addasu, amnewid ac estyniadau i adeiladau yng nghefn gwlad Caerdydd ac eithrio lle:~~**<br><br>**~~(a) Bydd yn rhaid i'r addasiad arfaethedig:~~** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | iii. *Cynnwys cyngor ar farchnata yn y cyfiawnhad rhesymol (yn unol ag ymatebion y Cyngor yn ID04)*<br>iv. *Diwygio CP2(a), 'Rhaid i'r adeilad a gynigir i'w addasu:*<br>v. *Diwygio CP2(a)(iii), 'Rhaid i'r defnydd arfaethedig beidio arwain at adeiladau ychwanegol'*<br>vi. *Dileu CP2(a)(iv)*<br>vii. *Awgrymu dileu'r paragraff olaf, mae meini prawf sy'n anelu at gyflawni dyluniad da wedi'u cynnwys ym mhob adran ac yn SP3, SP3(xiii) yn benodol.* | | ~~**i. Fod yn strwythurol gadarn ac yn gallu cael ei wneud heb newidiadau mawr, ailadeiladu neu godi estyniad;**~~<br>~~**ii. Fod yn bosibl heb newid cymeriad presennol yr adeilad yn sylweddol neu gael effaith andwyol ar gefn gwlad;**~~<br>~~**iii. Beidio â chreu galw am adeiladau ychwanegol; a**~~<br>~~**iv. Bod yn addas ar gyfer yr ailddefnydd arfaethedig.**~~<br><br>~~**(b) Rhaid i'r estyniad arfaethedig:**~~<br><br>~~**i. Fod yn is-ran i'r adeilad presennol; a**~~<br>~~**ii. Pharchu graddfa, cymeriad a dyluniad rhan wreiddiol yr adeilad o fewn ei osodiad tirwedd a chefn gwlad.**~~<br><br>~~**Adeiladau Amnewid**~~<br><br>~~**(c) Rhaid i'r adeilad amnewid newydd**~~<br><br>~~**i. Beidio ag arwain at gynyddu'r effaith ar ansawdd a chymeriad yr ardal gyfagos o ran ei raddfa a'i ddyluniad arfaethedig, gan gynnwys unrhyw gwrtil preswyl;**~~<br>~~**ii. Fod ar ôl troed yr adeilad presennol oni ellir cyfiawnhau adleoli o ran naill ai bod yn rhan o grŵp sy'n bodoli eisoes neu wella cefn gwlad neu'r gosodiad tirwedd; a**~~<br>~~**iii. Pheidio â disodli unrhyw adeilad â rhinweddau pensaernïol, hanesyddol neu weledol.**~~<br>~~**iv. Ar gyfer anheddau amnewid, dim ond adeiladau parhaol sydd wedi cael eu defnyddio fel annedd neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf fel annedd ac sy'n cadw'u defnydd preswyl cyfreithlon ac lle mae modd byw ynddynt neu y gellir eu gwneud yn gartrefol heb ailadeiladu sylweddol a gaiff eu hystyried fel annedd amnewid.**~~<br><br>~~**Dylai pob cynnig fod o raddfa a dyluniad priodol ac o leiaf yr un mor gydymdeimladol yn ei leoliad â'r adeilad presennol.**~~<br><br>~~7.317 Nod y Polisi hwn yw sicrhau bod addasiadau, estyniadau ac adeiladau amnewid yng nghefn gwlad yn gwarchod cymeriad ac ansawdd cefn gwlad a gwerth treftadaeth naturiol Caerdydd, heb fod yn rhy gyfyngol.~~<br><br>~~7.318 Mae'r Polisi yn cyfrannu at amcanion y Cynllun sy'n cefnogi ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig presennol i helpu i ddiwallu anghenion datblygiadau masnachol a diwydiannol, yn ogystal ag ar gyfer twristiaeth, chwaraeon a hamdden. Dylid cyfeirio hefyd at PS16 o ran ystyried cynigion yn ardal y Lletem Las.~~<br><br>~~7.319 Mae graddfa a dyluniad rhai adeiladau unigol eisoes yn cael effaith andwyol ar gymeriad ac ansawdd cefn gwlad Caerdydd. Er y gallai estyniadau ar raddfa fach, addasiadau ac adeiladau amnewid fod yn dderbyniol, bydd pob datblygiad yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli'n llym i atal niwed andwyol. Pan roddir caniatâd, gallai hawliau datblygiad a ganiateir hefyd gael eu dileu.~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~7.320 O ran addasiadau a newidiadau defnydd, cydnabyddir bod llawer o adeiladau wedi, ac yn parhau i syrthio'n adfail sy'n golygu eu bod yn mynd yn anaddas at y diben gwreiddiol y'u bwriadwyd ar ei gyfer. Er y gallai ailddefnyddio ac addasu adeiladau o'r fath atal y stoc adeiladau presennol rhag mynd yn wastraff, mae angen cydbwysedd i ddiogelu cymeriad ac ansawdd cefn gwlad. Caniateir cynigion ar gyfer trosi adeiladau gwledig dim ond pan fyddant yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodir uchod a pholisïau perthnasol eraill y Cynllun. Yn ogystal â hyn, ni ddylai unrhyw fynedfa, tramwyfa, triniaeth ffiniol, tirlunio neu nodweddion allanol eraill sy'n gysylltiedig â'r cynigion, arwain at golli caeau neu gael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal gyfagos. Yn achos addasiadau arfaethedig/newid defnydd i ddefnydd preswyl, ni ystyrir bod creu gerddi newydd ac ymestyn gerddi yn briodol fel arfer oherwydd eu heffaith niweidiol unigol a chronnol ar ansawdd a chymeriad cefn gwlad a'r dirwedd.~~<br><br>~~7.321 Bydd estyniadau i adeiladau presennol hefyd yn cael eu rheoli'n llym i gyfyngu ar eu heffaith unigol a chronnol. Dylai cynigion ar gyfer estyniadau sicrhau mai'r adeilad presennol yw'r ffurf sy'n tra-arglwyddiaethu o hyd. Yn achos adeiladau sydd wedi cael estyniadau blaenorol, dylai'r cynigion dalu sylw i raddfa a chymeriad rhan wreiddiol yr adeilad. Bydd y duedd i geisio cael estyniadau olynol i adeiladau unigol yn cael ei wrthsefyll.~~<br><br>~~7.322 Yn gyffredinol, bydd dymchwel ac amnewid adeiladau ond yn cael eu caniatáu ar ôl troed adeilad presennol neu eu hadleoli i fannau eraill ar y safle lle nad yw eu graddfa a'u dyluniad, gan gynnwys unrhyw gwrtil preswyl, yn arwain at fwy o effaith ar ansawdd a chymeriad yr ardal. Bydd amnewid adeiladau amhreswyl yn anheddau yn cael ei wrthsefyll. Yn gyffredinol, bydd ailddefnyddio neu addasu adeiladau presennol fel arfer yn cael eu ffafrio dros ddatblygiad newydd.~~<br><br>Gall graddfa a dyluniad datblygiad yng nghefn gwlad, gan gynnwys estyniadau, addasiadau ac adeiladau amnewid amhriodol, gael effaith andwyol ar gymeriad ac ansawdd cefn gwlad Caerdydd. Er y gallai estyniadau ar raddfa fach, addasiadau ac adeiladau amnewid fod yn dderbyniol, bydd pob datblygiad yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli'n llym i atal niwed andwyol. Pan roddir caniatâd, gallai hawliau datblygiad a ganiateir hefyd gael eu dileu.<br><br>**Polisi CP2 (a): Addasu Adeiladau yng Nghefn Gwlad**<br><br>**Dim ond pan geir y canlynol y caniateir cynigion ar gyfer addasu neu newid defnydd adeiladau yng nghefn gwlad:**<br>• **mae'r adeilad presennol yn barhaol, yn strwythurol gadarn ac mae modd ei addasu heb fod angen ailadeiladu, ei newid neu godi estyniad sylweddol;**<br>• **mae'r addasiad yn cadw a lle bo hynny'n bosib yn gwella cymeriad, ymddangosiad a lleoliad cefn gwlad yr adeilad;**<br>• **ni fyddai'r defnydd newydd arfaethedig a'r gwaith cysylltiedig, gan gynnwys trefniadau mynediad, parcio, lleiniau caled, triniaethau ffiniau, goleuo a thirlunio yn cael effaith andwyol ar gymeriad ac ansawdd cefn gwlad.**<br><br>Er y gallai ailddefnyddio adeiladau gwledig sy'n bodoli eisoes atal y stoc adeiladau presennol rhag mynd yn wastraff, mae angen cydbwysedd i ddiogelu cymeriad ac ansawdd cefn gwlad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod y polisi hwn yw sicrhau bod addasu neu newid defnydd adeiladau yng nghefn gwlad yn cadw cymeriad ac ansawdd gwerth cefn gwlad a threftadaeth naturiol Caerdydd.<br>Caniateir cynigion ar gyfer addasu adeiladau gwledig dim ond pan fyddant yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodir uchod a pholisïau perthnasol eraill y Cynllun.<br>O dan y polisi hwn ni chaniateir cynigion lle byddai angen ailadeiladu sylweddol fel y byddai'r datblygiad sy'n deillio o hynny i bob pwrpas yn adeilad amnewid.<br>Gall addasiadau amhriodol gael effaith maestrefu sy'n erydu cymeriad cefn gwlad, felly yn ogystal â'r addasiad neu newid defnydd, cymerir gofal arbennig i sicrhau nad yw gwaith cysylltiedig, gan gynnwys trefniadau mynediad, parcio, lleiniau caled, triniaethau ffiniau, goleuo a thirlunio yn arwain at golli caeau nac yn cael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal gyfagos.<br>Yn achos addasiadau arfaethedig/newid defnydd i ddefnydd preswyl, ni ystyrir bod creu gerddi newydd ac ymestyn gerddi yn briodol fel arfer oherwydd eu heffaith andwyol unigol a chronnol ar ansawdd a chymeriad cefn gwlad a'r dirwedd.<br><br>**Polisi CP2(b): Estyniadau i Adeiladau yng Nghefn Gwlad**<br><br>**Bydd cynigion ar gyfer estyniadau i adeiladau yng nghefn gwlad yn cael eu caniatáu dim ond pan fo'r estyniad**<br>• **yn amlwg yn isradd i'r adeilad gwreiddiol o ran graddfa, màs, uchder ac ymddangosiad gweledol ac amlygrwydd;**<br>• **yn parchu graddfa, cymeriad a dyluniad rhan wreiddiol yr adeilad o fewn ei osodiad cefn gwlad a'i dirwedd.**<br>• **ni fyddai'n effeithio'n andwyol ar gymeriad, ansawdd neu ymddangosiad cefn gwlad.**<br><br>Nod y Polisi hwn yw sicrhau bod addasiadau, estyniadau ac adeiladau amnewid yng nghefn gwlad yn cadw cymeriad ac ansawdd cefn gwlad a gwerth treftadaeth naturiol Caerdydd.<br>Bydd estyniadau i adeiladau presennol hefyd yn cael eu rheoli'n llym i gyfyngu ar eu heffaith unigol a chronnol. Dylai cynigion ar gyfer estyniadau sicrhau bod yr adeilad presennol yn parhau i fod y ffurf ddominyddol, yn enwedig o ran maint ac ymddangosiad yr adeilad gwreiddiol yn hytrach nag ychwanegiadau diweddarach.<br>Yn achos adeiladau sydd wedi cael estyniadau blaenorol, rhaid i'r cynigion ystyried graddfa a chymeriad rhan wreiddiol yr adeilad gan y gall estyniadau olynol arwain at gynnydd anghymesur ym maint neu effaith weledol adeilad a all effeithio'n andwyol ar gymeriad ac ansawdd cefn gwlad.<br><br>**Polisi CP2 (c): Amnewid Adeiladau yng Nghefn Gwlad**<br><br>**Caniateir cynigion ar gyfer amnewid adeiladau yng nghefn gwlad dim ond pan fydd modd dangos bod yr adeilad newydd arfaethedig**<br>• **yn cadw ac, lle bo'n bosibl, yn gwella cymeriad, ansawdd ac ymddangosiad yr ardal gyfagos ac na fyddai'n arwain at niwed annerbyniol i gefn gwlad o ran ei raddfa, ei leoliad, ei ddyluniad na'i ymddangosiad;**<br>• **Ni fydd yn cael mwy o effaith ar gymeriad, ansawdd neu ymddangosiad yr ardal gyfagos, o ran graddfa, dyluniad ac ymddangosiad;**<br>• **Byddai wedi'i leoli ar ôl troed yr adeilad presennol oni bai y gellir cyfiawnhau lleoliad amgen trwy ddangos perthynas gliriach â grŵp presennol o adeiladau neu y gellir dangos ei fod yn darparu gwelliant amlwg i'w leoliad cefn gwlad neu'i dirwedd;**<br>• **Ni fyddai'n golygu amnewid adeilad sydd ag arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu weledol.**<br>**Yn ogystal, caniateir cynigion ar gyfer anheddau amnewid dim ond pan fo'r adeilad presennol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • **wedi cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon fel annedd, neu ei ddefnyddio ddiwethaf fel annedd;**<br>• **yn cadw hawliau defnydd preswyl cyfreithlon; a**<br>• **bod dal modd byw ynddo, neu gellir ei wneud i fod felly heb ailadeiladu sylweddol**<br>Nod y Polisi hwn yw sicrhau bod amnewid adeiladau yng nghefn gwlad yn gwarchod cymeriad ac ansawdd cefn gwlad a gwerth treftadaeth naturiol Caerdydd, heb fod yn rhy gyfyngol.<br>Yn gyffredinol, dim ond ar ôl troed adeilad presennol y caniateir dymchwel ac amnewid adeiladau, neu ei adleoli i fan arall ar y safle lle byddai hyn yn darparu gwelliant amlwg i'r lleoliad cefn gwlad neu'r dirwedd. Rhaid i raddfa a dyluniad yr adeilad amnewid, gan gynnwys unrhyw gwrtil preswyl, warchod a, lle bo hynny'n bosibl, gwella cymeriad ac ansawdd yr ardal<br><br>Bydd amnewid adeiladau amhreswyl i anheddau yn cael ei wrthsefyll. Yn gyffredinol, bydd ailddefnyddio neu addasu adeiladau presennol fel arfer yn cael eu ffafrio dros ddatblygiad newydd. |
| PPC15 | **Pwynt Gweithredu HS9.4**<br>*Dileu 'cegin, ardal fwyta yn ogystal ag amwynder cymunol' o Bolisi H6(iv).* | Polisi H6 | Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi H6 (iv) fel a ganlyn (dangosir y testun ychwanegol wedi'i danlinellu):<br>**iv.** Maent yn cynnwys cyfleusterau a gwasanaethau cymunol sy'n ddigonol i fodloni gofynion y nifer arfaethedig o breswylwyr ac yn cynnig mynediad cyfleus i ~~gegin gymunedol, man bwyta yn ogystal â mannau amwynder~~ ofodau cymunedol i sicrhau y gellir darparu amgylchedd cymdeithasol a chynhwysol; a |
| PPC16 | **Pwynt Gweithredu HS9.5**<br>*Dileu 'Gall gwasanaethau nodweddiadol gynnwys glanhau ystafelloedd, dillad gwely, campfa ar y safle a gwasanaeth porthor, nid yw'r un o'r rhain yn ddarpariaeth ddomestig nodweddiadol.' O baragraff 7.48. Dileu 'megis gwasanaeth glanhau, darparu dillad gwely a phorthor' o baragraff 7.49.* | Polisi H7: Cyd-fyw | Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio paragraffau 7.48 a 7.49 fel a ganlyn:<br>7.48 Bydd datblygiadau yn cael eu categoreiddio'n rhai cyd-fyw pan fyddant yn cynnwys o leiaf 10 uned a lle mae elfen o'r ddarpariaeth ddomestig nodweddiadol yn gymunol. ~~Gall gwasanaethau nodweddiadol gynnwys glanhau ystafelloedd, dillad gwely, campfa ar y safle a gwasanaeth porthor, nid yw'r un o'r rhain yn ddarpariaeth ddomestig nodweddiadol.~~Bydd unrhyw beth llai fel arfer yn cael ei ystyried yn Dŷ Amlfeddiannaeth.<br>7.49 Bydd coginio a mannau bwyta cymunol yn cael eu cynllunio'n gynhwysol ar gyfer nifer y preswylwyr sydd i'w gwasanaethu ar bob llawr a byddant yn darparu amrywiaeth o fannau helaeth i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, coginio cymunol a byw'n gyfforddus. Gall datblygiadau ddarparu mynediad i gyfleusterau a reolir ar y safle ~~fel gwasanaeth glanhau, darparu dillad gwely a gwasanaeth porthor.~~ Er mwyn annog ffordd o fyw gymunol, dylid ystyried mannau fel lolfeydd, campfeydd, sinemâu, ystafelloedd gemau, llyfrgelloedd a mannau gweithio/ astudio cymunol. Anogir cysylltu mannau amwynder mewnol ac allanol. |

## 8. Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 10: Llifogydd

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC17 | HS10.1<br>Diwygio Polisi W3 i gynnwys rhagdybiaeth yn erbyn gosod cwlfertau. | Polisi W1 Perygl Llifogydd W3 | ~~**I ddarparu canllawiau ac eglurder pellach ar y mater hwn, cynigir diwygio Polisi W3 a pharagraff 7.492 fel a ganlyn**~~<br>**W3: PERYGL LLIFOGYDD** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | HS10.4<br>Adolygu paragraffau i adlewyrchu'r TAN15 newydd a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2025. | | **Ni chaniateir datblygu:**<br><br>**I. O fewn gorlifdiroedd llanw neu afonol oni ellir dangos bod cyfiawnhad dros y safle yn unol â chanllawiau cenedlaethol a bod asesiad technegol manwl priodol wedi'i gynnal i sicrhau bod y datblygiad wedi'i gynllunio i leddfu bygythiad a chanlyniadau llifogydd dros ei oes;**<br><br>**II. Lle byddai'n cynyddu'r risg o lifogydd yn deillio o lifogydd afonol a/neu lanwol neu o ddŵr ffo ychwanegol o'r datblygiad mewn unrhyw leoliad;**<br><br>**III. Lle byddai'n rhwystro cynlluniau cynnal a chadw neu gynlluniau gwella amddiffynfeydd llifogydd a chyrsiau dŵr yn y dyfodol;**<br><br>**IV. Lle byddai'n achosi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd amddiffynfeydd llanw neu afonol;**<br><br>**Mae'n annhebygol y bydd cynigion sy'n cynnwys ystafelloedd gwely ar loriau gwaelod neu is mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd yn dderbyniol, oni bai y gellir dangos mesurau lliniaru boddhaol yn unol â NCT15.**<br><br>**Caniateir cwlfertu cwrs dŵr dim ond os nad oes dewis arall rhesymol ymarferol neu os byddai effeithiau niweidiol cwlfertau mor fach fel na fyddent yn cyfiawnhau dewis arall costus.**<br><br>**Lle bo'n briodol, dylai'r datblygwr ddangos ei fod wedi ystyried yr angen i ymgorffori mesurau lliniaru risg llifogydd sy'n cydymdeimlo'n amgylcheddol fel Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau/SUDS), yn enwedig manteisio ar atebion sy'n seiliedig ar natur.**<br><br>7.486 Diben y Polisi hwn yw osgoi caniatáu datblygu mewn lleoliadau lle y byddent mewn perygl o lifogydd yn deillio o afonydd, o'r cwrs dŵr arferol, o'r arfordir, o ddŵr wyneb neu lle y byddai'n cynyddu'r perygl o lifogydd, neu ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiadau eraill.<br><br>7.487 Bydd y Polisi yn helpu i gyflawni amcanion y CDLl sy'n ymwneud â pherygl llifogydd ac mae'n adlewyrchu'r cyngor a nodir yn PCC a Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad, ~~a Pherygl Llifogydd~~, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (~~Gorffennaf 2004~~ Mawrth 2025)." <br><br>7.488 Mae NCT15 yn datgan bod y mapiau cynghori ar ddatblygu yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael a ystyrir yn ddigonol i benderfynu pryd y mae angen ystyried cwestiynau perygl llifogydd wrth gynllunio datblygiadau yn y dyfodol. Mae'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos ardaloedd o risg llifogydd ~~uchel~~ ac maent wedi'u seilio ar amlinellau llifogydd llanw ac afonol eithafol Cyfoeth Naturiol Cymru. Dangosir yr ardaloedd hyn ar y Map Cyfyngiadau yn seiliedig ar y wybodaeth yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio diweddaraf.<br><br>7.489 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastatir Gwynllŵg ar geisiadau cynllunio sydd ag unrhyw oblygiadau llifogydd. Mae'n rhaid bod rhesymau da drosto os nad yw'n bwriadu dilyn cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn ffurfio ystyriaeth berthnasol. |

7.490 Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLlD/*FWMA*) a gyflwynwyd yn 2010, yn gosod dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i baratoi Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLlLl/*LFRMS*) sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn ceisio'n rhagweithiol i leihau perygl llifogydd a pharatoi ein cymunedau.

7.491 Mae Cyngor Caerdydd bellach yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA/*LLFA*) fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 newydd. Nod DRhLlD yw sicrhau rheolaeth well a mwy cynhwysfawr dros berygl llifogydd i bobl, cartrefi a busnesau. Mae'r rôl hon yn cynnwys sicrhau bod perygl llifogydd o bob ffynhonnell yn cael ei reoli'n briodol a'i nod yw hyrwyddo dull integredig o gynllunio a rheoli pob math o berygl llifogydd.

~~7.492 Yn gyffredinol, mae Cyngor Caerdydd yn gwrthwynebu sianelu cyrsiau dŵr oherwydd yr effeithiau ecolegol niweidiol, perygl llifogydd ac effeithiau eraill sy'n debygol o godi. Gall sianelu waethygu'r perygl o lifogydd a chynyddu'r gofynion cynnal a chadw ar gwrs dŵr. Mae hefyd yn dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt, yn niweidio amwynder naturiol ac yn torri ar draws parhad cynefin llinol cyrsiau dŵr. Cydnabyddir bod amryw o resymau pam fod tirfeddianwyr, datblygwyr ac awdurdodau lleol yn credu mewn rhai achosion y dylid sianelu cyrsiau dŵr agored. Fodd bynnag, mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod unrhyw fuddion fel arfer wedi mwy na'u gwrthbwyso gan y problemau posibl wrth reoli'r system, colli cynefinoedd ac anhawster canfod llygredd.~~
Mae Cyngor Caerdydd o'r farn ei bod yn fuddiol i gyrsiau dŵr aros mewn cyflwr agored at ddibenion rheoli perygl llifogydd ac amgylcheddol. Mae Cyngor Caerdydd yn annog ac yn hyrwyddo cael gwared ar gwlfertau er mwyn adfer amgylchedd cwrs dŵr mwy naturiol, fodd bynnag, mae'n deall bod yna achlysuron pan fo angen creu cwlfertau. Felly, dim ond os nad oes dewis arall rhesymol ymarferol neu os byddai effeithiau niweidiol cwlfertau mor fach na fyddent yn cyfiawnhau dewis arall costus, y bydd Cyngor Caerdydd yn cymeradwyo cais i gwlfertu cwrs dŵr. Mewn achosion lle caniateir cwlfertu o dan Adran 23 Deddf Draenio Tir 1991, rhaid darparu lliniaru digonol ar gyfer unrhyw ddifrod a achosir. Lle bynnag y bo'n ymarferol bydd Cyngor Caerdydd yn ceisio cael cyrsiau dŵr wedi'u hadfer yn sianeli agored. Mae canllawiau pellach ar hyn ar gael yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Caerdydd (SRhPLlLl) a'r Polisi Cwlfertio. '
7.493 Caniateir datblygiadau newydd dim ond pan fo'r Cyngor yn fodlon na fyddant yn arwain at effeithiau andwyol ar ansawdd a/neu faint y dŵr wyneb neu'r adnoddau dŵr daear. Lle nad oes gwybodaeth fanwl ar gael o ran perygl llifogydd, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLl/FCA) i werthuso maint y risg a sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad annerbyniol yn digwydd o fewn yr ardal perygl llifogydd a nodwyd.

7.494 Mae rheoli llifogydd yn rhan bwysig o gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd. Lle bo angen a lle bo'n briodol, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gynnwys mesurau lliniaru sy'n cydymdeimlo'n amgylcheddol yn eu cynigion. Byddai hyn yn cynnwys mesurau fel Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDCau). Mae SDCau yn cael eu hystyried yn fodd o reoli dŵr wyneb sy'n cynnig ased amwynder gwerthfawr a chynefinoedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt.

7.495 Yn gyffredinol, bydd datblygiad yn cael ei wrthsefyll mewn gorlifdiroedd a nodwyd neu ardaloedd sydd mewn perygl annerbyniol o lifogydd neu lle gall trydydd partïon gael eu heffeithio'n andwyol gan fwy o berygl llifogydd. Ni fydd cynigion lle ceir ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod neu loriau is mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd yn dderbyniol. Dim ond os gellir dangos bod modd rheoli'r risgiau a'r canlyniadau i lefel dderbyniol yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, yn benodol y profion a nodir yn TAN 15, y caniateir datblygu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

## 9. Materion sy'n Codi o Sesiwn Gwrandawiad 11 Treftadaeth

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC18 | **Pwynt Gweithredu HS11.1**<br>*Polisi HE1 i'w ddiwygio;*<br><br>**Pwynt Gweithredu HS11.2**<br>*Newid Polisi EN9 i Bolisi HE1 ym mharagraff 7.257* | Polisi HE1 | Polisi HE1 a pharagraff 2.57 i'w diwygio:<br><br>**HE1: YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL**<br><br>**Diogelu Asedau Treftadaeth Caerdydd**<br><br>1. **Bydd yn ofynnol i ddatblygiad sy'n cael effaith ar asedau treftadaeth dynodedig neu adeiladau rhestredig lleol gadw neu wella eu harwyddocâd a/neu eu gosodiad, a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymeriad neu eu hymddangosiad.**<br><br>2. **Bydd gofyn i geisiadau sy'n effeithio ar arwyddocâd unrhyw ased treftadaeth dynodedig ddarparu digon o wybodaeth i ddangos sut y byddai cynigion yn cyfrannu at gadwraeth yr ased. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, yn dilyn canllawiau arfer gorau *Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru,* gan Cadw.**<br><br>3. **Bydd pwysau sylweddol yn cael ei roi i gadwraeth asedau treftadaeth dynodedig ac i adeiladau rhestredig lleol y ddinas. Rhaid cyfiawnhau unrhyw niwed i arwyddocâd ~~ased treftadaeth dynodedig neu heb ei ddynodi~~ adeilad rhestredig lleol neu ddynodedig. Bydd cynigion yn cael eu pwyso yn erbyn buddion cyhoeddus y cynnig: p'un a ddangoswyd bod pob ymdrech resymol wedi'u gwneud i gynnal y defnydd presennol, dod** o hyd i ddefnyddiau newydd, neu liniaru maint y niwed i arwyddocâd yr ased, ac a yw'r gwaith a gynigir yn isafswm sydd ei angen i sicrhau'r defnydd buddiol hirdymor o'r ased.<br><br>4. **Os gellir cyfiawnhau yn llawn unrhyw niwed, bydd y Cyngor, lle bo'n berthnasol, yn gofyn am gloddio archaeolegol priodol a/neu gofnodi adeiladau hanesyddol, i gynnwys dadansoddiad a chyhoeddi'r canlyniadau.**<br><br>5. **Yn ogystal, bydd y canlynol yn berthnasol i fathau penodol o asedau fel y rhestrir isod:**<br><br>i. **Archaeoleg a Henebion Cofrestredig**<br><br>**Bydd y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o ystyried datblygu yn y dyfodol, gan gynnwys mesurau cadwraeth a gwella posibl. Dylid cadw henebion cofrestredig a safleoedd archaeolegol eraill o arwyddocâd cyfatebol sydd heb eu dynodi yn eu lleoliad.**<br>**O fewn Ardaloedd Archeolegol Sensitif, efallai y bydd angen cynnal asesiad desg neu werthusiad maes, cyn cyflwyno cais cynllunio.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ii. **Adeiladau Rhestredig**<br><br>**Bydd datblygiad yn cynnal neu'n gwella arwyddocâd adeiladau rhestredig. Bydd gwaith atgyweirio ac ailddefnyddio adeiladau rhestredig yn cael eu hannog. Ni ddisgwylir i addasiadau, estyniadau, newidiadau defnydd neu ddatblygiadau yn eu cyffiniau gael unrhyw effaith andwyol ar yr elfennau hynny sy'n cyfrannu at eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gan gynnwys eu gosodiadau.**<br><br>iii. **Ardaloedd Cadwraeth**<br><br>**Caniateir datblygiad o fewn neu'n agos at ardal gadwraeth dim ond os bydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad <u>neu</u> ymddangosiad yr ardal gadwraeth, neu ei osodiad. Rhaid i bob datblygiad mewn lleoliadau o'r fath hefyd fod o safon ddylunio uchel, rhaid iddo ymateb i nodweddion arbennig yr ardal, a rhaid iddo roi sylw penodol i:**<br><br>a. **Gadw neu adnewyddu nodweddion pwysig yn union fel yr amlinellir mewn Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth, yn enwedig ffenestri a drysau pren, ffurf a manylion toeau, a gerddi blaen wedi'u tirlunio.**<br>b. **Golygfeydd pwysig, tremiau, strydluniau, amlinell toeau, coed, mannau agored, bylchau, a nodweddion eraill sy'n cyfrannu at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth.**<br>c. **Cadw ffiniau hanesyddol arwyddocaol neu elfennau eraill sy'n cyfrannu at fath datblygu sefydledig.**<br>d. **Y berthynas ag adeiladau a gofodau presennol, a phatrwm datblygu.**<br>e. **Graddfa, uchder a mas, dyluniad a manylion pensaernïol, defnydd o ddeunyddiau, triniaeth i ffiniau, a deunyddiau ardal gyhoeddus.**<br>f. **Cadw ac adfer ffryntiadau ac arwyddion siop traddodiadol.**<br><br>iv. **Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Rhestredig**<br><br>**Disgwylir i ddatblygu barchu dyluniad, cymeriad, ymddangosiad a gosodiadau Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, a diogelu'r nodweddion hynny sy'n cyfrannu at eu cyfanrwydd a'u cydlyniad.**<br><br>v. **Adeiladau Rhestredig Lleol**<br><br>**Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig yn lleol, neu ei osodiad, dim ond lle gellir dangos ei fod yn cadw neu'n gwella ei ansawdd pensaernïol, ei arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol, ei gymeriad a'i gyfanrwydd.**<br><br>**Rhoddir cyfarwyddiadau Erthygl 4 i dynnu hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud â dymchwel. Bydd rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau rhestredig yn lleol, a bydd ceisiadau sy'n cynnig eu dymchwel yn cael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf bras â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler *Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*).** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | vi. **Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi**<br><br>**Bydd disgwyl i gynigion sy'n effeithio ar asedau treftadaeth heb ddynodiad penodol, megis archaeoleg heb ei drefnu, strwythurau, parciau a gerddi lleol heb eu rhestru, gadw eu cyfraniad i'r cymeriad lleol.**<br><br>7.240 Nod y Polisi hwn yw nodi'r meini prawf yr asesir cynigion sy'n effeithio ar asedau treftadaeth Caerdydd yn eu herbyn. Diffinnir yr asedau Treftadaeth a nodir yn y Polisi hwn ar y Map Cyfyngiadau ac eithrio Adeiladau Rhestredig Cadw ac Adeiladau Teilwng Rhestredig yn Lleol y gellir eu gweld trwy https://www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth.<br><br>**Cofebion Rhestredig**<br><br>7.241 Mae gwaith a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar heneb gofrestredig yn gofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru (Cadw). Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ganiatâd cynllunio sydd ei angen ar gyfer datblygu. Mae PCC Pennod 6 a Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn nodi'n glir ddatganiadau polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar gyfer gweddillion archeolegol a dylid cyfeirio atynt yn unol â hynny.<br><br>**Adeiladau Rhestredig**<br><br>7.242 Unwaith y bydd adeilad wedi'i restru, bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig (CARh) ar unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad. Mae hyn yn berthnasol i du mewn neu du allan yr adeilad, neu i strwythurau o fewn ei gwrtil. Gall hyn hefyd gynnwys gwaith na fyddai angen caniatâd cynllunio o dan ddarpariaethau'r Deddfau Cynllunio.<br><br>Mae rheoli adeiladau rhestredig yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'r cyngor a nodir yn NCT24. Nid oes gofyniad statudol i roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu wrth ystyried cais am ganiatâd adeilad rhestredig. Argymhellir yn gryf bod perchnogion neu ddatblygwyr yn gofyn am gyngor cynnar gan y Cyngor cyn gwneud unrhyw waith - neu wneud unrhyw gais - am ganiatâd adeilad rhestredig. Bydd angen eglurhad a chyfiawnhad ar unrhyw waith CARh o ran pam fod y gwaith hwnnw yn ddymunol neu'n angenrheidiol, ar ffurf Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth. Pan fydd gwaith yn cynnwys newidiadau neu addasiadau sylweddol, dylid dylunio a phennu cynigion mewn ymateb i asesiadau a baratowyd gan gynghorydd treftadaeth sydd â phrofiad priodol, gan fod yn rhaid deall ac esbonio'r effaith ar arwyddocâd yr ased yn llawn.<br><br>7.244 Mae Polisi HE1 yn arbennig o berthnasol yn achos datblygiad sy'n effeithio ar osodiad adeilad rhestredig neu wrth ystyried cais cynllunio cysylltiedig ar gyfer newid defnydd.<br><br>7.245 Nid oes angen caniatâd adeilad rhestredig os cynigir datblygu y tu hwnt i gwrtil yr adeilad rhestredig a'i fod ond yn effeithio ar ei osodiad. Fodd bynnag, gellir gwneud difrod sylweddol i ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yr adeilad rhestredig os yw datblygiad o'r fath yn ansensitif o ran dyluniad, graddfa neu osodiad. Mae gosodiad adeilad rhestredig yn aml yn nodwedd hanfodol o'i gymeriad; yn diffinio'r modd y caiff ei brofi o fewn ei gyd-destun. Er mai golygfeydd o a thuag at ased hanesyddol yw'r ffactorau mwyaf amlwg yn aml, gall effeithiau gynnwys elfennau llai diriaethol megis swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol. Efallai y bydd eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gosodiad wedi'i gyfyngu i'r amgylchoedd cyfagos, ond gall ymestyn am bellter sylweddol. Gallai datblygiad arfaethedig effeithio ar erddi neu barcdir tŷ mawr, nodweddion gwledig ffermdy neu osodiad stryd adeilad trefol sy'n ffurfio elfen weledol bwysig o'r stryd honno. Mae Polisi HE1 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu roi ystyriaeth lawn i osodiad unrhyw adeilad rhestredig yn y cyffiniau a bod datblygwyr yn dangos na fydd y gosodiad yn cael ei niweidio.<br><br>7.246 Pan wneir ceisiadau cynllunio ar gyfer newidiadau defnydd adeilad rhestredig, bydd y Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut y lluniwyd eu cynigion o fewn cyd-destun nod PCC i adnabod y defnydd hyfyw gorau sy'n gydnaws â chymeriad a gosodiad yr adeilad rhestredig.<br><br>**Ardaloedd Cadwraeth**<br><br>7.247 Ceir cyfres o Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth (AAC – i'w cael yn www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth) i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer rheoli cynigion datblygu, ac ar gyfer datblygu mentrau i warchod a gwella pob ardal gadwraeth, yn unol â chyngor yn PCC a NCT24. Wedi'i fabwysiadu yn dilyn ymgynghori lleol helaeth, mae'r AACau yn disgrifio cymeriad arbennig a diddordeb hanesyddol pob ardal, ac yn rhoi gwybodaeth am y rheolaethau sydd ar waith.<br><br>7.248 Mae angen ystyried canfyddiadau'r AACau yn llawn wrth ddatblygu cynigion ac ystyried effeithiau. Pan fo angen Datganiad Dylunio a Mynediad, dylai hwn egluro'n glir sut mae'r datblygiad yn cadw neu'n gwella'r ardal gadwraeth. Argymhellir bod ceisiadau disgresiwn am gyngor cyn gwneud cais yn cael eu gwneud o ran dymchwel neu ddatblygu o fewn ardal gadwraeth.<br><br>7.249 Mae rheolaethau penodol sy'n ymwneud ag anhedd-dai yn bodoli ym mhob ardal gadwraeth yng Nghymru, gyda chyfarwyddiadau Erthygl 4 ychwanegol sy'n benodol i'r ardal yn cyfyngu ymhellach ar lawer o fân newidiadau a fyddai fel arfer yn cynrychioli datblygu a ganiateir. Mae'r rhain i'w gweld yn www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth. Mae rheolaethau o'r fath yn cyfyngu gwaith i lawer o nodweddion o ddiddordeb, gan gynnwys simneiau, toeau, tramwyfeydd, waliau terfyn a gallant gynnwys paentio.<br><br>7.250 Mae ffenestri a drysau yn aml yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymeriad ardal gadwraeth. Dylid cadw ffenestri gwreiddiol (neu gopïau agos ohonynt) a'u trwsio lle bo hynny'n bosibl. I ddiwallu'r gofyniad statudol i gadw neu wella, dylai ffenestri newydd adlewyrchu'n gywir ddeunyddiau, arddull, meintiau a dulliau agor y rheiny a osodwyd yn wreiddiol yn yr eiddo. Fel arfer ni chefnogir disodli ffenestri pren, llithr, dalennog neu ffenestri adeiniog cynnar gwreiddiol / traddodiadol am fersiynau uPVC neu alwminiwm. Dylid cadw drysau a fframiau pren gwreiddiol. Yn gyffredinol, ni chefnogir amnewid drysau am rai GRP, UPVC neu ddeunydd cyfansawdd. Dylid cadw manylion cynteddau a phaneli drysau gwydr lliw wedi'u sgythru, gweadog, 'patrwm rholio'.<br><br>**Ardaloedd Archeolegol Sensitif**<br><br>7.251 Mae pedair Ardal Archaeolegol Sensitif wedi eu hadnabod yng Nghaerdydd. Pwrpas y dynodiad anstatudol hwn yw cynorthwyo'r rhai sy'n cynllunio datblygiad mewn ardaloedd lle mae adnodd archeolegol hysbys, neu lle mae'n debygol y byddai gweddillion yn sensitif i bwysau datblygu. Mae'r CCA Archaeoleg ac Ardaloedd Archaeolegol Sensitif yn rhoi arweiniad a gwybodaeth bellach.<br><br>**Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Rhestredig** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.252 Rhaid ystyried parciau a gerddi cofrestredig yn llawn pan wneir cynigion datblygu sydd naill ai'n effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n effeithio ar eu gosodiad. Mae Cadw yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, neu eu gosodiadau.<br><br>7.253 Mae Gwastadeddau Gwynllŵg (yn rhannol yng Nghaerdydd) ar restr ymgynghorol Cadw - Cofrestr Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r dynodiad hwn yn ceisio cydnabod gwerth tirweddau hanesyddol a chodi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd. Mae'r dynodiad anstatudol hwn yn cynnig gwybodaeth er mwyn helpu i sicrhau bod cymeriad hanesyddol y dirwedd yn cael ei gynnal, a lle mae newid yn cael ei ystyried, bod hynny ar sail gwybodaeth.<br><br>**Adeiladau Rhestredig Lleol o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol ac Asedau Treftadaeth heb eu dynodi**<br><br>7.254 Mae llawer o adeiladau, strwythurau ac olion archeolegol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf arbennig iawn i haeddu eu rhestru neu eu cynnwys ar y rhestr genedlaethol statudol ond sydd serch hynny o werth i hunaniaeth y ddinas, am eu cyfraniad at gymeriad adeiledig lleol a/neu gysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol.<br><br>7.255 Mae treftadaeth a diwylliant yn agweddau cymdeithasol pwysig sy'n cyfrannu at greu lleoedd lle mae pobl eisiau byw a gweithio. Gall asedau hanesyddol greu canolbwyntiau ac maent yn ddefnyddiol wrth adnabod y nodweddion brodorol hynny mewn ardal sy'n creu lleoedd unigryw. Mae adfer ac ailddefnyddio hefyd yn egwyddorion sylfaenol datblygu cynaliadwy. Mae adeiladau sefydlog yn cynrychioli buddsoddiad o ran deunydd, ynni ymgorfforedig, a charbon ymgorfforedig, na ddylid ei anwybyddu. Mae’r gwaith o’u symud, eu gwaredu a gwaith dilynol ar safleoedd yn gofyn am dreulio ynni a charbon pellach, a chreu gwastraff.<br><br>7.256 Gellir nodi'r asedau hyn yn rhestr adeiladau o werth lleol y Cyngor, a ymgorfforir yn y cofnod archeolegol nad yw’n rhestr ffurfiol a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, neu efallai na fyddant wedi'u cofrestru na'u rhestru eto, ond gallent fod yn deilwng o gael eu cadw o hyd oherwydd eu cyfraniad at gymeriad neu hunaniaeth leol.<br><br>7.257 Bydd y Rhestr Leol o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol yn cael ei hadolygu yn ystod cyfnod y cynllun. Er nad yw cael eu cynnwys ar y rhestr leol yn rhoi unrhyw ddiogelwch awtomatig ychwanegol i'r adeiladau ar hyn o bryd, bwriad Polisi HE1 yw sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i gadw adeiladau o'r fath, fel rhan o warchod a gwella hunaniaeth arbennig Caerdydd. Er mwyn galluogi i newid gael ei ystyried a'i reoli'n briodol o fewn y broses rheoli datblygu, caiff cyfarwyddiadau Erthygl 4 eu gwneud i ddileu hawliau arferol datblygiadau a ganiateir sy'n ymwneud â dymchwel neu addasiadau, lle bo'n briodol. |

## 10.Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 12: Trafnidiaeth

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC19 | **Pwynt Gweithredu HS12.1**<br>*Y Cyngor i ystyried Polisi T1 er mwyn sicrhau ei fod yn nodi'n glir yr hyn sy'n ofynnol a'r sail y byddai cynlluniau'n cael eu hystyried yn ei erbyn. Dylid profi'r polisi diwygiedig i sicrhau ei fod yn eglur y byddai cynigion sy'n groes i'w amcanion yn cael eu gwrthod. Adolygiad i gynnwys: -*<br>*(a) Newid 'bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n ymgorffori:' am eiriad cryfach i egluro beth y mae'n rhaid / y dylai cynigion ei wneud, ac o ganlyniad, beth fyddai effaith methu â bodloni meini prawf unigol;*<br>*(b) Maen prawf vii – penderfynu a yw 'integreiddio' a 'bodoli' yn ddigon clir a phriodol.*<br>*(c) Meini prawf ii a v – gwirio gorgyffwrdd*<br>*(d) Ar draws polisi – cyfeiriad at strategaethau LlC a Gorchmynion a Phapurau Gwyn penodol y Cyngor,*<br>*(e) i ystyried a oes angen nodi'r rhain o ystyried y gallent newid dros oes y cynllun ac ystyried a fyddai geiriad amgen sy'n nodi pwysigrwydd polisi a strategaethau allweddol yn fwy priodol heb nodi eitemau unigol.*<br>O ystyried mai'r terfyn cyflymder yn y rhan fwyaf o strydoedd trefol yw 20mya, a yw'r gofyniad hwn yn angenrheidiol? Pa fesurau a ragwelir i leihau cyflymder cerbydau? A ddylid esbonio hyn yn y cyfiawnhad rhesymegol? | Polisi T1 | Diwygiadau a gynigir i Bolisi T4 (T1 gynt) fel a ganlyn<br><br>**T~~1~~4: BLAENORIAETHU CERDDED A BEICIO**<br>**Dim ond ar gyfer datblygiad sy'n lleihau'r angen i deithio ac sydd wedi ei osod ddylunio mewn ffordd sy'n blaenoriaethu mynediad drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus fel y nodir yn Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021** y rhoddir caniatâd cynllunio.<br>Mae angen datblygiadau i annog newid moddol a bod yn hawdd eu cyrraedd trwy gerdded a beicio yn rhinwedd eu lleoliad a'u dyluniad a darparu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy ar y safle ac oddi ar y safle. Mae cymorth ar gyfer cerdded a beicio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer: ~~**I alluogi pobl i gael mynediad i gyflogaeth, gwasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol drwy gerdded a beicio, bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n ymgorffori**~~:<br>**i. Dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at hynodrwydd cymunedau a lleoedd gan ddilyn canllawiau dylunio teithio llesol Cymru**<br>~~**ii. Rhwydweithiau athraidd a dealladwy o lwybrau cerdded a beicio diogel, cyfleus a deniadol sy'n sefydlu dull cydlynol o ganfod llwybrau;**~~<br>**iii. Cysylltiadau ac estyniadau i Rwydwaith Feicio Caerdydd a llwybrau cerdded hamdden a amlinellir yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth a'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol.**<br>**iv. Mesurau i leihau cyflymder cerbydau i 20mya ar strydoedd a mannau trefol lle bydd cerddwyr yn bresennol yn dilyn gorchymyn a strategaeth Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr;**<br>**v. ~~Cysylltiadau cerdded a beicio diogel, cyfleus, uniongyrchol a deniadol i ddatblygiadau, cymdogaethau, ysgolion, swyddi a gwasanaethau sy'n bod eisoes gan ffurfio rhan o gymdogaeth gynaliadwy~~ Strydoedd a mannau trefol sydd wedi'u cynllunio i leihau cyflymder cerbydau a rhoi blaenoriaeth i symudiadau cerddwyr a beicwyr;**<br>**vi. Cefnogi cyfleusterau gan gynnwys, arwyddion, parcio diogel i feics a, lle bo angen, cyfleusterau cawod a newid;**<br>~~**vii. Integreiddio â'r seilwaith teithio llesol presennol;**~~<br>**viii. Gwella diogelwch i gerddwyr a beicwyr trwy ddyluniad, a;**<br>**ix. Integreiddio mentrau creu lleoedd a sero net fel rhan o ddylunio ac adeiladu seilwaith teithio llesol.**<br><br>~~**Bydd y Cyngor hefyd yn cefnogi datblygiadau sy'n hyrwyddo'r newid i ddulliau mwy cynaliadwy a mesurau arloesol i oresgyn rhwystrau presennol i deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy.**~~<br><br>~~7.405 Fel y nodir ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd 2019, nod Caerdydd yw cyflwyno dolen feicio gyflawn o amgylch canol y ddinas a fydd yn cysylltu â phob un o'r chwe beicffordd, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer sawl ardal ar draws y ddinas. Bydd y Cyngor hefyd yn cyflwyno 'Menter Strydoedd Iechyd', fel bod strydoedd yn cael eu defnyddio eto fel mannau cyhoeddus iach i'r cyhoedd eu mwynhau, yn cynnwys uchafswm cyflymdra 20mya ledled y ddinas.~~<br><br>Mae cyflymderau arafach yn hanfodol i leihau risg a chefnogi symudiadau ar droed ac ar feic. Newidiodd y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd trefol yng Nghymru o 30mya i 20mya yn 2023. Felly, mae'n hanfodol bod ffyrdd, strydoedd a mannau cyhoeddus a ddarperir fel rhan o ddatblygiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | newydd yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n lleihau cyflymder cerbydau, yn annog cadw at y terfyn cyflymder ac yn darparu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo ei bod yn ddiogel cerdded a beicio.' |
| PPC20 | **Pwynt Gweithredu HS12.2**<br>*Y Cyngor i adolygu testun ategol Polisi SP19, gyda chyfeiriad penodol at baragraff 6.154 a'r cyfeiriad at gapasiti ychwanegol ar gyfer mynediad ar y ffordd. Wrth adolygu'r testun ategol, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ddiweddaru disgrifiad a phwrpas cynllun Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn unol â'r sefyllfa ddiweddaraf.* | Polisi SP19 Paragraff 6.154 | Diwygio paragraff 6.154 fel a ganlyn:<br><br>6.154 ~~Mae Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn ddyhead hirsefydlog gan y Cyngor ac mae wedi'i chynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (CTDDdC/Sewta). Byddai'r ffordd yn cwblhau ffordd ddosbarthu amgylchynol sy'n rhedeg rhwng Cyffordd 33 yr M4 yng ngogledd-orllewin Caerdydd a Chyfnewidfa Llanedern yn nwyrain y ddinas. Byddai'n darparu capasiti ychwanegol i fynediad ar y ffyrdd i Ardal Fenter Canol Caerdydd o'r dwyrain a datblygiadau ategol yn yr ardal honno. Nid oes manylion am y gwaith arfaethedig ar gael ar hyn o bryd felly mae Map Cyfyngiadau'r CDLlN yn nodi hyd Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn rhedeg o gylchfan Parc y Cefnfor i'r A48, Rhodfa'r Dwyrain.~~ Mae Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae o Dwneli Butetown i Gyfnewidfa Llanedern yn uchelgais hirsefydlog i'r Cyngor ac fe'i cynhwysir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP). Byddai'n gwella mynediad, diogelwch ar y ffyrdd, cyfleusterau teithio llesol a chyfleoedd ar gyfer datblygu yn yr ardal honno. Nid oes manylion am y gwaith arfaethedig ar gael ar hyn o bryd felly mae'r Map Cyfyngiadau yn nodi hyd a lled Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae. |

## 11.Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 13: Mwynau a Gwastraff

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC21 | **Pwynt Gweithredu HS13.1**<br>Y Cyngor i adolygu Polisïau MW2, MW5, ac MW8:-<br>*MW2*<br>- *Ai bwriad y polisi yw y byddai cynigion yn dderbyniol pe baent yn bodloni i, ii neu iii?*<br>- *A fyddai cynnig a fethodd yn erbyn e.e. ii a iii yn dderbyniol pe bai'n bodloni i?*<br>- *A yw iv i fod i fod yn faen prawf neu a yw'n baragraff o destun polisi a fyddai'n berthnasol ym mhob achos?*<br>- *Beth yw'r dull prawf dilyniannol y cyfeirir ato ym mharagraff 7.539? A yw'r meini prawf yn ddilyniannol? A yw'r prawf dilyniannol yn dyfnhau dros estyniad ochrol?*<br>- *Ar ôl ystyried y cwestiynau hyn, gwnewch ddiwygiadau priodol i MW2 yn ôl yr angen.* | Polisïau M2, M5 ac M8 ac SP11 | **MW2: TREFN A FFEFRIR O RYDDHAU ADNODDAU MWYNAU**<br><br>**Wrth ystyried ceisiadau am ryddhau adnoddau mwynau, y drefn rhyddhau a ffefrir fydd:**<br>**i. Dyfnhau gweithfeydd mwynau ar safleoedd presennol;**<br>**ii. Estyniad ochrol i weithfeydd mwynau ar safleoedd presennol;**<br>**iii. Rhyddhau adnoddau mewn safleoedd newydd.**<br><br>**Caniateir ceisiadau i ddyfnhau neu ymestyn gweithfeydd mwynau lle gellir dangos y byddai un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:**<br>**a. Mae rhyddhau cronfeydd wrth gefn newydd yn galluogi Caerdydd i gyflawni ei hymrwymiadau dosrannu is-ranbarthol;**<br>**b. Byddai manteision amgylcheddol a all gyfiawnhau ychwanegu cronfeydd wrth gefn newydd, neu gyfnewid cronfeydd wrth gefn presennol;**<br>**c. Byddai manteision gweithredol a fyddai'n arwain at ecsbloetio'r adnodd yn fwy effeithlon.**<br><br>Diben y polisi hwn yw nodi'r ymagwedd a fyddai'n cael ei ddefnyddio i arwain rhyddhau adnoddau mwyn yn y dyfodol, pe bai hyn yn angenrheidiol.<br><br>Mae'r polisi hwn yn ymhelaethu ar Bolisi SP11 ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o fwynau. Mae'r Polisi yn cyd-fynd â'r canllawiau a geir yn PCC sy'n cydnabod bod estyniadau i weithfeydd mwyn presennol yn aml yn fwy derbyniol yn gyffredinol na safleoedd maes glas newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *MW5*<br>- *Dylid adolygu'r geiriad "Wrth lunio cynigion adfer, caiff gweithredwyr mwynau eu hannog i:" a'i gryfhau gyda geiriad cryfach i egluro beth y mae'n rhaid/y dylai cynigion ei wneud, ac o ganlyniad, beth fyddai effaith methu â bodloni meini prawf unigol.*<br>- *Gellir cryfhau'r geiriad "cynhwysir cynigion cadarn" i roi gofyniad cliriach.*<br>- *Y Cyngor i ystyried mathau, graddau a chynnydd gwahanol y gwaith adfer ar safleoedd gwahanol, ac a oes angen i bolisi neu destun ategol gyfeirio at y ffaith y bydd angen gwahanol fathau o adferiad graddol ar wahanol safleoedd, ac os felly, awgrymu gwelliannau addas i'r polisi/testun.*<br>- *Ystyriwch a yw maen prawf iv i fod i fod yn faen prawf neu'n baragraff o destun polisi.*<br>*MW8*<br>- *Y Cyngor i ystyried a oes angen 'neu' ar ddiwedd maen prawf i, ac o ganlyniad, yr 'a' ar ddiwedd maen prawf ii.*<br>- *Gellir cryfhau'r ymadrodd "bydd yn gyffredinol yn cael ei annog" yn y paragraff olaf i roi cyfeiriad cliriach.* | | Mae'n well parhau i chwarela mewn safleoedd sy'n bod eisoes dros y tarfu amgylcheddol ac ariannol a fyddai'n deillio o symud cynhyrchu i safleoedd newydd. Yn ogystal, ffefrir dyfnhau safleoedd dros ymestyn yn ochrol (ag eithrio'r ehangu ochrol i Chwarel Ton mawr y cyfeirir ato ym Mholisi MW1), gan ei fod yn lleihau'r arwynebedd tir i'w neilltuo i weithio mwynau ac yn sicrhau'r defnydd gorau o'r cronfeydd wrth gefn presennol. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr opsiwn gorau, bydd angen ystyried goblygiadau amgylcheddol ac adfer posibl.<br><br>Bydd hirhoedledd unrhyw gronfeydd wrth gefn a ryddheir yn cael ei gyfyngu i alluogi dulliau gweithio mwynau a thechnoleg newydd i gael eu defnyddio a'r rheoliadau amgylcheddol presennol i gael eu gosod, heb gyfaddawdu ar allu gweithredwyr i amorteiddio eu buddsoddiad mewn offer trwm. Yn ogystal, ni fydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu rhyddhau cyn pryd er mwyn osgoi sterileiddio tir, ac i sicrhau bod gweithredwyr yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o safleoedd presennol cyn symud i ardaloedd newydd. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau y gellir adfer safleoedd hŷn yn gynharach.<br><br>Wrth bennu'r opsiwn gorau, bydd angen ystyried yr effaith bosibl ar yr amgylchedd, ar y dreftadaeth naturiol ac adeiledig.<br><br><br>**Polisi MW5**<br><br>Diwygiwyd y polisi i ddarllen fel a ganlyn:<br>**Bydd cynigion ar gyfer gweithio mwynau, offer trwm ac adeiladau sy'n gysylltiedig â mwynau neu adolygu caniatâd mwynau presennol yn cael eu caniatáu dim ond os byddant yn mynd law yn llaw â chynlluniau ar gyfer adfer y safle, gan gynnwys trefniadau ôl-ddefnyddio ac ôl-ofal priodol. Dylai ceisiadau gynnwys cynigion ar gyfer adfer y safle i gyflwr sy'n addas ar gyfer ôl-ddefnydd priodol, wedi'i gefnogi gan gynigion ôl-ofal digonol.**<br><br>**Dylai cynlluniau i adfer, ôl-ddefnyddio ac ôl-ofal:**<br>**i. Ddangos bod cynigion adfer yn briodol o ystyried math, maint a hyd oes y gweithfeydd mwynau;**<br>**ii. Ymgymryd a gwaith adfer blaengar;**<br>**iii. Gwneud defnydd buddiol o wastraff mwynau sy'n deillio o weithio mwynau;**<br>**iv. Dangos bod unrhyw ôl-ddefnydd arfaethedig yn briodol ar gyfer lleoliad y safle;**<br>**v. Gosod trefniadau ôl-ofal lle mae hyn yn angenrheidiol;**<br>**vi. Dangos sut mae cynigion yn cyfrannu at y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gofynion y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).**<br>Nod y polisi hwn yw sicrhau bod yr holl gynigion ar gyfer gwaith mwynau neu ddatblygiad cysylltiedig yn cyd-fynd â chynlluniau ar gyfer adfer ac ôl-ddefnydd addas o'r safle, neu ôl-ofal lle bo hynny'n briodol.<br><br>Mae'r polisi hwn yn ehangu ar Bolisi PS11. Mae'r polisi yn cyd-fynd âg amcanion a geir yn PCC a MTAN1:Agregau sy'n anelu at gyflawni safon uchel o adfer ac ôl-ofal, a darparu ar gyfer ôl-ddefnyddiau buddiol pan fydd gwaith mwynau wedi dod i ben. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso er mwyn osgoi diffeithio ac ansicrwydd drwy ei gwneud yn ofynnol i bob cais am waith mwynau fynd law yn llaw â chynigion effeithiol i sicrhau adfer ac ôl-ofal i'r safle unwaith y bydd y gwaith mwynau yn dod i ben. Mae'n berthnasol i gynigion ar gyfer gwaith mwynau, yn ogystal ag adolygiadau o ganiatâd presennol, cynigion ar gyfer offer trwm ac adeiladau atego a cheisiadau ar gyfer diwydiant eilaidd.<br><br>Dylai pob cais fod gyda chynlluniau adfer, ôl-ddefnyddio ac ôl-ofal i sicrhau bod y safle yn cael ei adael mewn cyflwr diogel a defnyddiol unwaith y bydd gwaith mwynau yn dod i ben. Dylai'r cynllun adfer arfaethedig ac unrhyw ôl-ddefnydd arfaethedig fod yn briodol i'r safle a'i leoliad. Bydd addasrwydd y cynllun arfaethedig yn dibynnu ar y math a'r dull o weithio mwynau a nodweddion unigol y safle.<br><br>Dylid adfer safleoedd i safon uchel sy'n addas ar gyfer ôl-ddefnydd y cytunwyd arno. Bydd addasrwydd ôl-ddefnydd arfaethedig yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys lleoliad y safle, defnyddiau tir cyfagos, y tirffurf terfynol, ac argaeledd ac ansawdd priddoedd a deunyddiau adfer eraill. Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar wahân i ddefnyddiau heblaw'r rhai a geir fel arfer mewn ardal wledig, fel amaethyddiaeth, cadwraeth natur, coedwigaeth neu hamdden anffurfiol. Ni chaniateir defnydd newydd o hen weithiau mwyn ar wahân i'r rhai sy'n briodol i ardal wledig heb gyfiawnhad arbennig.<br><br>Dylai cynigion hefyd nodi cynlluniau ar gyfer ôl-ofal, lle mae hyn yn angenrheidiol. Os yw'r cynllun adfer arfaethedig at ddefnydd amaethyddol, hamdden neu amwynder, dylai cynigion ôl-ofal priodol gyd-fynd â'r cais.<br><br>Dylai gweithredwyr mwynau gytuno ar nodau'r cynllun adfer ar y dechrau, cadw'r nodau hynny dan adolygiad rheolaidd trwy gydol oes y caniatâd a gweithredu'r cynllun adfer yn ddi-oed. Yn y rhan fwyaf o achosion, adfer graddol a fesul cam gydol oes y caniatâd fydd y strategaeth adfer fwyaf priodol.<br><br>**MW8: SAFLEOEDD CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF**<br><br>**Caniateir cynigion i ddatblygu cyfleusterau rheoli gwastraff lle:**<br>**i. Mae angen amlwg wedi ei asesu yn erbyn gofynion rhanbarthol; neu**<br>**ii. Byddai'r cyfleuster gwastraff arfaethedig yn symud rheoli ffrydiau gwastraff presennol i fyny'r hierarchaeth wastraff.**<br><br>**Yn gyffredinol, bydd cyfleusterau ar gyfer trin, triniaeth a throsglwyddo gwastraff wedi'u lleoli'n dderbyniol ar dir diwydiannol cyffredinol dosbarth defnydd B2 presennol, yn amodol ar ystyriaethau cyfyngiadau lleoliad a ffactorau amgylcheddol.**<br><br>**Ynghyd â chynigion dylid cael Asesiad Cynllunio Gwastraff sy'n cynnwys digon o wybodaeth i alluogi asesu'r cynnig.**<br><br>Pwrpas y polisi hwn yw darparu arweiniad ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio sydd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Mae'r polisi hwn yn ehangu ar Bolisi SP22. Mae'r polisi yn cyd-fynd â Tuag at |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ddyfodol Diwastraff (2010), Y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (2012), NCT 21: Gwastraff (2014) a Mwy Nag Ailgylchu (2021).<br><br>Rhagwelir y bydd ceisiadau am amrywiaeth o gyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun. Gyda'r dyheadau i symud i economi fwy cylchol a'r angen i symud rheolaeth gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff, mae'n debygol y bydd cynigion ar gyfer rheoli gwastraff yn cwmpasu ystod eang o gyfleusterau sydd ag effeithiau gwahanol. Gallai cynigion gynnwys cyfleusterau ar gyfer gwirio a glanhau gwastraff; paratoi ar gyfer ailddefnyddio; prosesu, adnewyddu ac adfer gwastraff; trosglwyddo gwastraff; ailgylchu; cynigion troi gwastraff yn ynni; a gwarediad. Mae'r polisi yn cefnogi darparu seilwaith gwastraff eang ac amrywiol sy'n diwallu anghenion a nodwyd, yn amodol ar addasrwydd y lleoliad arfaethedig.<br><br>Bydd yr angen am gynigion gwastraff yn cael eu hasesu yn erbyn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a'r gofynion capasiti a sefydlwyd trwy fonitro rhanbarthol, fel y nodir yn NCT 21.<br><br>Yn gyffredinol anogir cyfleusterau gwastraff tuag at safleoedd diwydiannol cyffredinol (defnydd dosbarth B2) sy'n bod eisoes, oni ellir dangos y gallent gael eu lleoli mewn modd derbyniol yn rhywle arall, neu oni bai bod asesiad o'r cynnig yn dangos y dylai safonau llymach o ran lleoliad fod yn gymwys.<br><br>Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddod gydag Asesiad Cynllunio Gwastraff sy'n cynnwys digon o wybodaeth i alluogi asesiad o'r cynnig a'i gyfraniad tuag at fodloni'r gofynion a nodir yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Ceir manylion pellach yn Atodiad B o NCT 21.<br><br>Lle bo'n briodol, dylai cynigion gael eu hategu gan Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae'n debygol y bydd amodau ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a/neu gytundebau cyfreithiol a geisir er mwyn sicrhau mesurau diogelu a rheolaethau amgylcheddol digonol.<br><br>Bydd canllawiau pellach ar gymhwyso'r Polisi yn cael eu nodi yn y CCA Lleoli Cyfleusterau Rheoli Gwastraff. |

## 12.Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 14: Dyluniad a Materion Eraill

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC22 | **Pwynt Gweithredu HS14.1**<br>*Yn unol ag ymateb y Cyngor yn ID04, dylai'r Cyngor adolygu Polisïau SP3 ac SP4. Adolygiad i ystyried:-*<br>- *Gwneud y ddau bolisi yn fyrrach;*<br>- *Sut gall y ddau ganolbwyntio mwy ar faterion a gofynion allweddol;* | Polisi SP3 ac SP4 | Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio polisïau SP3 a SP4 a'r testun ategol fel a ganlyn:<br>**Polisi SP3 Diwygiedig: SICRHAU YMAGWEDD UWCH-GYNLLUNIO**<br>**Bydd angen ymagwedd uwchgynllunio ar gyfer:**<br>a. **Safleoedd strategol a nodwyd yn y Cynllun;**<br>b. **Datblygiadau preswyl o 100 o gartrefi neu fwy; a**<br>c. **Cynigion datblygu sy'n cynnwys sawl cam neu fuddiannau perchnogaeth tir.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - *Sut y gellir cryfhau iaith polisi gyda geiriad cryfach i egluro beth y mae'n rhaid / y dylai cynigion ei wneud, ac o ganlyniad, beth fyddai effaith methu â bodloni meini prawf unigol;*<br>- *Sut y gall ymgysylltu â'r gymuned fod yn ofyniad cliriach a phenodol yn y dull uwch-gynllunio yn SP3, ac yn elfen allweddol o gyflawni dylunio da yn SP4; a*<br>- *Sut y gellir ail-leoli testun sy'n cael ei dynnu o bolisïau fel testun ategol lle bo angen ac yn briodol.*<br><br>Gan gynnwys gwelliannau a gynigir o dan:<br>Pwynt Gweithredu HS8.1<br>Pwynt Gweithredu HS9.1<br>Pwynt Gweithredu HS14.4 | | **Bydd uwchgynlluniau yn:**<br><br>**1. Cwmpasu cyfanrwydd yr ardal ddatblygu, waeth beth fo'u ffiniau perchnogaeth tir, a dangos sut y bydd datblygiad yn cael ei gyflawni mewn modd cynhwysfawr a chydgysylltiedig.**<br>**2. Ystyried y wybodaeth yn deillio o ymgysylltiad cynnar â chymunedau lleol, tirfeddianwyr, darparwyr seilwaith a rhanddeiliaid perthnasol eraill, a dangos sut mae ymgysylltu wedi dylanwadu ar yr uwchgynllun.**<br><br>**3. Sefydlu fframwaith integredig ar gyfer:**<br>• **defnyddiau a dwysedd tir;**<br>• **teithio gweithredol strategol, rhwydweithiau symud a chysylltedd;**<br>• **rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, gwydnwch ecosystemau a mannau cyhoeddus;**<br>• **cyfleusterau cymunedol a chanolfannau cymdogaeth;**<br>• **darparu seilwaith a chyfleustodau ategol yn amserol;**<br>• **tirwedd, ecoleg a dilyn yr ymagwedd fesul cam at fioamrywiaeth;**<br>• **treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg;**<br>• **creu ardaloedd o gymeriad unigryw; a**<br>• **graddoli a chyflawni datblygiadau;**<br><br>**4. Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a gwydn drwy:**<br>• **creu cymdogaethau defnydd cymysg, cerddadwy sydd wedi'u hintegreiddio'n dda â'r ardaloedd cyfagos ac yn hygyrch i bawb;**<br>• **blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;**<br>• **cefnogi cyflawni datblygiad carbon sero-net;**<br>• **ymateb i liniaru a gofynion addasu yn sgil newid yn yr hinsawdd;**<br>• **gwneud defnydd effeithlon o dir; ac**<br>• **darparu cartrefi gydol oes a thai anghenion arbenigol, (lle nodir angen).**<br><br>**5. Wedi eu cefnogi gan god dylunio a strategaeth rheoli seilwaith gwyrdd.**<br><br>**Bydd angen i geisiadau dilynol ddangos eu bod yn cyd-fynd â'r uwchgynllun cymeradwy a'r cod dylunio.**<br><br>6.55 Er mwyn sicrhau bod datblygiad ar raddfa fawr yn cael ei gynllunio a'i gyflawni mewn modd cydgysylltiedig, mae angen ymagwedd uwchgynllunio ar gyfer safleoedd strategol a datblygiadau mawr eraill sy'n bodloni'r trothwyon polisi. Dylai'r uwchgynllun ddarparu gweledigaeth a fframwaith clir i lywio datblygiad o'r cychwyn cyntaf i'w weithrediad, gan sicrhau bod camau unigol yn cyfrannu at le cydlynol ac o ansawdd uchel. Dylent ddangos ymagwedd cynhwysfawr tuag at greu lleoedd, symud, darpariaeth seilwaith a stiwardiaeth amgylcheddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 6.56 Dylai datblygu wneud defnydd effeithlon o dir a chefnogi patrymau twf cynaliadwy. Dylai datblygiad dwysedd uwch a gweithgarwch defnydd cymysg yn gyffredinol fod wedi eu canolbwyntio mewn lleoliadau wedi eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus ac o fewn canolfannau cymdogaeth, tra gall datblygiad dwysedd is fod yn briodol mewn mannau eraill lle mae'n ymateb yn gadarnhaol i gymeriad lleol ac amcanion creu lleoedd.<br><br>6.57 Dylai uwchgynlluniau ddangos sut mae datblygiad yn ymateb i amcanion newid hinsawdd y Cyngor, y Cynllun Ynni Ardal Leol a'r hierarchaeth ynni. Dylent nodi mesurau i leihau allyriadau carbon, cefnogi effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a mynd i'r afael â gwydnwch ac addasu i'r hinsawdd gydol oes y datblygiad.<br><br>6.58 Pan fo'r datblygiad arfaethedig yn bodloni'r isafswm trothwy a'r meini prawf ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan Atodlen 2.10 (b) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, rhaid i'r Uwchgynllun fynd i'r afael â'r mesurau a ragwelir i osgoi, atal, lleihau neu, os yn bosibl, gwrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a nodwyd ar yr amgylchedd.<br><br>6.59 Bydd y polisi hwn, ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwyscanllawiau cynllunio ategol a lle bo'n briodol Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Cynefin y Cyngor), yn gosod y fframwaith uwchgynllunio i dirfeddianwyr a datblygwyr baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau ar gyfer cynigion datblygu newydd mawr, a fydd yn llywio'r broses Rheoli Datblygu.<br><br>**Polisi SP4 Diwygiedig: Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da**<br><br>**Bydd angen pob datblygiad newydd i gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy a chreu lleoedd unigryw, iach, cysylltiedig, gwydn a chynhwysol.**<br><br>**Bydd cynigion datblygu yn:**<br><br>**i. Cyd-destun, Cymeriad a Hunaniaeth: Ymateb yn gadarnhaol i gymeriad a chyd-destun lleol, tirwedd, treflun, treftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol, gan greu ymdeimlad unigryw o le trwy osodiad ansawdd uchel, parhad ac amgáu, graddfa, uchder, màs, dwysedd, manylion a deunyddiau pensaernïol a dylunio tirwedd.**<br><br>**ii. Natur, Seilwaith Gwyrdd a'r Hinsawdd: Lleihau'r gofynion ynni wrth adeiladu a defnyddio a chymhwyso'r dull fesul cam o ran bioamrywiaeth, sicrhau gwydnwch ecosystemau, integreiddio, gwella seilwaith gwyrdd, cynefinoedd cysylltiedig, bioamrywiaeth, draenio cynaliadwy a dylunio sy'n ymateb i'r hinsawdd fel elfennau sylfaenol o ddatblygiad, gan gefnogi gwelliannau amgylcheddol a gwydnwch, byw carbon isel ac addasu i newid yn yr hinsawdd.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | iii. **Symudiad, Cysylltedd a'r Ardal Gyhoeddus: Creu llwybrau, sgwariau a lleoedd nodedig diogel, hygyrch, deniadol, darllenadwy ac athraidd sy'n blaenoriaethu cerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, gwella cysylltedd â chyfleusterau ehangach a darparu strydoedd a mannau cyhoeddus bywiog a deniadol. Bydd gofodau'n cael eu gwella trwy ddefnyddio deunyddiau ardal gyhoeddus o ansawdd uchel a dylent gynnwys gwelliannau celf gyhoeddus a chyfeiriadau at dreftadaeth a diwylliant Cymreig lle bo hynny'n briodol.**<br><br>iv. **Cymunedau Iach, Cynhwysol ac Addasadwy: Cefnogi cymunedau iach a chynaliadwy sy'n meithrin dylunio cynhwysol, gan sicrhau bod adeiladau, strydoedd a mannau yn hygyrch i bob defnyddiwr ac yn addasadwy i newidiadau i ffyrdd o fyw yn y dyfodol, gan gynnwys darparu cartrefi gydol oes / tai anghenion arbenigol (lle nodir angen).**<br><br>v. **Amwynder ac Ansawdd Lle: Diogelu amwynder meddianwyr presennol a rhai'r dyfodol a darparu adeiladau ac amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo cysylltiad a mwynhad o fannau preifat neu gymunol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les, diogelwch a rhyngweithio cymdeithasol.**<br><br>vi. **Defnydd effeithlon o dir, adnoddau a seilwaith: Cyflawni'r dwysedd ymarferol uchaf a'r defnydd mwyaf effeithlon o dir, seilwaith ac adnoddau ecolegol i ddarparu mannau amlswyddogaethol a chysylltiedig gan gynnwys ailddefnyddio adeiladau presennol lle bo hynny'n briodol, tra'n parchu cymeriad lleol, cyfyngiadau amgylcheddol a chapasiti seilwaith.**<br><br>6.60 Mae dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel yn hanfodol os yw Caerdydd am gyflawni'r amcanion a nodir yn y Weledigaeth a datblygu fel prifddinas o'r radd flaenaf. Yn fwy penodol, mae dylunio da yn chwarae nifer o rolau arwyddocaol: mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Caerdydd; amddiffyn hynodrwydd lleol; denu buddsoddiad a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, iechyd ac ansawdd bywyd.<br><br>6.61 Felly mae dylunio da yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig traddodiadol a dylai fod yn nod ar gyfer pob cynnig datblygu yng Nghaerdydd, waeth beth yw eu maint. Ynghyd â'r dull uwchgynllunio a nodir ym Mholisi Strategol PS3, uchod, a pholisïau manwl perthnasol, ystyrir bod y Cynllun yn darparu fframwaith polisi cadarn i sicrhau bod yr atebion dylunio gorau posibl yn cael eu sicrhau wrth i'r Cynllun gael ei weithredu.<br><br>6.62 Bydd ystod o CCAau sy'n ymwneud â dylunio ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad, yn cael eu diweddaru a'u hatgyfnerthu i roi arweiniad llawn ar ddehongli'r Polisi hwn yn fanwl. Bydd egwyddorion Dylunio Sensitif i Ryw yn cael eu hintegreiddio i'r ystod hon o CCAau sy'n gysylltiedig â dylunio. Gall briffiau datblygu, fframweithiau dylunio a chanllawiau cynllunio atodol, gan gynnwys Cynlluniau Creu Lleoedd y Cyngor a Chynlluniau Lleoedd helpu i lywio gofynion dylunio cynaliadwy penodol lle bo'n berthnasol i fater lleol neu safle penodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| PPC23 | **Pwynt Gweithredu HS14.2**<br>- *Yn unol ag ymateb y Cyngor yn ID04, dylai'r Cyngor adolygu Polisi D1. Adolygiad i ystyried:- - **Fframwaith gofodol** sy'n nodi'n gliriach ble y gellir cefnogi adeiladau tal (gallai fframwaith o'r fath, er enghraifft, nodi lle y bydd adeiladau tal yn cael eu hannog, lle y gallent o bosibl fod yn dderbyniol, neu lle y byddent yn annerbyniol).*<br>- *Diffiniad cliriach o **uchder** y tu allan i ganol y ddinas a'r Bae.*<br>- *Yr **iaith** a ddefnyddir a'i heffeithiolrwydd wrth wneud penderfyniadau (e.e. silwét cain yn erbyn yr awyr).*<br>*Sut y dylid asesu **capasiti seilwaith** wrth benderfynu ar gynigion adeiladau tal (gan gynnwys, er enghraifft, priffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd, addysg, carthffosiaeth).* | | O ran fframwaith gofodol ar gyfer y polisi Adeiladau Tal, mae'r Cyngor o'r farn bod y materion dan sylw yn rhy fanwl a helaeth i fynd i'r afael yn gynhwysfawr â nhw o fewn fframwaith strategol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Yn unol â hynny, cynigir y bydd fframwaith gofodol yn cael ei osod ger bron yn y Canllaw Cynllunio Atodol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi D1 a'r testun ategol fel a ganlyn:<br><br>**D1: ADEILADAU UCHEL**<br><br>~~**Caiff adeiladau uchel eu hannog mewn lleoliadau hygyrch iawn ac mewn ardaloedd lle gellir lletya graddfa a gweledедd datblygiad heb gyfaddawdu'n andwyol ar gymeriad hanesyddol neu gymdogaethol sefydledig.**~~<br><br>~~**Byddai adeilad uchel yng nghanol y ddinas neu Fae Caerdydd yn 8 llawr neu fwy neu dros 25m o uchder. Y tu allan i ganol y ddinas ceir nifer o adeiladau sy'n ddwbl yr uchder neu'n fwy na'r eiddo cyfagos neu'n sylweddol uwch o ran uchder gwirioneddol a nifer y lloriau.**~~<br><br>~~**Wrth ddatblygu adeiladau tal, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r datblygiad yn peryglu parhad ac ansawdd strydoedd a mannau cyhoeddus cyfagos a bod datblygiad preswyl yn creu amgylchedd y gellir byw ynddo ar gyfer preswylwyr y dyfodol a phreswylwyr ger llaw.**~~<br><br>~~**Bydd adeiladau uchel fel rheol yn cael eu cefnogi lle:**~~<br><br>• ~~**Nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar gymeriad a gosodiad adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth neu barciau a gerddi cofrestredig**~~<br>• ~~**Maent yn cynnwys cymymysgedd o ddefnyddiau**~~<br>• ~~**Maent yn cyflawni dyluniad o ansawdd pensaernïol a thirwedd deniadol, gwreiddiol a nodedig sy'n gymesur â'u gweledедd uchel yn y ddinas ac o unrhyw safle mewn strydlun.**~~<br>• ~~**Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at y treflun cyffredinol trwy ddarparu amlinell gain yn erbyn yr awyr ac mewn perthynas ag unrhyw grŵp o adeiladau penodol o fewn unrhyw fista.**~~<br>• ~~**Maent yn gwella bioamrywiaeth eu safle neu eu cyd-destun uniongyrchol, ac yn arbennig trwy roi cartref i goed a seilwaith gwyrdd**~~<br>• ~~**Gwnânt gysylltiad gweledol di-dor â phlân y ddaear, gan integreiddio â'r strydlun a'r ardal gyhoeddus gyfagos**~~<br>• ~~**Ystyrir anghenion pobl ar raddfa ddynol, gan ddarparu rhyngwynebau masnachol neu breswyl gweithredol ar y llawr gwaelod ar ffryntiadau allweddol a chreu mannau cyfagos sy'n caniatáu masnach, chwarae, chwaraeon neu ymlacio o fewn tirwedd ddeniadol sydd o fudd arbennig i breswylwyr.**~~<br>• ~~**Maent yn darparu unrhyw ddarpariaeth wastraff, parcio i feics neu geir a gwasanaethu adeiladau mewn lleoliadau o'r neilltu lle mae'n cael effaith gyfyngedig ar fywiogrwydd ac atyniad yr ardal gyhoeddus**~~<br>• ~~**Nad yw'n creu perthynas ormesol â datblygiadau cyfagos na pheryglu datblygiad rhesymol safleoedd cyfagos.**~~ |

- ~~Mae'n darparu gofod byw rhesymol ac amwynder preswyl ar gyfer y preswylwyr heddiw ac yn y dyfodol a effeithir gan y datblygiad hwn yn unol â pholisi (SP4) ac unrhyw safonau a chanllawiau CCA perthnasol sy'n ymwneud â phreifatrwydd, golau amgylchynol a darparu gofod amwynder cyffredin neu gymunol.~~
- ~~Maent yn dangos nad yw'r datblygiad yn effeithio'n andwyol ar ficrohinsawdd safle'r cais na'r strydoedd cyfagos na mannau cyhoeddus o ran golau'r haul a gwynt~~
- ~~Lle ystyrir gofynion diogelwch y cyhoedd fel rhan o'r cynllun cyffredinol, gan gynnwys darparu llwybrau gadael adeilad~~
- ~~Lle darperir "datganiad hyblygrwydd" i ddangos y gallai'r adeilad ddarparu ar gyfer defnydd amgen, yn amodol ar y cydsyniadau angenrheidiol.~~

~~7.149 Gall adeiladau uchel gyfrannu at helpu'r ddinas i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd yn ogystal â chyfathrebu uchelgais, egni ac arloesedd. Gallant gyfrannu at wneud defnydd effeithlon o dir i ddarparu swyddi, cartrefi a chymunedau cymysg. Mae gan adeiladau tal yn y lleoliadau cywir a'r dyluniad cywir y potensial i wella ymddangosiad a chymeriad ardaloedd a chyfrannu at adfywio.~~

~~7.150 Gall adeiladau tal gael eu cynnig ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys gofodau gweithio a chartrefi newydd. Ym mhob achos, dylai dyluniad adeilad tal greu amgylchedd o ansawdd uchel i'w ddefnyddwyr ac ar gyfer datblygiadau o'i gwmpas a'r ardal gyhoeddus.~~

~~7.151 Mae adeiladau tal hefyd yn arwain at faterion penodol sy'n ymwneud â'u taldra, eu clystyru a'u hamlygrwydd fel y nodir yn y polisi hwn. Mae'r holl egwyddorion dylunio ar gyfer datblygu dwysedd uchel a nodir ym mholisïau eraill y cynllun lleol yr un mor berthnasol i adeiladau tal, gan gynnwys ystyriaethau hawdd byw ynddynt ar gyfer datblygiadau preswyl.~~

~~7.152 Nid yw'r polisi hwn yn anelu at guddio adeiladau tal o'r golwg, ond sicrhau eu bod wedi'u lleoli a'u cynllunio i greu nodwedd gadarnhaol yn yr amgylchedd drefol wrth edrych arnynt o fannau cyfagos ac o bell.~~

~~7.153 Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi mewn CCA.~~

**Polisi Diwygiedig D1: ADEILADAU UCHEL**

**Bydd adeiladau uchel yn cael eu hannog mewn lleoliadau hygyrch iawn ac mewn ardaloedd lle gellir lletya graddfa a gwelededd datblygiad heb gyfaddawdu ar gymeriad hanesyddol neu gymdogaethol sefydledig.**

**Bydd adeilad uchel yng nghanol y ddinas neu Fae Caerdydd yn 8 llawr neu fwy neu dros 25m o daldra. Y tu allan i ganol y ddinas maent yn unrhyw adeilad sy'n ddwbl taldra neu fwy yr eiddo cyfagos (h.y. 4 llawr neu fwy mewn ardaloedd maestrefol deulawr yn bennaf).**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Wrth ddatblygu adeiladau tal, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r datblygiad yn peryglu parhad ac ansawdd strydoedd a mannau cyhoeddus cyfagos a bod datblygiad preswyl yn creu amgylchedd y gellir byw ynddo ar gyfer preswylwyr y dyfodol a phreswylwyr ger llaw.<br><br>Rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau tal ddangos eu bod:<br><br>i. Yn briodol i'w lleoliad, gan ymateb yn gadarnhaol i gymeriad, graddfa, swyddogaeth a hunaniaeth y safle a'r ardal gyfagos.<br><br>ii. Cyfrannu'n gadarnhaol at nenlinell a threflun Caerdydd, gan atgyfnerthu strwythur a hunaniaeth y ddinas ac osgoi effaith weledol annerbyniol (naill ai ar eu pennau eu hunain neu'n gronnus) ar y nenlinell neu'r dreflun o'u hamgylch.<br><br>iii. Diogelu a gwella asedau treftadaeth, golygfeydd a thirnodau pwysig, trwy beidio ag effeithio'n negyddol ar gymeriad a lleoliad adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth neu barciau a gerddi cofrestredig.<br><br>iv. Dangos ansawdd dylunio eithriadol ac arloesol gyda phensaernïaeth, deunyddiau a manylion o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy, addasadwy a gwydn.<br><br>v. Darparu ardal gyhoeddus ac amgylchedd o ansawdd uchel i gerddwyr, gan gynnwys ffryntiau gweithredol, a strydoedd / mannau diogel a hygyrch sy'n creu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymlacio, rhyngweithio cymdeithasol a gweithgarwch ar raddfa ddynol.<br><br>vi. Nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar ficro-hinsawdd safle'r cais na'r strydoedd cyfagos na mannau cyhoeddus o ran golau'r haul a gwynt<br><br>vii. Ymgorffori coed a seilwaith gwyrdd i wella bioamrywiaeth a gwyrddni trefol y safle neu'r cyffiniau ger llaw.<br><br>viii. Darparu unrhyw ddarpariaeth gwastraff, parcio i feics neu geir a gwasanaethu adeiladau mewn lleoliadau o'r neilltu lle maent yn cael effaith gyfyngedig ar fywiogrwydd ac atyniad yr ardal gyhoeddus<br><br>ix. Nad ydynt yn creu perthynas ormesol â datblygiadau cyfagos na pheryglu datblygiad rhesymol safleoedd cyfagos.<br><br>x. Maent yn darparu gofod byw rhesymol ac amwynder preswyl i breswylwyr heddiw ac yn y dyfodol a effeithir gan y datblygiad hwn yn unol â pholisi (SP4) ac unrhyw safonau a chanllawiau CCA perthnasol sy'n ymwneud â phreifatrwydd, golau amgylchynol ac yn darparu gofod amwynder preifat a chymunol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **xi. Darparu tystiolaeth eu bod yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer, neu'n cyfrannu tuag at, seilwaith hanfodol ac sy'n galluogi sy'n ofynnol yn sgil y datblygiad yn unol â Pholisïau SP5 (Sicrhau Seilwaith Newydd) ac SP6 (Sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio).**<br><br>**xii. Darparu datganiad addasadwyedd i ddangos y gallai'r adeilad ddarparu ar gyfer defnyddiau amgen, yn amodol ar y caniatâd angenrheidiol.**<br><br>7.149 Gall adeiladau uchel gefnogi twf cynaliadwy, adfywio a defnydd effeithlon o dir drwy ddarparu ar gyfer cartrefi, swyddi ac ystod o ddefnyddiau eraill sy'n cyfrannu at gymunedau cymysg a bywiog. Yn y lleoliadau cywir ac o'r dyluniad cywir, gallant wella ymddangosiad a chymeriad ardal a chyfrannu'n gadarnhaol at nenlinell, treflun a hunaniaeth Caerdydd.<br><br>7.150 Oherwydd eu taldra, eu graddfa a'u hamlygrwydd, mae adeiladau tal yn gofyn am ymagwedd cadarn wedi'i arwain gan ddylunio. Dylai datblygu ddarparu pensaernïaeth o ansawdd uchel, creu mannau cyhoeddus deniadol, diogel a hygyrch, cefnogi gwydnwch hinsawdd a darparu amgylchedd o ansawdd uchel i breswylwyr, cymunedau cyfagos a'r cyhoedd ehangach.<br>Dylai cynigion ystyried yn ofalus eu heffeithiau ar asedau treftadaeth, golygfeydd pwysig, y nenlinell, yr ardal gyhoeddus, y microhinsawdd ac amwynder preswyl.<br><br>7.151 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod pob adeilad wedi'i leoli'n briodol a'i gynllunio i wneud cyfraniad cadarnhaol i amgylchedd trefol Caerdydd, o strydoedd a mannau cyfagos i olygfeydd o bell.<br><br>7.152 Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi mewn CCA. |
| PPC24 | Y Cyngor i adolygu Polisïau OS1 ac OS2.<br>- Eglurwch a yw polisïau yn gofyn am amnewidiad tebyg am debyg neu well, ac os felly, nodwch hyn yn glir.<br>- Eglurwch a yw polisïau'n ei gwneud yn ofynnol darparu man agored digolledu o fewn neu wrth ymyl yr ardal y mae'n cael ei golli ohoni, ac os felly, nodwch hyn yn glir.<br>Mae'r Cyngor wedi dweud bod y *'Cynllun yn sicrhau ansawdd drwy fynnu bod mannau agored newydd yn bodloni'r meini prawf swyddogaethol, dylunio a defnyddioldeb a nodir ym mholisïau creu lleoedd, seilwaith gwyrdd ac iechyd a lles y Cynllun'* a bod y *'polisïau hyn gyda'i gilydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ddigolledu yn ddiogel, yn ddeniadol, yn* | | Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio polisi OS1 fel bod y polisi yn darllen fel a ganlyn:<br><br>**POLISI OS1: DIOGELU MANNAU AGORED**<br><br>~~**Ni chaiff datblygiad ei ganiatáu ar fannau agored oni bai:**~~<br><br>~~**I. Na fyddai'n achosi nac yn gwaethygu diffyg gofod agored yn unol â'r astudiaeth mannau agored diweddaraf;**~~<br>~~**II. Nad oes i'r man agored werth swyddogaethol neu amwynder sylweddol; a**~~<br>~~**III. Nad yw'r man agored o unrhyw ansawdd neu**~~<br>~~**IV. Mae'r datblygwyr yn gwneud darpariaethau gwneud iawn boddhaol; ac, ym mhob achos;**~~<br>~~**V. Nad yw'r datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol ar seilwaith gwyrdd/ecoleg a/neu ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth hanesyddol.**~~<br><br>**Ni chaiff datblygiad ei ganiatáu ar ardaloedd o fannau agored oni bai y gellir dangos:**<br>**i. Nid oes gan y man agored unrhyw werth swyddogaethol, amwynder, cadwraeth neu amgylcheddol sylweddol, ac ni fyddai ei golli yn achosi nac yn gwaethygu diffyg mannau agored o ystyried yr Asesiad Mannau Agored diweddaraf; neu** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *amlswyddogaethol, ac yn gallu darparu'r un manteision hamdden ac amgylcheddol â'r man sy'n cael ei golli, neu rai gwell.'* Nid yw'n glir pam mae'r Cygnor wedi dewis mabwysiadu dull cynllun cyfan mewn perthynas â mannau agored o ystyried bod llawer o bolisïau eraill yn hunangynhwysol a bod ganddynt nifer o feini prawf sy'n nodi gofynion. Os yw cyflawni gofynion mannau agored yn dibynnu ar gymhwyso nifer o bolisïau, mae angen gwneud hyn yn gliriach. Fel arall, dylid diwygio polisïau mannau agored i nodi'n gliriach yr hyn sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi. | | **ii. Gwneir darpariaeth gwneud iawn boddhaol. Rhaid i ddarpariaeth wneud iawn:**<br>**a) gyfateb i, neu ragori ar y gofod agored a gollwyd o ran ei allu i ddiwallu anghenion yr ardal, gan ystyried maint, ansawdd, nodweddion, lleoliad a hygyrchedd;**<br>**b) cael ei ddarparu ar y safle, neu os dangosir nad yw hynny'n ymarferol, yn union gyfagos iddo, neu fel arall o fewn y dalgylch hygyrchedd sy'n gwasanaethu'r boblogaeth yr effeithir arno gan y golled;**<br>**c) fod ar gael i'w defnyddio cyn i golli'r ddarpariaeth bresennol ddigwydd, gan osgoi unrhyw golli darpariaeth dros dro;**<br>**d) cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion y gymuned leol; a**<br>**e) yn cael ei sicrhau, ynghyd â threfniadau a chyllid ar gyfer ei reoli a'i chynnal yn y tymor hir, drwy rwymedigaeth gynllunio.**<br><br>7.436 Nod y Polisi hwn yw gwarchod mannau agored sydd â gwerth swyddogaethol, cadwraethol, amgylcheddol neu amwynder sylweddol. Mae'n berthnasol i bob ardal man agored yn y Sir. Bydd y Polisi yn helpu i ddiogelu'r rhwydwaith presennol o fannau agored yng Nghaerdydd ac yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Polisi PS21 a'r CDLl sy'n gysylltiedig â chynnal a gwella rhwydwaith o fannau a choridorau gwyrdd.<br><br>7.437 Mae'r Polisi yn unol â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, PCC a Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon Hamdden a Gofod Agored (2010) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob math o fannau agored gael eu gwarchod, yn enwedig lle mae iddynt bwysigrwydd strategol ledled y sir.<br><br>7.438 Bydd y gwahanol fathau o fannau agored yng Nghaerdydd yn cael eu rhestru a'u hesbonio'n fanwl yn y CCA Mannau Agored Caerdydd. At ddibenion y polisi hwn, mae gofod gwyrdd swyddogaethol yn cynnwys tir a all gynnwys defnyddiau hamdden ffurfiol a/neu anffurfiol, megis defnydd chwaraeon a chyfleoedd ar gyfer chwarae i blant.<br><br>7.439 Caiff cynigion datblygu ar ardaloedd o fannau agored swyddogaethol eu hasesu yn erbyn gofyniad mannau gwyrdd swyddogaethol o 2.43 hectar fesul 1,000. Eglurir hyn ymhellach o dan Bolisi OS2.<br><br>7.440 Wrth asesu gwerth swyddogaethol ac amwynder man agored, rhoddir ystyriaeth hefyd i p'un a yw'n gwasanaethu diben lleol yn unig neu a oes iddo bwysigrwydd mwy strategol ledled y sir. Bydd gwarchodaeth arbennig yn cael ei roi i fannau agored sydd â phwysigrwydd strategol ledled y sir p'un ai at ddibenion swyddogaethol, amwynder neu ddibenion bywyd gwyllt.<br><br>7.441 Bydd ansawdd ardal man agored yn cael ei asesu gan ystyried materion fel:<br><br>• Hygyrchedd;<br>• Bioamrywiaeth;<br>• Mynediad at natur;<br>• Cyfleusterau;<br>• Rheoli a Chynnal a Chadw;<br>• Cyfraniad i amwynder lleol;<br>• Cyfraniad at hamdden; a<br>• Gwerth strategol. |

7.442 Lle byddai cynnig datblygu a oedd yn cynnwys colli mannau agored yn achosi neu'n gwaethygu'r diffyg lleol neu ledled y sir o ran mannau agored swyddogaethol, gallai darpariaeth gwneud iawn am golli man agored neu ddarpariaeth amgen o fudd cymunedol cyfatebol fod yn dderbyniol. Bydd hyn yn cael ei esbonio ymhellach yn y CCA Mannau Agored.

7.443 Bydd priodoldeb gwneud iawn am golli man agored neu gyfleusterau amnewid yn cael ei asesu gan ystyried pwysigrwydd yr adnodd sydd i'w golli ac anghenion yr ardal. Rhoddir Arweiniad pellach mewn CCA. ~~Dylai'r ddarpariaeth wneud iawn:~~

- ~~Gyfrannu tuag at ddiwallu anghenion y gymuned leol;~~
- ~~Bod o leiaf o'r un gwerth â'r hyn sy'n cael ei golli;~~
- ~~Bod yn rhesymol gysylltiedig â'r safle gwreiddiol i wasanaethu'r boblogaeth a effeithiwyd gan y golled;~~
- ~~Cael eu darparu yn unol â'r CCA Mannau Agored; a~~
- ~~Bod wedi ei gytuno rhwng y Cyngor a'r datblygwr.~~

7.444 Mae gan goridorau a rhwydweithiau o fannau agored, fel y dyffrynnoedd afonydd, bwysigrwydd strategol o ran hamdden, amwynder a bywyd gwyllt. Mae coridorau'r afonydd Elái, Taf, Rhymni a'r Nant Fawr (a nodir ar y Map Cynigion) yn adnodd arbennig o bwysig o fewn y cyd-destun trefol a gwledig, gan gysylltu'r glannau a'r ardal drefol â chefn gwlad. Nodir amddiffyniad penodol o ddyffrynnoedd afonydd ym Mholisi CP4.

7.445 Mae gan lawer o ardaloedd o fannau agored werth cadwraeth natur. Mae rhai wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, tra bod eraill yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at fioamrywiaeth. Mae gan rai ardaloedd bwysigrwydd cadwraeth hanesyddol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys Gerddi a Pharciau Hanesyddol, tir o fewn Ardaloedd Cadwraeth a thir sy'n darparu'r lleoliad ar gyfer Henebion Hynafol neu olion archeolegol eraill.

7.446 Bydd y polisi i warchod mannau agored yn cael ei asesu bob blwyddyn yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae colli mannau agored yn Ddangosydd Craidd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cael ei fonitro'n flynyddol, gan ffurfio rhan o'r Asesiad Mannau Agored.

**POLISI OS2: DARPARU AR GYFER MANNAU AGORED SWYDDOGAETHOL, HAMDDEN AWYR AGORED, CHWARAE PLANT A CHWARAEON**

**Ceisir darpariaeth ar gyfer mannau agored swyddogaethol, hamdden awyr agored, chwaraeon a chyfleoedd chwarae i blant ar y cyd â phob datblygiadau preswyl newydd o bum uned neu fwy. Caniateir cynigion pan:**

**i. wneir darpariaeth ar leiafswm o 2.43 hectar o fannau agored swyddogaethol fesul 1,000 o'r boblogaeth amcanestynol;**

**ii. mewn datblygiadau o fwy nag 20 o unedau, gwneir y ddarpariaeth hon ar y safle, oni bai ei bod yn cael ei ddangos bod darpariaeth ar y safle yn anymarferol neu y gellir uwchraddio neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol o fewn y dalgylch hygyrchedd i ddiwallu'r angen a gaiff ei greu, ac yn yr achos hwnnw ceisir cyfraniad ariannol;**

**iii. mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli a'i chynllunio i fodloni'r trothwyon hygyrchedd;**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | iv. darperir mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol yn ychwanegol at y gofyniad ym maen prawf (i), ar raddfa sy'n gymesur â'r datblygiad a'i gyfraniad at bwysau hamdden ar safleoedd dynodedig; ac<br>VI. mae trefniadau a chyllid ar gyfer rheoli a chynnal a chadw pob darpariaeth yn y tymor hir yn cael eu sicrhau gan rwymedigaeth gynllunio.<br><br>Gall cyfansoddiad y ddarpariaeth o dan faen prawf (i) amrywio pan fo cymysgedd amgen yn cael ei gyfiawnhau gan angen lleol, nodweddion y safle, neu argaeledd a digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol o fewn y dalgylch hygyrchedd. Pan ddangosir na ellir bodloni'r safon yn maen prawf (i) yn llawn ar y safle, ceisir darpariaeth i'r graddau mwyaf sy'n ymarferol a bydd unrhyw ddiffyg sy'n weddill yn cael ei fodloni gan gyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth neu wella o fewn y dalgylch hygyrchedd. |

## 13.Materion yn Codi o Sesiwn Gwrandawiad 15: Monitro

| **Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun** | **Sesiwn Gwrandawiad / Pwynt Gweithredu** | **Cyfeirnod Cynllun** | **Newid Arfaethedig** |
|---|---|---|---|
| PPC25 | **Pwynt Gweithredu HS15.1**<br><br>i. *Y Cyngor i ddileu 'neu fwy' o bob dangosydd sy'n dweud 2 flynedd neu fwy yn olynol.*<br>ii. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd, gan wahanu darpariaeth tai fforddiadwy oddi wrth ddarpariaeth tai'r farchnad.*<br>iii. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro rhaniad deiliadaeth (rhent cymdeithasol a chanolradd).*<br>iv. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawni yn erbyn trothwyon tai fforddiadwy a thargedau canrannol ar gyfer safleoedd maes glas a thir llwyd.*<br>v. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawniad Parc Caerdydd (dyraniad EC2 blaenorol).*<br>vi. *Y Cyngor i ddiwygio'r sbardun i 1.8, cyfeirio at EC3 ac EC5 ac ystyried cynnwys dangosydd sy'n ymwneud â maint y safle.* | Fframwaith Monitro Atodiad 1 CDLlN | Gweler Atodiad 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | vii. *Y Cyngor i adolygu addasrwydd defnyddio lefelau cyfartalog safleoedd gwag y DU (2.3).*<br>viii. *Y Cyngor i ddiwygio 2.4 i gyfeir*io at Bolisi R6.<br>ix. *Y Cyngor i adolygu a oes angen cynnwys dangosydd ar gyfer Polisi PC1 ac, os felly, perthnasedd ARhAAau fel mesur o berfformiad Polisi PC1 (2.7).*<br>x. *2.8, i'w ddileu.*<br>xi. *Y Cyngor i ystyried sbardun i fonitro capasiti gwastraff (2.9).*<br>xii. *Y Cyngor i adolygu 2.15 i gysylltu â'r Cynllun Seilwaith.*<br>xiii. *Y Cyngor i ystyried a oes angen monitro 3.1 i 3.4.*<br>xiv. *Y Cyngor i adolygu'r targed a'r sbardun ar gyfer 3.6 i sicrhau eu bod yn cyfateb.*<br>xv. *Y Cyngor i egluro dros ba ardal y mae'r 2.43ha fesul 1000 o'r boblogaeth yn cael ei fesur a chynnwys hynny yn y targed/sbardun.*<br>xvi. Y Cyngor i adolygu a yw'n angenrheidiol monitro 3.10 a 3.11. | | |

## Newidiadau Arfaethedig i'r Map Cynigion o'r Materion yn Codi

| **Cyfeirnod Newid Map Cynigion Arfaethedig** | **Rheswm dros y Newid Arfaethedig** | **Cyfeirnod Cynllun** | **Newid a Gynigir** |
|---|---|---|---|
| PM1 | Diwygiad a gynigir i ffin dyraniad SP9 Cefnogi Rôl Porthladd Caerdydd ar Fap | SP9 | Gweler Atodiad 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynigion y CDLl Newydd (Diwygio’r allwedd i ddweud ‘Ffin Ddiwygiedig’ a ‘Ffin Bresennol’<br>Gweler Datganiad o Dir Cyffredin | | |
| PM2 | Cynnig i ddileu'r dyraniad H1.1 Tir yn ardaloedd 9-12, Llaneirwg o Fap Cynigion y CDLl Newydd (Diwygio’r allwedd i ddweud ‘Dyraniad H1.1 i’w dynnu allan’)<br>Newid canlyniadol ailrifo pob H1.2 i H1.1 | H1.1 | Gweler Atodiad 2 |
| PM3 | Cynnig i ddileu'r dyraniad H2.4 Doc y Rhath (Ochr y Gogledd) o'r Map Cynigion CDLl Newydd (Diwygio’r allwedd i ddweud ‘Dyraniad H2.4 i’w dynnu allan’)<br>Gweler Datganiad o Dir Cyffredin | H2.4 | Gweler Atodiad 2 |
| PM4 | Cynnig i ddiwygio ffin dyraniad H2.5 Porth Teigr a Phentir Alexandra ar y Map Cynigion CDLl Newydd (Diwygio’r allwedd i ddweud ‘Ffin Ddiwygiedig’ a ‘Ffin Bresennol’)<br>Ailrifo canlyniadol i H2.4<br>Gweler Datganiad o Dir Cyffredin | H2.5 | Gweler Atodiad 2 |
| PM5 A Presennol a B Arfaethedig | Cynnig i ddileu'r dyraniad Tir EC2 i'r De o Barc Busnes Llaneirwg (Diwygio'r allwedd i ddarllen 'Dyraniad EC2 i'w dynnu allan) ·<br>Cynnig i gynnwys Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg o fewn ardaloedd Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig Polisi EC3 a ddynodwyd ar y Map Cynigion CDLl Newydd | EC2 | Gweler Atodiad 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (Allwedd i ddarllen 'Ardal EC3.6 Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig newydd') | | |
| PM6 | Ffin gywir yr ymrwymiad tai "16 Plasdŵr (Rhan o safle strategol C y CDLl mabwysiedig)" a ddangosir ar y Map Cynigion i adlewyrchu'r ffin ddatblygu gywir ger pentref Sain Ffagan sy'n eithrio'r ardal sy'n gorgyffwrdd â'r ATA | Map Cynigion | Gweler Atodiad 2 |
| PM7 A – Tir yn Church Farm wedi'i dynnu o bolisi SH1A<br>Safleoedd a Gwblhawyd Wedi'u Tynnu O'r Ymrwymiadau Tai:<br>PM7 B- 1 - Yr hen Arjo Wiggins<br>PM7 C-4 - Y Lanfa, Ffordd y Sgwner<br>PM7 D-5 - Crawshay Court, Heol Curran<br>PM7 E-6 - Ystâd Ddiwydiannol Anchor<br>Ymrwymiadau Newydd<br>PM7 F-16 - Tir yn Church Farm (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig)<br>PM7 G-17 - Asset House, 63, Heol Penarth<br>PM7 H-18 - Coleg Llanfihangel, Heol y Ddorop<br>PM7 I-19 - Knox Court, 10 Plas Fitzalan | Diweddaru ac ail-rifo'r ymrwymiadau tai dros 100 o anheddau a ddangosir ar y Map Cynigion i eithrio safleoedd sydd bellach wedi'u cwblhau a chynnwys safleoedd newydd a gafodd ganiatâd cynllunio. | Map Cynigion | Gweler Atodiad 2<br><br>Rhestr Wedi'i Diweddaru o Ymrwymiadau Tai ar y Map Cynigion<br>1 – Yr hen Arjo Wiggins<br>21 – Hen BBC Heol Llantrisant<br>3 2- Tir yn Trem y Môr<br>4 - Y Lanfa, Ffordd y Sgwner<br>5 - Crawshay Court, Heol Curran<br>6 - Ystâd Ddiwydiannol Anchor<br>7 3 - Safle Bragdy Brains<br>8 4- Canolfan y Ddraig Goch a Neuadd y Sir<br>9 5 - East Bay Close<br>10 6 - Tŷ Suffolk, Stryd Masnach<br>11 7 - Ysbyty Lansdowne<br>12 8 - 81-6 Cilgant Guilford<br>13 9 - Lleiniau Sgwâr Canolog 4 a 5<br>1410 - I'r De o Creigiau (Rhan o Safle Strategol E y CDLl mabwysiedig)<br>15 11 - Tir i'r Gogledd o Gyffordd 33 (Rhan o Safle Strategol D y CDLl mabwysiedig)<br>16 12 - Plasdŵr (Rhan o Safle Strategol y CDLl mabwysiedig)<br>1713 - Gogledd-ddwyrain Caerdydd (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig)<br>18 14 - Sant Edeyrns Village (Rhan o Safle Strategol G y CDLl mabwysiedig)<br>19 15 - Tir i'r Gorllewin o Heol Dumballs (Rhan o Safle Strategol A y CDLl mabwysiedig)<br>16 - Tir yn Church Farm (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig)<br>17 - Asset House, 63, Heol Penarth<br>18 - Coleg Llanfihangel, Heol y Ddorop<br>19 - Knox Court, 10 Plas Fitzalan |
| | | Map Cynigion | Ychwanegu label coll i H2.3 Parc Busnes Caerdydd (Gorllewin). |

## Newidiadau sy'n Weddill o CD05 Ymateb y Cyngor i ID04 Ymateb y Cyngor i Sylwadau a Chwestiynau a Ggodwyd gan yr Arolygwyr

| Cyfeirnod Newid Arfaethedig y Cynllun | Mater a Godwyd | Cyfeirnod Cynllun | Newid Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| PPC26 | Er mwyn osgoi dryswch, dylid dileu paragraff 6.157 gan mai dyma'r un canllawiau y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.471 o dan Bolisi RE2 | SP20<br>Paragraff 6.157 | ~~*6.157 Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei ddatblygu gyda'r diwydiant i ddarparu dehongliad pellach o'r polisi hwn.*~~ |
| PPC27 | A ddylai safleoedd a restrir ym mharagraff 7.9, a gynigir i'w dwyn ymlaen fel ardaloedd adfywio dan arweiniad tai drwy CCA gael eu dyrannu o dan Bolisi H2, yn enwedig er mwyn rhoi pwysau'r cynllun datblygu ar y nod o wneud y mwyaf o dai fforddiadwy? | Polisi H2 Ardaloedd Adfywio Dan Arweiniad Tai | O ystyried statws presennol y safleoedd hyn, ystyrir bod angen rhagor o waith cyn y gellir eu dwyn o dan bolisi ac er mwyn osgoi dryswch cynigir dileu cyfeiriad atynt o'r cynllun.<br><br>Dileu Paragraff 9:<br>~~Cynigir dwyn tir yn Heol Maes y Coed, Ffordd y Cefnfor/Moorland Road, Heol Casnewydd a Heol Penarth ger bron fel ardaloedd adfywio dan arweiniad tai drwy CCA (paragraff 7.9). A ddylid dyrannu'r safleoedd hyn o dan Bolisi H2, yn enwedig i roi pwysau cynllun datblygu i'r nod o sicrhau cymaint o dai fforddiadwy ag y bo modd?~~ |
| PPC28 | Mae'n bosib na fydd angen rhwymedigaethau cynllunio i fynd i'r afael â diffygion. Rhaid i waith a chyfraniadau fynd i'r afael yn unig â'r galw a gaiff ei greu gan ddatblygiad arfaethedig. O ganlyniad, dylid dileu 'ac unrhyw dan ddarpariaeth presennol'. | Polisi SP5: Sicrhau Seilwaith Newydd | ~~**PS5: SICRHAU SEILWAITH NEWYDD**~~<br><br>**Bydd datblygiadau newydd yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer, neu'n cyfrannu tuag at, yr holl seilwaith sy'n hanfodol, yn galluogi ac yn angenrheidiol fydd eu hangen yn sgil y datblygiad yn unol â Chanllawiau Polisi Cynllunio. Bydd seilwaith o'r fath yn cael ei ddarparu'n amserol i ddiwallu anghenion cymunedau presennol a chynlluniedig ac mae'n cynnwys yr agweddau canlynol y gallai fod eu hangen er mwyn ystyried natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig ~~ac unrhyw dan ddarpariaeth bresennol~~:'**<br>**Seilwaith Hanfodol / Galluogi:**<br>• **Trafnidiaeth a phriffyrdd gan gynnwys mynediad, cylchrediad, parcio, darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio;**<br>• **Gwasanaethau cyfleustodau (gan gynnwys telegyfathrebu);**<br>• **Amddiffynfeydd / lliniaru llifogydd;**<br><br>**Seilwaith Angenrheidiol:**<br>• **Tai fforddiadwy;**<br>• **Ysgolion ac addysg;**<br>• **Iechyd a gofal cymdeithasol;**<br>• **Adeiladau a chyfleusterau cymunedol gan gynnwys gwelliannau i Ganolfannau Ardal a Lleol;**<br>• **Gwerth cymdeithasol fel cyflogaeth a hyfforddiant lleol gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth newydd a gofod gweithio fforddiadwy lle bo hynny'n berthnasol;**<br>• **Mentrau diogelwch cymunedol;**<br>• **Mannau agored, cyfleusterau hamdden, meysydd chwarae, rhandiroedd;**<br>• **Mesurau gwarchod, rheoli, gwella a lliniaru sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;**<br>• **Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)**<br>• **Gwelliannau i'r ardal gyhoeddus a chelf gyhoeddus;**<br>• **Cyfleusterau rheoli gwastraff gan gynnwys ailgylchu a gwasanaethau;**<br>• **Gwresogi ardal a seilwaith ynni cynaliadwy; a**<br><br>**Mesurau gwella sy'n ymwneud â'r Gymraeg.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| PPC29 | Mae'r arena dan do yn cael ei hadeiladu. A yw'r polisi hwn yn angenrheidiol? | Mae Polisi SP10: Cefnogi Twristiaeth | Dileu Polisi SP10<br><br>~~**PS10: CEFNOGI TWRISTIAETH**~~<br><br>~~**Bydd datblygiadau twristiaeth gynaliadwy priodol i adeiladu ar rôl Caerdydd fel Prifddinas a chyrchfan dwristaidd, celfyddydol, diwylliannol a chwaraeon o bwys yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo lle mae cynigion yn cwrdd â'r holl bolisïau perthnasol eraill y CDLl.**~~<br>~~**Bydd datblygiadau twristiaeth sy'n gysylltiedig â mentrau adfywio yn cael eu hyrwyddo gan gynnwys:**~~<br>• ~~**Arena Dan Do newydd 17,000 sedd ym Mae Caerdydd.**~~<br>• ~~**Ailddatblygu Metro Canolog a'r Cei Canolog.**~~<br>• ~~**Ailddatblygu Cwr y Gamlas, gan gynnwys ailagor y gamlas a chreu mannau cyhoeddus a masnachol newydd ar Ffordd Churchill.**~~<br>• ~~**Datblygiad chwaraeon pellach yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol (PChRh).**~~<br><br>~~6.87 Mae Cymru'r Dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth fel rhan o'r economi sylfaenol, sy'n cael ei hystyried yn 'rhan annatod o lesiant lleoedd, cymunedau a phobl ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Tra'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi, mae cysylltiad cadarnhaol rhwng twristiaeth a lles corfforol a meddyliol cymunedau. Mae hyn wedi'i alluogi'n arbennig trwy fathau llesol, gwyrdd a diwylliannol o dwristiaeth gan gynnwys twristiaeth Gymraeg.~~<br><br>~~6.88 Mae'r CDLl Newydd yn cydnabod arwyddocâd amlweddog twristiaeth, tra'n gwerthfawrogi pa mor ganolog yw'r diwydiant twristiaeth i economi Caerdydd.~~<br><br>~~6.89 Mae gan dwristiaeth y potensial i gynyddu gweithgarwch economaidd, cynorthwyo adfywio a chadwraeth, a chynyddu iechyd a lles cyffredinol. Gall hefyd fod rhai effeithiau negyddol i dwristiaeth, o ganlyniad i bwysau niferoedd ymwelwyr, o ran tagfeydd traffig, niwed i amgylcheddau naturiol sensitif (er enghraifft mewn ardaloedd arfordirol heb eu datblygu ac ardaloedd gwarchodedig), ac i gymunedau lleol. Nod polisïau yn y CDLl Newydd yw cyfeirio datblygiad twristiaeth i leoliadau er mwyn osgoi effeithiau o'r fath neu geisio rheoli datblygiad i leihau effeithiau negyddol.~~<br><br>~~6.90 Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi Cymru a Chaerdydd. Yn 2021 roedd yr economi ymwelwyr werth £728 miliwn i economi Caerdydd yn dod o 0.98 miliwn arhosiad dros nos a thua 8.88 miliwn o ymwelwyr dydd. Yn 2018 gwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd fudd economaidd o £17.5 miliwn i'r ardal ac yn 2021 cefnogodd twristiaeth dros 7,000 o swyddi llawn amser yn y ddinas yn uniongyrchol.~~ |
| PPC30 | Yn absenoldeb map diffiniol cyfredol o ansawdd tir amaethyddol, sut y bydd diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei sicrhau? | SP22(i) | 6.171 Mae'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a y Dosbarthiad Tir Amaethyddol) yn adnodd â phen draw iddo. Ar ôl ei golli i ddatblygu, anaml y mae'n ymarferol dychwelyd tir o'r fath i gynhyrchu amaethyddol o'r ansawdd gorau. ~~Nid oes map diffiniol cyfoes o ansawdd tir amaethyddol ar gyfer Caerdydd gyfan, ond mae'n hysbys bod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas i'w gael mewn rhannau o'r gorllewin, gogledd a dwyrain Caerdydd.~~ Nod y Polisi yw diogelu tir o'r fath rhag datblygiad, lle nad oes modd cyfiawnhau'r golled oherwydd ystyriaethau eraill, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. |
| PPC31 | EC1 A ddylai'r polisi nodi<br>beth yw defnyddiau priodol? Beth yw busnes sy'n seiliedig ar wybodaeth?_ | Polisi EC1 | Diwygio Polisi EC1 i ddweud beth yw defnydd priodol a diffinio busnes sy'n seiliedig ar wybodaeth:<br><br>**POLISI EC1: ARDAL FENTER CANOL CAERDYDD A'R ORSAF DRAFNIDIAETH RANBARTHOL**<br><br>**EC1: ARDAL FENTER CANOL CAERDYDD A'R ORSAF DRAFNIDIAETH RANBARTHOL** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Mae Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Rhanbarthol fel y dangosir ar y Map Cynigion wedi'i ddynodi ar gyfer cadw, datblygu ac ailddatblygu tir ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth, gan adlewyrchu rôl yr ardal fel sbardun masnachol Cymru.**<br><br>**Mae'r ardal yn canolbwyntio ar fusnes sy'n seiliedig ar wybodaeth ac mae hefyd yn cefnogi, fel rhan o orsaf drafnidiaeth gyhoeddus integredig, unedau preswyl dwysedd uchel ynghyd ag amrywiaeth o ddefnyddiau cymysg cyflenwol, gan gynnwys defnyddiau masnachol, hamdden a gwasanaeth lle maent yn cefnogi adfywio, adnewyddu a gwella ac yn cyfrannu at fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd AFCC.**<br><br>**Bydd datblygiadau sy'n cefnogi adfywio, adnewyddu a gwella ac sy'n cyfrannu at fywiogrwydd a hyfywedd yr AFCC fel canolfan economaidd a thrafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu ffafrio ac ystyrir bod y defnyddiau tir canlynol yn briodol: Swyddfeydd B1, defnyddiau ategol gan gynnwys gwestyau, defnyddiau bwyd a diod, defnyddiau hamdden a; defnyddiau preswyl dwysedd uchel lle maent yn rhan o gynigion ailddatblygu defnydd cymysg ac nad ydynt yn tanseilio prif swyddogaeth yr AFCC fel canolfan economaidd.**<br><br>7.78 Sefydlwyd Ardal Fenter Canol Caerdydd (AFCC) ddiwedd 2011 ac mae'n cynnwys ardal fusnes 56.7 hectar yng nghanol Caerdydd sydd â gweledigaeth i hwyluso datblygu cyflogaeth gwerth ychwanegol uchel sy'n ysgogi crynhoad a thwf cynhyrchiant, yn ogystal â darparu swyddi ar raddfa yn lleoliad busnes mwyaf cynaliadwy a hygyrch Cymru.<br><br>7.79 Mae'r AFCC yn cynnwys safleoedd Sgwâr Callaghan/Rhodfa'r Gamlas, Cwr y Ddinas, Gorsaf Caerdydd Canolog, y Sgwâr Canolog, Cyfnewidfa Caerdydd, y Cei Canolog, Stryd John a Heol Dumballs. Mae'r ardal yn canolbwyntio ar fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth (Swyddfeydd B1) ac hefyd yn cefnogi fel rhan o ganolfan drafnidiaeth ranbarthol integredig unedau preswyl dwysedd uchel ynghyd ag amrywiaeth o ddefnyddiau cymysg cyflenwol, gan gynnwys masnachol, hamdden a **manwerthu** a defnyddiau bwyd a diod.<br><br>7.80 Mae'r polisi hwn yn ceisio adeiladu ar ddatblygiad llwyddiannus AFCC hyd yma trwy hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad a datblygiad defnydd cymysg newydd i wella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad yr Ardal ymhellach a sicrhau bod Caerdydd yn cyflawni ei rôl fel sbardun economaidd y ddinas-ranbarth.<br><br>7.81 Mae cynlluniau swyddfeydd Gradd A mawr wedi'u cwblhau yng Nghwr y Brifddinas a'r Sgwâr Canolog a chynlluniau preswyl dwysedd uchel, gan gynnwys elfennau o ddefnydd cymysg a gofod llawr cyflogaeth wedi eu cwblhau a neu'n cael eu codi yng nghyffiniau Heol Dumballs.<br><br>7.82 Bydd y polisi hwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad yr ardal yn y dyfodol, gan gynnwys cwblhau'r Cei Canolog, cyflawni uwchraddio'r 'Metro Canolog' ar gyfer Gorsaf Reilffordd Caerdydd Canolog a'r gyfnewidfa fysiau, safleoedd ailddatblygu Sgwâr Callaghan a Rhodfa'r Gamlas a'r ailddatblygu ac adfywio sy'n mynd rhagddo ar Heol Dumballs.<br><br>7.83 (paragraff newydd i ddiffinio diwydiannau sy'n seiliedig ar wybodaeth)<br><br>At ddibenion y polisi hwn, diffinnir busnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth fel mentrau y mae eu prif allbynnau yn deillio o arbenigedd arbenigol, arloesi, technolegau digidol a gwasanaethau proffesiynol ac fel arfer yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau ariannol a phroffesiynol, diwydiannau digidol a chreadigol a gwasanaethau seiberddiogelwch a data. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| PPC32 | *Penderfynodd y Cyngor roi caniatâd cynllunio (cais 21/00076/MJR) ar gyfer Tir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg (Parc Caerdydd).* Dileu Polisi I<br><br>Safle i'w gynnwys ym Mholisi EC3 Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig | Polisi EC2 a Pholisi EC3 | Dileu Polisi EC2:<br>~~**EC2: TIR I'R DE O BARC BUSNES LLANEIRWG**~~<br>~~-~~<br>~~**Mae tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg wedi ei ddyrannu, fel a ddiffinnir ar y Map Cynigion ar gyfer safle cyflogaeth strategol sy'n cynnwys hyd at 90,000m2 o ddefnyddiau dosbarth B1, B2, a B8, defnyddiau ategol a seilwaith yn gysylltiedig â; bioamrywiaeth; tirlunio; draenio; cerdded, beicio a dulliau trafnidiaeth eraill. Ynghyd ag adeiladu cyfleuster gorsaf drafnidiaeth newydd, yn cynnwys adeiladau gorsaf reilffordd (hyd at 2,2500 m2 – defnydd dosbarth sui generis) gan gynnwys defnydd ategol; 4 platfform; maes parcio agored (hyd at 650 o fannau parcio) a gwaith seilwaith cysylltiedig, ar Dir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg, Caerdydd.**~~<br><br>~~7.83 Mae'r polisi hwn yn ceisio dyrannu 44ha o dir busnes a thir diwydiannol ar Dir i'r De o Laneirwg, fel safle strategol i ddarparu gorsaf drafnidiaeth (gan gynnwys gorsaf prif linell reilffordd), a thir cyflogaeth i ddenu buddsoddiad o ansawdd uchel i gyfrannu at strategaeth economaidd y CDLl ac economi'r Ddinas-ranbarth ehangach a chefnogi statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol. Mae'r dyraniad yn elfen bwysig o weledigaeth ac amcanion y CDLl, nodau'r Cyngor a nodir yn y strategaeth 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' ac mae hefyd yn darparu cysylltiadau ar lefel uchel a chydymffurfiaeth gyffredinol â'r Nodau Llesiant.~~<br><br>~~7.84 Mae'r safle yn flaenoriaeth allweddol o fewn y rhanbarth ehangach ac wedi'i leoli'n agos at ardal o ddiweithdra uchel â mynediad cyfyngedig iawn at reilffyrdd. Y tu hwnt i'r dalgylch lleol hwn, mae gan yr orsaf y potensial i gysylltu nifer sylweddol o bobl yng ngogledd-ddwyrain a dwyrain Caerdydd â'r rheilffordd a gallai'r orsaf weithredu fel cyfnewidfa drafnidiaeth amlfoddol rhwng Caerdydd a Chasnewydd.~~<br><br>~~7.85 Mae'r ymagwedd yma'n ymateb i rôl Caerdydd fel prif ysgogydd economaidd y ddinas-ranbarth yn ne-ddwyrain Cymru. Wrth wraidd yr ymagwedd hwn mae cydnabyddiaeth bod dinas-ranbarth Caerdydd yn amlwg yn ffurfio ardal economaidd naturiol, a'i bod yn gyson wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol mawr i dwf economaidd Cymru. Mewn dadansoddiad o ddinasoedd craidd, mae Caerdydd yn perfformio'n dda ac mae cyfle i adeiladu ymhellach ar hyn drwy barhau i wella rôl Caerdydd a gwella cysylltiadau a chysylltedd o fewn y ddinas-ranbarth. Cydnabyddir hefyd bod manteision sylweddol i ardaloedd cyfagos yn deillio o lwyddiant Caerdydd wrth gyflawni twf economaidd. Bydd gorsaf reilffordd newydd Parc Caerdydd a darpariaeth gysylltiedig tir a safleoedd cyflogaeth defnydd dosbarth B yn chwarae rhan hanfodol yn hyn o beth.~~<br><br>~~7.86 Mae Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth Caerdydd (HJA Associates, Mawrth 2022) yn cydnabod, ynghyd â'r gofyniad i wella ac ailddatblygu ystadau presennol yng Nghaerdydd, bod gofyniad hefyd i safleoedd newydd sydd wedi'u lleoli'n dda gael eu dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth i fodloni'r galw am lety diwydiannol ysgafn a warysau o ansawdd da. O ystyried cyfyngiadau daearyddol y ddinas, mae'r cyfle yn cyflwyno ei hun i ddefnyddio tir o fewn y dyraniadau strategol sy'n cynnig cysylltiadau trafnidiaeth da. Mae'r Tir i'r De o Laneirwg yn meddu ar gysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd posibl da gyda'r orsaf Metro arfaethedig newydd yn cynnig cyfle o'r fath.~~<br><br>~~7.87 Mae darparu gorsaf reilffordd prif lein yn elfen strategol bwysig o'r dyraniad, gan ddarparu cysylltiad â Llundain a Maes Awyr Caerdydd trwy Ganol y Ddinas. Cydnabyddir darparu gorsaf drenau brif reilffordd a'r cyfleuster parcio a theithio ym Mholisi SP19 y CDLl: Sicrhau Seilwaith Trafnidiaeth Newydd a T6: Metro Caerdydd i fod o bwysigrwydd strategol i Gaerdydd a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach. Ar ben hynny, mae argymhellion terfynol Comisiwn Burns (Tachwedd 2020), hefyd yn tynnu sylw at y rôl strategol bwysig a allai fod i'r orsaf reilffordd newydd arfaethedig gyda chyfleuster parcio a theithio wrth greu rhwydwaith o ddewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy amgen i'r car preifat i leddfu tagfeydd ar yr M4. Mae argymhellion terfynol y Comisiwn yn mynd cyn belled â "chymeradwyo cynlluniau" ar gyfer gorsaf arfaethedig Parc Caerdydd, gan gydnabod ei leoliad ger ardaloedd o ddiweithdra uchel a dwysedd poblogaeth sydd â mynediad cyfyngedig i wasanaethau rheilffyrdd ar hyn o bryd, gyda'r potensial am ddalgylch mwy o ran maint trwy gyfrwng rhwydweithiau bysiau a beicio wedi'u~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ~~hintegreiddio'n briodol. Mae gan yr orsaf y potensial felly i weithredu fel cyfnewidfa drafnidiaeth aml-foddol rhwng Caerdydd a Chasnewydd.~~<br><br>~~Oherwydd graddfa a maint y cynigion, a natur benodol yr orsaf newydd arfaethedig (yn unol ag ardystiad/argymhellion Comisiwn Burns), ystyrir nad oes cyfleoedd eraill yn bodoli a allai fodloni'r gofynion neu'r disgwyliadau ehangach ar gyfer datblygiad o'r fath.~~ |
| | | | ~~***(Penderfynodd y Cyngor roi caniatâd cynllunio (cais 21/00076/MJR) ar gyfer Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg (Parc Caerdydd). Dyna yw ei safbwynt o hyd. Mae'r cais wedi ei alw i mewn ac mae'r disgwyl am benderfyniad yn parhau).*~~ |
| | | | ~~*Mae'r dyraniad yn ceisio darparu 44 hectar o dir busnes sy'n gallu lletya hyd at 90,000 metr sgwâr o ddatblygiad o ansawdd uchel ar ffurf campws gan ymestyn i'r de o'r rheilffordd. (Mae'r Cais Cynllunio Amlinellol yn cynnig datblygiad ar tua 35ha o dir, gan leihau'r effaith ar y 9ha sy'n weddill i ganiatáu ardaloedd ar gyfer adfer a chreu cynefinoedd a bioamrywiaeth, gan gynnwys diogelu a gwella cynefinoedd i'r de o'r rheilffordd)*~~ |
| | | | **EC3: TIR A SAFLEOEDD CYFLOGAETH GWARCHODEDIG**<br><br>**Caiff yr ardaloedd cyflogaeth dilynol (y tu allan i Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae) a restrir yn y tabl isod a'u nodi ar y Map Cynigion eu diogelu ar gyfer defnyddiau creu cyflogaeth Defnydd Dosbarth B (ynghyd â defnydd a gweithgareddau atodol priodol a/neu ategol fel y cyfeirir atynt ym Mholisi EC4).** |

| Cyfeirnod Safle | Enw'r Safle | Prif Ddefnydd/Gweithgaredd | Statws |
|---|---|---|---|
| EC3.1 | Parc y Cefnfor | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.2 | Heol y Blaendraeth (Glanfa Hofrenyddion a'r cyffiniau) | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.3 | Ffordd Rover (Gwaith Dur Celsa, Ystâd Ddiwydiannol Tremorfa, Seawall Road) | B2, B8 | Cynradd |
| EC3.4 | Heol Gwynllŵg (Parc Busnes Capital, Ystâd Ddiwydiannol Ffordd Lamby, Parc Corfforaethol Gwynllŵg, Terfynfa Nwyddau Rheilffyrdd) | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.5 | Parc Busnes Llaneirwg | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.6 | Tir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.~~6~~ 7 | Parc Busnes Porth Caerdydd | B1 (swyddfeydd), ategol B2 | Cynradd |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| EC3.~~7~~ 8 | Parc Busnes Caerdydd a Thir i'r Gogledd o Heol Maes y Coed, Llanisien | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.~~8~~ 9 | Fferm y Fforest, Longwood Drive | B1 (gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu), B2, B8 | Cynradd |
| EC3.~~9~~ 10 | Green Meadow Springs | B1 (swyddfeydd) | Cynradd |
| EC3.1~~0~~1 | Ardal Heol Penarth (yn cynnwys Heol Hadfield a Heol Bessemer) | B1, B2, B8 | Cynradd |
| EC3.1~~1~~ 2 | Heol Tŷ Nant | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.1~~2~~ 3 | Heol Gwynllwg (i'r gogledd o'r rheilffordd) | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.1~~3~~ 4 | Pentwyn (Ffatri Panasonic, Ystâd Ddiwydiannol Avenue) | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.1~~4~~ 5 | Parc Busnes y Dwyrain | B1 (swyddfeydd) | Lleol |
| EC3.1~~5~~ 6 | Parc Technoleg Busnes Willowbrook | B1 (gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu) | Lleol |
| EC3.1~~6~~ 7 | Heol Excelsior | B1, B2, B8 a chownter masnach cyflenwol | Lleol |
| EC3.1~~7~~ 8 | Ystâd Ddiwydiannol Heol Norbury | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.1~~8~~ 9 | Wroughton Place, Trelái | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.~~19~~ 20 | Argyle Way, Caerau | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.2~~0~~ 1 | Ystâd Ddiwydiannol y Garth a Heol yr Ynys | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.2~~1~~ 2 | Tir yn East Bay Close | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.2~~2~~ 3 | Parc Busnes Alexandra Gate | B1 (swyddfeydd) | Lleol |
| EC3.2~~3~~ 4 | Heol Ipswich | B1, B2, B8 | Lleol |
| EC3.2~~4~~ 5 | Heol y Maendy | B1 (gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu) | Lleol |
| EC3.2~~5~~ 6 | Rhodfa'r Dwyrain | B1, B2, B8 a chownter masnach cyflenwol | Lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.89 Mae'r Polisi hwn yn ymateb i weledigaeth ac amcanion economaidd y Cynllun i sicrhau bod ystod a dewis o dir a safleoedd cyflogaeth ar gael ledled y ddinas i hwyluso cystadleurwydd economaidd, annog entrepreneuriaeth, hyrwyddo twf busnesau brodorol o bob math a maint, a denu mewnfuddsoddiad.<br><br>7.90 Swyddogaeth allweddol i'r CDLl yw sicrhau cynnig portffolio addas o ran ystod, nifer ac ansawdd tir a safleoedd cyflogaeth i gwrdd ag anghenion y sir a gweithlu'r sir nawr ac yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun.<br><br>7.91 Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd gyda thir cyflogaeth presennol i ganiatáu cydbwysedd priodol o ddefnyddiau i ddatblygu yn y lleoliadau cywir. Am y rheswm hwn, nid yw'n briodol taenu amddiffyniad cyffredinol dros yr holl ardaloedd cyflogaeth presennol. Mae'r safleoedd cyflogaeth a nodwyd ym Mholisi EC1 yn dangos potensial cryf i barhau i chwarae rôl economaidd bwysig, boed hynny i ddarparu cyflogaeth leol ar safleoedd llai o fewn cymdogaethau allweddol neu os yw'r safleoedd yn fwy strategol o ran eu maint, eu safle a'u swyddogaeth, gan gynnwys hygyrchedd i'r prif rwydwaith priffyrdd, cyfleusterau cludo nwyddau rheilffordd a'r porthladd.<br><br>7.92 Mae'r dynodiadau cyflogaeth gwarchodedig yn cwmpasu swyddfeydd y tu allan i'r canol, ymchwil a datblygu, unedau diwydiannol ysgafn a chyffredinol, yn ogystal â storio a dosbarthu. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dewis oherwydd y rôl economaidd bwysig y maent yn ei chwarae ar hyn o bryd ym mhortffolio tir cyflogaeth cyffredinol y ddinas yn ogystal â'u dosbarthiad daearyddol ledled y ddinas. Mae swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae wedi'u diogelu ar wahân gan Bolisi EC6.<br><br>7.93 Ffactor allweddol yng ngallu Caerdydd i gynnal cyflenwad o dir cyflogaeth fydd y gallu i warchod y tir a'r safleoedd hyn ar gyfer cyflogaeth rhag cael eu colli i ddefnydd arall. Bu pwysau cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu/ailddatblygu tir a safleoedd cyflogaeth i ddibenion eraill (preswyl yn bennaf), boent wedi eu meddiannu ai peidio neu lle bo gweithrediadau presennol wedi dod i ben. Gall cynigion datblygu o'r fath arwain at golled sylweddol yn stoc tir a safleoedd cyflogaeth y sir.<br><br>7.94 Gall colli tir cyflogaeth ddigwydd yn raddol gyda cholli un safle yn gynsail i golli cyfres o safleoedd eraill mewn lleoliad tebyg, gan arwain at erydu graddol ar safle cyflogaeth. Weithiau gall defnydd arall hefyd ddarnio ardal fusnes fwy neu dorri'r cysylltiad rhwng defnyddiau cyflogaeth mewn ardal. Dros amser mae pwysau dros ddefnydd arall yn arwain at golled gyfanredol wirioneddol o safleoedd cyflogaeth gan andwyo'r economi leol.<br><br>7.95 Mae'r safleoedd cyflogaeth a nodwyd i'w gwarchod wedi cael eu hadolygu, fel rhan o'r Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth (ATSC/*ELPS*) a gynhaliwyd gan Hardisty Jones Associates HJA mewn partneriaeth ag Owen Davies Consulting a NP Linnells Property Consultants.<br><br>7.96 Mae nifer o safleoedd cyflogaeth wedi profi pwysau pellach dros ddefnyddiau eraill gyda cholledion tir cyflogaeth ychwanegol a gostyngiad yn eu swyddogaeth cyflogaeth dosbarth defnydd B. Argymhelliad yr adolygiad yw gwarchod a chydgrynhoi'r dynodiadau sy'n weddill lle bo'n briodol, a fydd yn ffurfio darpariaeth gyflenwi bwysig i fodloni'r galw a ragwelir am ddarpariaeth cyflogaeth dros gyfnod y cynllun.<br><br>7.97 Mae'r adolygiad a'r argymhellion wedi'u cynnwys yn y cynllun a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:<br><br>7.98 Mae cydgrynhoi (addasu ffiniau dyraniad safleoedd) wedi'i adnabod, gan gynnwys Parc Busnes Caerdydd a Thir i'r Gogledd o Heol Maes y Coed. Mae'r ardal hon wedi gweld cynnydd yn y defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth o fewn ffiniau'r safle, gan ddarparu cyfle i gydgrynhoi. Manwerthu cownteri masnach, campfeydd a defnyddiau gofal iechyd sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o ddefnyddiau nad ydynt yn ddefnydd dosbarth B mewn safleoedd cyflogaeth gwarchodedig. Dylid tynnu hen dir CThEM a Gleider House hefyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.99 Safle arall lle roedd angen addasu'r ffiniau oedd Heol Excelsior, sydd wedi gweld y rhan fwyaf o ran ddeheuol y safle yn troi o ddosbarth defnydd B i ddefnydd preswyl a manwerthu a bwyd a diod, yn ogystal â llety myfyrwyr.<br><br>7.100 Fodd bynnag, mewn nifer o achosion er bod y defnydd nad yw'n gyflogaeth wedi'i ganiatáu, nid yw'r uned wedi ei heffeithio a gellid ei defnyddio at ddibenion cyflogaeth yn y dyfodol a gall barhau o bosibl yn rhan o'r stoc bresennol.<br><br>7.101 Mae Ffordd y Cefnfor hefyd wedi'i chydgrynhoi i dynnu marchnad Sbot a defnyddiau hamdden sefydledig, o fewn yr ardal ddiwydiannol. Mae nifer o safleoedd hefyd wedi gofyn cael eu cydgrynhoi i adlewyrchu dynodiadau amgylcheddol.<br><br>7.102 Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cael ei dynnu, er mwyn hwyluso cyfleoedd datblygu yn Cathays yn y dyfodol.<br><br>7.103 Mae dynodiadau gwarchod cyflogaeth newydd fel a ganlyn: Tir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg (dyraniad cyflogaeth strategol yn cynnwys gorsaf drafnidiaeth (yn cynnwys gorsaf prif linell rheilffordd), Heol y Maendy (dyraniad ymchwil a datblygu o'r cynllun blaenorol a gwblhawyd yn ddiweddar), Heol Ipswich (ardal gyflogaeth leol sefydledig wedi ei meddiannu - B1/B2/B8) ac yn olaf Rhodfa'r Dwyrain (tir cyflogaeth B2/B8 a ganiatawyd yn ddiweddar sy'n ffurfio rhan o ddatblygiad Parcio a Theithio Pentwyn).<br><br>7.104 Bydd diogelu'r safleoedd cyflogaeth dynodedig a restrir yn caniatáu moderneiddio ac adnewyddu tir ac eiddo ac yn cynyddu dwysedd y datblygiad ar y safle a thrwy hynny wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r tir.<br><br>7.105 Ar ben hynny, bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi busnesau lleol i leihau eu hôl troed carbon drwy ddwyn ynghyd fusnesau perthnasol â'r nod o wella eu perfformiad amgylcheddol a lle gall un busnes ddefnyddio gwastraff busnes arall fel adnodd, byddai cydleoli'r busnesau hyn a fyddai'n annog ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn cael ei gefnogi. |
| PPC33 | Mae Polisi EC7 yn cyfeirio at Bolisi H8 yn yr ail fwled. Mae hyn yn gamgymeriad. Dylai'r polisi gyfeirio at Bolisi H9 sy'n ymwneud â defnyddiau preswyl arfaethedig ar safleoedd heb eu dyrannu. | Polisi EC7 | **EC7: DEFNYDD AMGEN O DIR AC ADEILADAU CYFLOGAETH NAD YDYNT WEDI'U NODI O FEWN POLISI EC3 (TIR CYFLOGAETH GWARCHODEDIG) NEU BOLISI EC6 (DIOGELU SWYDDFEYDD YN ARDAL FUSNES Y CANOL A'R BAE)**<br><br>**Bydd defnyddiau amgen o dir ac adeiladau cyflogaeth y tu allan i'r ardaloedd gwarchod cyflogaeth dynodedig ar gyfer datblygu preswyl a/neu ddefnydd cymysg yn derbyn ystyriaeth ffafriol ar yr amod:**<br><br>• **Bod y safle neu'r adeilad yn wag/segur, neu lle mae safleoedd yn parhau dan feddiant, bydd angen arddangos adleoli meddianwyr presennol i safle addas arall.**<br>• **Bydd angen i gynigion preswyl fodloni profion ~~Polisi H8~~ Polisi H9. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellid ystyried datblygu tai fforddiadwy yn fwy ffafriol.**<br><br>**Bydd cynigion ar gyfer datblygiad preswyl defnydd cymysg sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer gofod cyflogaeth newydd, cyfleusterau cymunedol neu wasanaethau iechyd yn cael eu ffafrio yn amodol ar ystyriaethau manwl** |
| PPC34 | Dylai cyfiawnhad rhesymegol esbonio'r cefndir a'r rheswm dros bolisi. Nid yw rhagdybiaeth yn erbyn newid defnydd gwestyau mewn ardaloedd preswyl i ddefnyddiau amhreswyl mewn polisi yn gyfiawnhad rhesymegol. O ystyried bod | EC9 Datblygu Gwestyau | **EC9: DATBLYGU GWESTYAU**<br>**Bydd cynigion ar gyfer datblygu gwestyau, gan gynnwys estyniadau a newidiadau defnydd eiddo addas yn cael eu ffafrio:**<br>~~i.~~ **O fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae** ~~yng nghanol y ddinas;~~<br>**ii. O fewn canolfannau dynodedig yn amodol ar fod y cynnig ar raddfa sy'n briodol i'r canol ac yn amodol ar fodloni meini prawf Polisi R4: Canolfannau Ardal a Pholisi R5: Canolfannau Lleol;** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Polisi PC1 yn gwrthsefyll datblygiad a fyddai'n andwyol, a yw paragraff 7.137 yn angenrheidiol? | | **Y tu allan i'r lleoliadau hyn, bydd cynigion ar gyfer datblygu gwestyau mawr, gan gynnwys estyniadau a newidiadau defnydd yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi R1: Ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf.**<br>**iii. Bydd cynigion ar gyfer newid defnydd ar westyau mewn ardaloedd preswyl i ddefnydd heblaw defnydd preswyl neu ddefnyddiau sy'n dderbyniol mewn ardal breswyl yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi PC1: Aer, Sŵn, Llygredd Golau a Halogiad Tir.**<br>7.134 Mae'r polisi hwn yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi Caerdydd a'r angen i ddarparu amrywiaeth o lety gwesty i gefnogi'r economi ymwelwyr, teithio busnes a gweithgaredd cynadleddau. Mae'r polisi yn nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygu gwestyau newydd, naill ai fel defnydd sengl neu fel rhan o gyfleoedd datblygu defnydd cymysg, gan gynnwys estyniadau a newid defnydd. Bydd y prawf dilyniannol yn berthnasol i gynigion ar gyfer datblygiadau gwesty mawr fel y rhai sydd â chyfleusterau cynadledda a gwledda a gaiff eu cynnig y tu allan i Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae yng nghanol y ddinas.<br>Gall gwestyau rhad a mathau tebyg o ddatblygiad fel motels a gwestyau teithio ddarparu mwy ar gyfer teithwyr mewn ceir, yn aml am un arhosiad dros nos, fel teithwyr busnes ar eu ffordd i gyrchfan. Mewn achosion o'r fath, lleoliadau ar ymylon y canol, er enghraifft ar lwybrau trafnidiaeth mawr i mewn ac allan o ganol y ddinas, fydd y lleoliadau mwyaf priodol fel rheol.<br>7.136 Mae'r newid defnydd ar eiddo addas yn westyau neu westyau bach yn cyfrannu at yr ystod o lety sydd ar gael i dwristiaid ac ymwelwyr eraill â'r ddinas. Mae eiddo addas yn debygol o fod yn safleoedd masnachol gwag a mwy eu maint a gofod gwag uwchben safleoedd masnachol presennol. O ran yr eiddo arfaethedig a'i leoliad, rhoddir pwysigrwydd ar yr angen i ddiogelu amwynder preswyl.<br>~~7.137 Bydd cynigion ar gyfer newid defnydd ar westyau wedi'u haddasu mewn ardaloedd preswyl i ddefnydd heblaw defnydd preswyl neu ddefnyddiau sy'n annerbyniol mewn ardal breswyl yn cael eu gwrthsefyll.~~ |
| PPC35 | Mae Polisi EC10 yn ffafrio defnyddiau hamdden ac ati yn yr ardaloedd a restrir ond mae paragraffau 7.142 a 7.143 yn gosod cyfyngiadau ar ddefnyddiau o'r fath. A ddylai'r gocheliadau hyn gael eu cynnwys ym Mholisi EC10 neu a ddylai Polisi EC10 groesgyfeirio at y meini prawf ym Mholisïau R2 ac R3?<br><br>Mae'r frawddeg olaf yn cynnwys datganiad polisi. O ystyried bod Polisi PC1 yn gwrthsefyll datblygiad a fyddai'n andwyol, a yw'r frawddeg hon yn angenrheidiol? | Polisi EC10 | Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, mae'r Cyngor yn cynnig y newidiadau canlynol i Bolisi EC10<br>**EC10: ECONOMI DDIWYLLIANNOL A'R NOS**<br><br>**Bydd cynigion ar gyfer defnydd hamdden, adloniant a diwylliannol sy'n gwarchod, hyrwyddo, arallgyfeirio ac adfywio economi'r hwyr a'r nos yn y ddinas yn cael eu ffafrio yn: -**<br>**I. ~~Canol y Ddinas (Ardal Fusnes Ganolog)~~ Yr Ardal Fusnes Ganolog a aseswyd yn erbyn Polisi R2 ac R3 lle bo'n berthnasol;**<br>**II. Ardal harbwr mewnol/glannau Bae Caerdydd (Ardal Fusnes y Bae)**<br>**III. Y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol**<br>**IV. Glanfa'r Iwerydd a;**<br>**V. Canolfannau Ardal a Lleol (ar raddfa a natur sy'n briodol i'r ganolfan), wedi eu hasesu yn erbyn Polisi R1, R4 ac R5.**<br>**Gwrthsefir colli lleoliadau Dosbarth Defnydd D2 a thafarndai (Dosbarth Defnydd A3) oni ddangosir nad yw'r defnydd bellach yn hyfyw, ac na all y safle ddarparu ar gyfer defnydd hamdden, adloniant neu ddiwylliannol amgen ~~arall tebyg~~.**<br><br>7.138 Mae economi'r nos yn cyfeirio at y gwahanol weithgareddau economaidd a busnesau sy'n gweithredu'n bennaf gyda'r hwyr ac yn ystod oriau'r nos, fel arfer rhwng 6pm a'r bore cynnar. Mae'n cynnwys ystod amrywiol o ddefnyddiau, gan gynnwys clybiau nos, tafarndai, bariau a bwytai, lleoliadau cerddoriaeth fyw, lleoliadau hamdden rhoi profiad, sinemâu, theatrau, neuaddau cyngerdd, arena, a lleoliadau chwaraeon.<br><br>7.139 Mae economi'r nos yn chwarae rhan bwysig o ran ansawdd bywyd trigolion y ddinas, ei heconomi twristiaeth ac ymwelwyr ac, fel cyflogwr allweddol, mae'n bwysig i gryfder economi'r ddinas yn gyffredinol. Nod y polisi hwn yw cefnogi economi nos a diwylliannol ffyniannus ac amrywiol sy'n canolbwyntio ar ganol y ddinas (Ardal Fusnes Ganolog), yr Harbwr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mewnol ac ardal glannau Bae Caerdydd (Ardal Fusnes y Bae), y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, Glanfa'r Iwerydd ac mewn canolfannau ardal a lleol, yn amodol ar fod y raddfa a'r natur yn briodol i'r ganolfan.<br><br>7.140 Yn draddodiadol cefnogir economi'r nos yn bennaf gan dafarndai, clybiau a bwytai, sydd o safbwynt economaidd yn cynhyrchu lefelau uchel o wariant gan ymwelwyr a thwristiaid. Fodd bynnag, mae'r ffocws cul hwn ar dafarndai, clybiau a bwytai yn lleihau apêl yr economi gyda'r hwyr a'r nos i grŵp ehangach o bobl nad ydynt yn cael eu denu gan yr arlwy draddodiadol hon oherwydd eu ffordd o fyw, ac sy'n llai tueddol o fynd allan gyda'r nos.<br><br>7.141 Dylid cydbwyso presenoldeb bwytai, clybiau nos a thafarndai cryf mewn ardal â chynnig amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau diwylliant a hamdden; er enghraifft, caffis, theatrau, sinemâu, neuaddau bingo, lleoliadau cerddoriaeth bach, clybiau comedi, ystafelloedd dianc, orielau celf, campfeydd / canolfannau ffitrwydd, siopau cyfleustra hwyr y nos, a mannau adloniant dan do i deuluoedd sy'n darparu golff gwallgof, lonydd bowlio, waliau dringo, ac a fyddai'n cynnig dewis ehangach o brofiadau cymdeithasol deniadol i deuluoedd, pobl ifanc a phobl hŷn, a thrwy hynny greu awyrgylch bywiog a hamddenol sy'n apelio at bob grŵp oedran; a helpu i liniaru'r anhrefn a all atal pobl rhag profi gweithgareddau diwylliannol a hamdden o ansawdd uchel.<br><br>7.142 Er y gall amrywiaeth o ddefnyddiau gyda'r hwyr a'r nos gynnig dewis, gallai amlder, a chlystyru defnyddiau newydd neu ychwanegol gyda'r hwyr neu'r nos, wthio defnyddiau yn ystod y dydd allan. Gallai hyn fod yn niweidiol i ~~fywiogrwydd~~ lewyrch a hyfywedd ffryntiadau manwerthu. Mae'n annhebygol y caniateir defnydd arfaethedig gyda'r hwyr neu'r nos o fewn y prif ffryntiad manwerthu lle ystyrir y byddai erydu ar uniondeb a pharhad y ffryntiad manwerthu presennol. Fodd bynnag, efallai y bydd eithriadau lle ceir lefelau uchel o unedau manwerthu gwag hirdymor a allai fod yn addas ar gyfer defnydd priodol gyda'r hwyr neu'r nos i leihau lefelau unedau gwag, gwella nifer yr ymwelwyr a ~~bywiogrwydd~~ bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad ffryntiadau.<br><br>7.143 Mae'n annhebygol y bydd cynigion ar gyfer defnydd gyda'r hwyr a'r nos mewn ffryntiadau lle ceir crynodiadau o ddefnydd tebyg gyda'r hwyr neu'r nos yn dderbyniol. Y bwriad yw osgoi ffryntiadau marw helaeth yn ystod y dydd, a fyddai'n lleihau nifer yr ymwelwyr ac atyniad yr ardal. Byddai gor-grynhoad o unrhyw ddefnydd gyda'r hwyr a'r nos yn cael effaith andwyol ar ~~fywiogrwydd,~~ hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad canol y ddinas a byddai cymysgedd priodol o ddefnyddiau sydd ar agor yn ystod y dydd a gyda'r hwyr / nos i gynhyrchu gweithgaredd parhaus yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol.<br><br>7.144 Bydd pob cais cynllunio ar gyfer defnyddiau A3 a D2 yn cael eu hasesu yn erbyn y fframwaith polisi perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn y bennod ar Fanwerthu.<br><br>7.145 Bydd y cyngor hefyd yn gwarchod ac yn cefnogi lleoliadau diwylliannol presennol gyda'r hwyr a'r nos. Cymhwysir egwyddor 'cyfrwng newid' i ddatblygiadau newydd ger lleoliadau diwylliannol gyda'r hwyr a hwyr y nos~~. Gall y cyngor wrthod cynigion datblygu nad ydynt wedi dangos yn glir sut y bydd effeithiau sŵn o ddefnydd hwyr a nos presennol yn cael eu lliniaru a'u rheoli~~ a chaiff cynigion eu hasesu yn erbyn Polisi PC1.<br><br>7.146 Mae diogelu'r lleoliadau diwylliant a hamdden presennol yn cydnabod y rôl economaidd werthfawr y maent yn ei chwarae wrth ddarparu profiad diwylliannol dilys sy'n gwneud y ddinas yn ddeniadol i ymwelwyr a thwristiaid. Mae'r egwyddor 'cyfrwng newid' yn rhoi'r cyfrifoldeb am liniaru effeithiau o weithgareddau neu ddefnyddiau presennol sy'n cynhyrchu sŵn ar y datblygiad newydd. Mae hyn yn sicrhau na ddylai'r defnydd tir presennol gael ei effeithio'n ormodol gan ddatblygiad defnyddiau newydd sy'n sensitif i sŵn.<br><br>7.147 Mae gan y cyngor reolaeth reoleiddiol helaeth o'r defnyddiau sy'n gysylltiedig â'r economi gyda'r hwyr a'r nos, yn enwedig trwyddedu ac anogir ymgeiswyr yn gryf i gysylltu â gwasanaethau trwyddedu a chynllunio cyn cyflwyno ceisiadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.148 Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi mewn CCA. |
| PPC36 | Sut mae ymgeiswyr a phenderfynwyr yn gwybod beth yw tystiolaeth sylweddol? | Polisi C2 Paragraff 7.219 | Diwygio paragraff 7.219 Ni all unrhyw bolisi fynnu bod tafarn neu siop gornel yn cael ei chadw ar agor os nad oes gobaith realistig y bydd yn parhau fel busnes hyfyw. Fodd bynnag, lle mae gan dafarndai a siopau cornel rôl ehangach wrth gefnogi'r gymuned yn enwedig y tu allan i ganolfannau dynodedig lle maent wedi'u dosbarthu'n fwy prin, gall eu colli gael effaith anghymesur, ac mae angen tystiolaeth sylweddol i gyfiawnhau eu colled O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen tystiolaeth i ddangos bod yr eiddo wedi bod yn barhaol wag neu'n wag am gyfnod estynedig a'i fod wedi cael ei farchnata am bris rhesymol neu rent am 12 mis ac nad oes unrhyw ddiddordeb realistig yn ei gadw at y defnydd presennol neu at ddefnydd cymunedol amgen.. |
| PPC37 | Goblygiadau'r cyngor ym Mharagraffau 7.226, 7.227 a 7.228 yw bod mesurau i liniaru digwyddiad ac effeithiau terfysgaeth yn gallu bod yn sylweddol wahanol i'r gofynion ar gyfer diogelwch cymunedol (Polisïau SP4 ac C3). A ddylid diwygio Polisi C3 i adlewyrchu hyn? | Polisi C3 | Mae'r Cyngor yn cytuno ac yn cynnig diwygio Polisi C3, a chynigir maen prawf ychwanegol (vi) i'w ychwanegu sy'n nodi: '(vi) Lle bo'n briodol, ymgorffori mesurau gwrthderfysgaeth cymesur o fewn dyluniad a chynllun datblygiad, yn enwedig ar gyfer lleoliadau, mannau cyhoeddus a lleoliadau eraill sydd â lefelau uchel o ymwelwyr, gan gynnwys ystyriaeth i gynllunio safle, rheoli mynediad, llwybrau symud, rheoli torfeydd, atal cerbydau, a defnydd o ddeunyddiau a dyluniad strwythurol priodol'. |
| PPC38 | Ail bwynt bwled. Os oes angen buddsoddiad i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, nid oes gan yr ysgol does bosib felly y gallu i'w lletya ar hyn o bryd? Beth yw ystyr addas? | Polisi C4 Paragraff 7.233 | I egluro hyn mae'r Cyngor yn cynnig bod yr ail bwynt bwled ym mharagraff 7.233 yn cael ei ddiwygio fel ei fod yn darllen fel hyn - 'mae yna ddigon o gapasiti sbâr yn y cyfryw ysgolion i ddarparu ar gyfer rhywfaint neu'r cyfan o'r niferoedd disgyblion rhagamcanol a fydd yn deillio o'r datblygiad arfaethedig, ond bod angen buddsoddiad i'w wneud i safon addas at ddefnydd addysgol.' |
| PPC39 | Mae Polisi HF1 yn cefnogi amgylchedd manwerthu bwyd sy'n gwella mynediad at ddewisiadau bwyd iach ond nid yw'n golygu na ellid cael siopau tecawê. Os oes eithrio i fod yn erbyn siopau bwyd cyflym ar sail y math o fwyd maen nhw'n ei werthu, dylai fod yn y polisi ac wedi'i gyfiawnhau gan dystiolaeth ac ystyriaethau cynllunio materol. A oes tensiwn rhwng y nod hwn a Pholisi R8? | HF1 | Cynigir diwygio maen prawf (iv) Polisi HF1 i egluro'n well fwriad yr ymagwedd polisi o ran hyrwyddo amgylcheddau bwyd iach.<br><br>Diwygio Maen Prawf Polisi HF1 (iv):<br><br>(iv) Darparu amgylchedd tyfu a manwerthu bwyd sy'n gwella mynediad at ddewisiadau bwyd iach ac yn lleihau anghydraddoldebau trwy wrthsefyll cynigion ar gyfer tecawês bwyd poeth ychwanegol lle byddai eu nifer neu eu hagosrwydd yn arwain at or-grynhoi ac yn tanseilio creu amgylchedd bwyd iach a chytbwys. |
| PPC40 | Mae'r polisi yn berthnasol i ddatblygiadau preswyl ac nid yw'n gwahaniaethu yn ôl math. A ellir dweud y byddai cyfraniad gan Lety Myfyrwyr a Adeiladir i'r Diben yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad? | HF2 | Mae'r Cyngor yn cytuno y dylai bod eithriad ar gyfer Llety Myfyrwyr Pwrpasol ac yn cynnig y dylid diwygio paragraff 7.269 fel a ganlyn i egluro<br><br>: - '7.269 Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofyniad i ddatblygiadau preswyl mawr newydd (Defnydd Dosbarth C3) ddarparu gofod rhandir i breswylwyr a diogelu a chadw'r safleoedd hyn yn ehangach fel asedau seilwaith cymunedol a gwyrdd gwerthfawr.' |
| PPC41 | Ychwanegu'r 2 baragraff Mae'r polisi yn dweud ei fod yn berthnasol i bob datblygiad preswyl ond mae paragraff 7.278 yn nodi ei fod yn ofynnol ar gyfer datblygiad preswyl priodol. P'un sy'n gywir? Beth yw meddiannaeth hirdymor? | HF3 | Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, mae'r Cyngor yn cynnig bod polisi HF3 yn cael eu ddiwygio fel a ganlyn<br><br>HF3: DARPARU GOFOD I DYFU BWYD MEWN DATBLYGIADAU NEWYDD Disgwylir i bob datblygiad preswyl mawr newydd a fwriedir ar gyfer meddiannaeth barhaol neu hirdymor ddarparu gofod addas i breswylwyr dyfu bwyd ar y safle. Bydd disgwyl i ofod newydd ar gyfer tyfu bwyd fel rhan o ddatblygiad<br>i. Fod o faint ac ansawdd priodol, gyda datblygiadau mwy yn darparu cyfleoedd tyfu bwyd a/neu blannu sydd ar raddfa briodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae Polisi HF3, paragraff 7.286 yn cynnwys rhestr hir o ystyriaethau. Beth mwy sydd i'w ddarparu mewn CCA? (paragraff 7.287). | | ii. fod wedi'i ddylunio'n briodol i fod yn ddiogel, yn ddefnyddiadwy, yn hygyrch i bob preswylydd ac wedi'i integreiddio i'r safle datblygu.' '<br><br>7.287 Er bod polisi HF2 yn nodi'r gofyniad i ddatblygiadau preswyl mawr ddarparu neu gyfrannu at ddarpariaeth rhandiroedd ffurfiol, mae'r polisi hwn yn nodi'r gofyniad i bob datblygiad preswyl mawr priodol ddarparu gofod mwy anffurfiol ar y safle i breswylwyr allu tyfu bwyd.'<br><br>7.280 Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried gofod addas ar gyfer tyfu bwyd yn anffurfiol mewn datblygiadau preswyl mawr o bob maint. Mae'r gofyniad am ofod tyfu bwyd mewn datblygiad newydd yn gyson â PCC sy'n annog cynlluniau datblygu lleol i<br>hyrwyddo a sicrhau mynediad at fwyd iachach ac at seilwaith gwyrdd diogel a hygyrch sy'n helpu i alluogi a chefnogi ffyrdd iach o fyw.<br><br>**Darparu gofod tyfu bwyd mewn datblygiadau mawr newydd o bob maint**<br><br>7.282 Gall darparu gofod tyfu bwyd anffurfiol neu dirlunio bwytadwy gael ei wneud yn hawdd ac heb o reidrwydd gostio mwy i ddatblygwyr na strategaethau tirlunio neu fannau gwyrdd mwy traddodiadol. Dylai datblygiadau mawr geisio creu gofod hyblyg sy'n addas ar gyfer tyfu bwyd y gellir ei ddefnyddio pan fo angen neu pan fo diddordeb yn cael ei amlygu gan breswylwyr.<br><br>"7.287 Nid yw'r rhestr hon o ystyriaethau perthnasol yn restr gyflawn. Bydd y cyngor yn cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol pellach i gynorthwyo datblygwyr i fodloni gofynion y polisi hwn." |
| PPC42 | Nid yw'r polisi, fel yr honnir ym mharagraffau 7.288, 7.290 a 7.291, yn amddiffyn mentrau tyfu bwyd presennol, dim ond yn gwrthsefyll colli rhandiroedd gweithredol. | HF4 | **Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, mae'r Cyngor yn cynnig y diwygiad canlynol i Bolisi HF4**<br>**'HF4: MENTRAU TYFU BWYD A RHANDIROEDD Bydd datblygu sy'n cynyddu argaeledd bwyd a dyfir yn lleol yn cael ei gefnogi lle mae'n gyson â pholisïau eraill o fewn y cynllun. Ni chaniateir datblygu a fyddai'n arwain at golli rhandiroedd gweithredol, mentrau tyfu bwyd neu a fyddai'n cael effaith andwyol ar eu rôl tyfu bwyd cymunedol.'** |
| PPC43 | | Polisi CP1 Paragraff 7.311 | **Mae'r Cyngor yn cynnig dileu'r cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru fel bod paragraff 7.311 yn darllen fel a ganlyn:-**<br>**'7.311 Mae agosrwydd at boblogaeth drefol fawr yn dod â llawer o bwysau i gefn gwlad Caerdydd, gan gynnwys hamdden awyr agored. Er bod ei bwysigrwydd at ddibenion hamdden lleol a thwristiaeth yn cael ei dderbyn, mae'n hanfodol sicrhau nad yw'r ddau ddefnydd yma, nac unrhyw ddatblygiad adeiledig sy'n gysylltiedig â nhw, yn achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ansawdd y cefn gwlad. Gall datblygiadau bach, isel eu heffaith sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sydd angen eu lleoli yng nghefn gwlad, neu sy'n annog mynediad a mwynhad o gefn gwlad, fod yn dderbyniol.** |
| PPC44 | Rydym yn tybio mai swyddogaeth coridor afon y cyfeirir ato yn y trydydd paragraff yw'r swyddogaeth seilwaith gwyrdd a nodir yn yr ail baragraff? Os felly, a fyddai'n gwella dealltwriaeth i ailadrodd hynny yn y trydydd paragraff. Os na, pa swyddogaeth y cyfeirir ati? | CP4 | **Er eglurder mae'r Cyngor yn cynnig bod trydydd paragraff Polisi CP4 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn**<br><br>Bydd angen i gynigion datblygu ddangos nad oes rhwystr i swyddogaeth seilwaith gwyrdd coridor afon, y darperir mesurau lliniaru priodol a'u bod yn sicrhau nad yw mynediad yn arwain at niwed annerbyniol.' |

| | | | |
|---|---|---|---|
| PPC45 | Efallai y bydd ond angen rhwymedigaethau cynllunio i fynd i'r afael â materion/diffygion sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig, nid ar gyfer gwelliannau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig. Dylid diwygio'r paragraff i adlewyrchu hyn. | CP4 Paragraff 7.342 | ~~Er eglurder cynigiodd y Cyngor y dylid diwygio paragraff 7.342 fel a ganlyn~~<br><br>~~'7.342 Efallai y bydd gofyn i ddatblygiadau newydd o fewn neu ger llaw coridorau afonydd gyfrannu at brosiectau i wella'r coridorau afonydd. Lle bo'n briodol, efallai y bydd angen rhwymedigaethau cynllunio fynd i'r afael a phroblemau yn deillio o'r datblygiad arfaethedig yn unol â pholisïau sy'n ymwneud â darparu seilwaith newydd.'~~ |
| PPC46 | A oes angen datgan bod yn rhaid i gynigion fod yn gyson â pholisïau eraill? Dylid cymryd hynny yn ganiataol ac nid yw'n cael ei gynnwys mewn polisïau eraill. | Polisi RE1 | Mae'r Cyngor yn cytuno ac yn cynnig bod maen prawf (vi) yn cael ei ddileu o bolisi RE1. RE1: DATBLYGU YNNI ADNEWYDDADAWY A CHARBON ISEL<br><br>**Mae angen datblygu ynni adnewyddadwy i gefnogi'r pontio draw i ddyfodol carbon isel. Bydd cynigion datblygu sy'n gysylltiedig â chynhyrchu neu, storio neu ddarparu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cael eu cefnogi lle:**<br><br>**i. Nad yw graddfa a natur y datblygiad, ei adeiladu a'i gysylltiadau seilwaith yn achosi effeithiau niweidiol annerbyniol ar:**<br>**a. gymeriad tirwedd neu forlun yr ardal.**<br>**b. safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur, neu gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig**<br>**c. yr amgylchedd hanesyddol, neu asedau treftadaeth adeiledig sydd wedi eu gwarchod**<br>**d. amwynder cymunedau cyfagos**<br><br>**ii. Mae nodweddion tirweddol, treftadaeth, diwylliannol a bioamrywiaeth allweddol yn cael eu cadw a'u cynnal fel rhan o gynigion datblygu a datgomisiynu.**<br><br>**iii. Mae seilwaith neu weithrediadau presennol, gan gynnwys rhai morol a'r rhai sy'n gysylltiedig â hedfan, yn cael eu cynnal.**<br><br>**iv. Mae'r cynigion yn manylu ar hyd oes gweithredu'r datblygiad ac yn cynnwys darpariaethau priodol sy'n ymwneud â datgomisiynu a gwaredu seilwaith a chyfarpar ar ddiwedd eu gwasanaeth, ynghyd â chynigion ar gyfer adfer tir yn effeithiol.**<br><br>**v. Rhoddwyd ystyriaeth ddyledus gan y datblygiad i'r llifoedd deunyddiau a gynhyrchir, megis y rhai sy'n ofynnol ar gyfer treulio anaerobig, i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy**<br><br>~~**vi. Mae'r cynigion yn gyson â pholisïau eraill o fewn y cynllun datblygu.**~~<br><br>7.464 Mae gofyn i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero net erbyn 2050 ac mae wedi gosod targed bod 70% o'r defnydd ar drydan yn cael ei gynhyrchu gan ynni adnewyddadwy erbyn 2030.<br><br>7.465 Mae Cyngor Caerdydd ei hun wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi addo dod yn garbon niwtral erbyn 2030. Ar yr un pryd rhagwelir y bydd y galw am ynni yn cynyddu yn y dyfodol, er enghraifft gyda thrydaneiddio trafnidiaeth a gwres. Mewn adolygiad diweddar o'i dargedau fe ailadroddodd Llywodraeth Cymru raddfa'r her sydd i ddod gan nodi: *"Mae ein dadansoddiad yn dangos bod yn rhaid cyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar bob llwybr sero net ac i hynny gael ei gynnal am y tri degawd nesaf - ar gyfradd uwch na'r hyn a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 7.466 Yn y cyd-destun hwn, mae'n amlwg y bydd mwy o ddefnydd ar ynni adnewyddadwy ar bob graddfa yn helpu i gyflawni'r targedau trosfwaol uchelgeisiol hyn. I'r perwyl hwn, mae strategaeth Un Blaned y Cyngor yn nodi ystod o gamau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r newid i sero net yng Nghaerdydd, gan gynnwys prosiectau ynni adnewyddadwy, rhai mawr a bach o ran maint. Dylid ystyried hefyd seilwaith ehangach neu effeithiau gweithredol fel y rhai yn sgil trafnidiaeth sydd ynghlwm â gwaith ynni o wastraff.<br><br>7.467 Ar yr un pryd, mae Caerdydd yn parhau i fod yn ddinas gymharol gryno sy'n ffinio ag arfordir a chefn gwlad ac mae'n parhau i fod yn gartref i gymysgedd cyfoethog o asedau hanesyddol a naturiol o werth sylweddol. Bwriad Polisi RE1 felly yw fel fframwaith i lywio datblygiad i leoliadau priodol, gan ystyried yr amgylchoedd naturiol ac adeiledig sensitif sydd i'w cael yn aml mewn lleoliad dinas ddwys. |
| PPC47 | | RE2 | ~~**Mae'r Cyngor yn cytuno y dylid cyfeirio at hyn ym mholisi RE2 ac yn cynnig diwygio'r ail bwynt bwled yn y polisi i ddarllen:**~~<br><br>~~**'Yn archwilio'r ystod lawn o fesurau, technolegau a chyfleoedd sydd ar gael, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle i gyflawni Datblygiad Sero Net.'**~~ |
| PPC48 | | Paragraff 7.515 | ~~**Er gwybodaeth, bydd Ardaloedd Tawel yn cael eu cynnwys ar y Cynllun Cyfyngiadau RLDP a fabwysiadwyd**~~ |
| PPC49 | O ystyried bod paragraff 5.14.7 PCC yn dweud ei bod yn bwysig bod adnoddau mwynol a'r seilwaith sy'n gysylltiedig â mwynau i ddarparu'r adnoddau hyn yn cael eu diogelu, a ddylai polisi MW7 geisio diogelu seilwaith cysylltiedig? | MW 6 ac SP11 | Mae angen cyfeirio at y gofyniad yn y cynllun ond ystyriwn mai Polisi SP11 a MW6 yw'r lle mwyaf priodol i gyfeirio at hyn<br><br>Diwygio meini prawf (ii) a (v) polisi SP11 i nodi:<br><br>"(ii) Amddiffyn cronfeydd mwynau presennol a seilwaith cysylltiedig a diogelu adnoddau posibl o galchfaen a thywod a graean rhag datblygiadau a fyddai'n atal eu hechdynnu;"<br><br>"(v) Diogelu glanfeydd a seilwaith cysylltiedig rhag datblygu a fyddai'n atal eu defnydd ar gyfer glanio tywod a graean morol a garthwyd; a"<br><br>Diwygio brawddeg gyntaf polisi MW6 i ddatgan:<br><br>~~**"Bydd yr angorfeydd tywod a seilwaith cysylltiedig a ddangosir ar y map cynigion yn cael eu hamddiffyn rhag datblygu a fyddai'n niweidio eu gallu i lanio tywod a graean morol wedi ei garthu.'**~~ |

## Newidiadau Arfaethedig sy'n Weddill o'r Atodlen o Fân Newidiadau

| **Cyfeirnod Newidiadau** | **Mater a Godwyd** | **Cyfeirnod Cynllun** | **Newid Arfaethedig** |
|---|---|---|---|

| Arfaethedig i'r Cynllun | | | |
|---|---|---|---|
| PPC50 | Ychwanegu rhif cyfeirnod a rhif tudalen i bob un o'r Polisïau Strategol a Manwl yn yr adran gynnwys. | Tudalen Gynnwys | Er gwybodaeth Bydd tudalen gynnwys y cynllun mabwysiedig yn cael ei diweddaru i ddarparu cyfeirnod a rhif tudalen |
| PPC51 | Diwygio ail frawddeg paragraff 2.6 i ddarllen: "Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 2023 ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Deddf) 2017. | Dylanwadau ar y Cynllun Tudalen 13 Paragraff 2.6 | Diwygio ail frawddeg paragraff 2.6 i ddarllen: "Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 2023 ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Deddf) 2017." |
| PPC52 | Diwygio'r frawddeg olaf | Cyd-destun Caerdydd a materion allweddol Tudalen 17 | Diwygio'r testun fel bod y frawddeg olaf yn darllen: "Bydd angen i'r CDLl Newydd ddiogelu adnoddau mwynol a seilwaith mwynau hysbys a gwneud darpariaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn digonol o fwynau i ddarparu cyflenwad cyson a digonol a bodloni'r dosraniad o gronfeydd mwynau y cytunwyd arno dros gyfnod y cynllun hyd at 2036 a thu hwnt." |
| PPC53 | Diweddaru'r paragraff i ychwanegu cyfeiriadau cywir yn y cynllun at ffigurau anghenion tai fforddiadwy Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, y ffigurau diweddaraf ar y rhestr aros tai ac adlewyrchu'r ffaith bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. | Cyd-destun Caerdydd Tudalen 18 Pwynt Bwled 2 | Diwygio pwynt bwled 2 i ddarllen:<br><br>Mae'r ddinas bellach yn ail, ychydig y tu ôl i Fro Morgannwg fel yr awdurdod lleol lleiaf fforddiadwy yng Nghymru ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Mae ar hyn o bryd dros 9,000 7,600 o aelwydydd ar y rhestr aros tai cyfun ac mae digartrefedd yn parhau i gynyddu. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft ar gyfer Caerdydd (sy'n aros am broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru) yn amcangyfrif bod angen cyfartaledd o 960 1,098 o dai fforddiadwy net ychwanegol bob blwyddyn dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd hyd at 2036. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i rannu rhwng 687 790 y flwyddyn ar rhent cymdeithasol a 274 308 y flwyddyn ar rent canolradd/Perchentyaeth Cost Isel. O ystyried hyn ...." |
| PPC54 | Diwygio statws Afon Elái o gyflwr "drwg" i gyflwr "gwael". | Cyd-destun Caerdydd a Materion Allweddol Tudalen 22 | Diwygio i ddarllen:<br>Er gwaethaf gwelliannau wrth ryddhau carthion yng Nghaerdydd ac ymhellach i fyny'r afon, mae ansawdd dŵr Afonydd Elái, Taf a Rhymni yn dal i fod yn is na gofynion mesurau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; er enghraifft, mae Afon Elái mewn 'cyflwr drwg gwael' ac mae afonydd Taf a Rhymni mewn 'cyflwr cymedrol'. O ystyried hyn, bydd angen fframwaith polisi ar y CDLl Newydd sy'n **gwarchod ac yn gwella ansawdd dŵr** pan gynigir datblygiad newydd a allai effeithio ar yr afonydd hyn. |
| PPC55 | Diwygio paragraff 6.40 i adlewyrchu cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r cais ar gyfer Parc Caerdydd ar 30 Ionawr 2025 yn union cyn i'r cynllun gael ei Adneuo. | SP2 | Diwygio paragraff 6.40 i ddatgan: "Penderfynodd y Cyngor roi caniatâd cynllunio (cais 21/00076/MJR) ar gyfer Tir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg (Parc Caerdydd). Cafodd y cais ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru. O ystyried hyn, cynhwysodd y Cyngor y safle fel dyraniad yn y CDLl Newydd Adneuo (Polisi EC2). Cymeradwywyd y cais gan Weinidogion Cymru ar 30 Ionawr 2025 yn union cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno ar Adnau. Dyma ei safbwynt o hyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'r cais i mewn ac mae disgwyl penderfyniad o hyd ar hyn. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y datblygiad hwn yn cynnig safle cyflogaeth strategol sy'n gallu denu cyfleoedd mewnfuddsoddi ar gyfer sectorau gwasanaeth a gwybodaeth gwerth uchel. Mae hwn yn safle cyflogaeth pwysig sy'n cyfrannu at yr ystod a'r dewis angenrheidiol o fathau o gyfleoedd cyflogaeth yn y ddinas. Mae ei leoliad mewn sefyllfa arbennig o dda i gynnig cyfleoedd gwaith hygyrch i ardaloedd o amddifadedd hysbys." |
| PPC56 | Cynnwys cyfeiriad at y targed o 5,000 i 6,000 o gartrefi fforddiadwy yn y polisi | SP12 Tudalen 57 | Diwygio pwynt bwled cyntaf Polisi SP12 i ddarllen: "Darparu ystod amrywiol o ddeiliadaethau, mathau a lleoliadau anheddau sy'n diwallu'r ystod lawn o anghenion tai, yn enwedig llety fforddiadwy, gan gynnwys ceisio darparu targed o 5,000 i 6,000 o anheddau fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun, llety sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ac unedau teuluol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Bydd darpariaeth hefyd yn cael ei gwneud ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr;" |
| PPC57 | Diweddaru'r paragraff i ychwanegu cyfeiriadau cywir yn y cynllun at ffigurau anghenion tai fforddiadwy Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ac adlewyrchu'r ffaith bod | SP12 Tudalen 58 Paragraff 6.99 | Diwygio paragraff 6.99 i ddarllen:<br>Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft ar gyfer Caerdydd (sy'n aros am broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru) yn amcangyfrif bod angen cyfartaledd o 960 1,098 o dai fforddiadwy net ychwanegol bob blwyddyn dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd hyd at 2036. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i rannu rhwng 687 790 y flwyddyn ar rhent cymdeithasol a 274 308 y |

<table>
<tr><td></td><td>yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</td><td></td><td>flwyddyn ar rent canolradd / Perchentyaeth Cost Isel. Mae cyflawni safleoedd drwy'r system gynllunio ond yn un o blith nifer o ffyrdd i sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy.</td></tr>
<tr><td>PPC58</td><td>Cyfeirio at statws yr AFDL</td><td>Polisi H3 Paragraff 7.16</td><td>Diwygio 3edd brawddeg paragraff 7.16 i ddarllen: "Cafodd AFDL Caerdydd (2002 i 2027) ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2025 ac mae’n dangos...."<br><br>7.16 Mae PCC yn cydnabod bod angen cymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Mae hefyd yn hyrwyddo cymunedau cymysg a chynhwysol. Cyfarwyddyd manylach yn NCT2: Mae Cynllunio a Thai Fforddiadwy yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys polisïau tai fforddiadwy yn eu CDLlau lle mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) wedi darparu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi polisïau i ddarparu tai o'r fath drwy'r system gynllunio. Cafodd AFDL Caerdydd (2022-27) ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2025 ac mae’n nodi diffyg blynyddol o 960 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn. Dyma'r amcangyfrif blynyddol cyffredinol ychwanegol ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd.</td></tr>
<tr><td>PPC59</td><td>Diweddaru ac ailrifo'r ceisiadau Safleoedd Tai Strategol i adlewyrchu bod "SH1.1 Tir yn Church Farm, (Rhan o safle strategol F y CDLl mabwysiedig)" wedi cael caniatâd cynllunio ac mae bellach yn ymrwymiad.</td><td>SH1 a Map Cynigion</td><td>H1A: SAFLEOEDD TAI STRATEGOL<br><br>Dyrennir y safleoedd strategol canlynol neu ardaloedd gweddilliol safleoedd strategol ar gyfer tai:<br><br>
<table>
<tr><th>Cyfeirnod Safle</th><th>Enw’r Safle</th><th>Amcangyfrif o Unedau</th><th>Maint y safle (Ha)</th></tr>
<tr><td>~~SH1.1~~</td><td>~~Tir ar Church Farm (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig)~~</td><td>~~205~~</td><td>~~14.16~~</td></tr>
<tr><td>SH1.~~2~~1</td><td>Tir i'r de o Drafordd yr M4, i'r gorllewin o Rudry Road, Llysf-aen (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig)</td><td>100</td><td>4.96</td></tr>
<tr><td>SH1.~~3~~ 2</td><td>Tir i'r gogledd o Heol Tŷ Draw (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig)</td><td>350</td><td>15.33</td></tr>
<tr><td>SH1.~~4~~ 3</td><td>Tir i'r de o Heol Llantrisant (Rhan o Safle Strategol D y CDLl mabwysiedig)</td><td>300</td><td>13</td></tr>
<tr><td>SH1.~~5~~ 4</td><td>Tir ar Heol Llantrisant (A4119) (Rhan o Safle Strategol D y CDLl mabwysiedig)</td><td>150</td><td>8.73</td></tr>
<tr><td>SH1.~~6~~ 5</td><td>Tir yn Fferm Llwynioli (Rhan o Safle Strategol D y CDLl mabwysiedig)</td><td>70</td><td>3.4</td></tr>
<tr><td>SH1.~~7~~6</td><td>Yr Hen Waith Nwy, Heol y Fferi</td><td>500</td><td>3.98</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>PPC60</td><td>Darparu mwy o eglurder yn y polisi a chywiro mân wallau golygu.</td><td>Polisi C2</td><td>Diwygio Polisi C2 i ddarllen:<br>Bydd cynigion sy'n arwain at golli neu newid defnydd adeiladau a safleoedd a ddefnyddir ar hyn o bryd neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf ar gyfer cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, gan gynnwys 'siopau cornel', tafarndai a/neu gyfleusterau cymunedol heb fod yn rhai masnachol, gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, cyfleusterau iechyd a chrefyddol yn cael eu cefnogi dim ond lle:<br>i. Ceir cyfleuster amgen o’r un ansawdd a graddfa o leiaf i ddiwallu anghenion cymunedol, neu a gaiff ei ddarparu yn y cyffiniau ac o fewn cyfnod amser rhesymol neu;<br>ii. Nad yw'r defnydd bellach yn hyfyw ac mae pob ymgais i osod neu werthu'r busnes wedi bod yn aflwyddiannus; neu<br>iii. Gellir dangos bod y ddarpariaeth bresennol yn fwy nag anghenion y gymuned er enghraifft trwy chwarae rhan wrth ~~ac nid yw'n chwarae rhan wrth~~ gefnogi'r cyfleoedd addysgol, diwylliannol neu chwaraeon sydd ar gael i ddisgyblion ysgol yn yr</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ardal; iv. Gellir cadw'r cyfleuster cymunedol yn llawn, ei wella neu ei adfer fel rhan o unrhyw ailddatblygiad o ran yr adeilad neu'r tir.” |
| PPC61 | Dileu'r cyfeiriad at safonau adeiladu cynaliadwy | Polisi RE2 Tudalen 178 Paragraff 7.472 | Mae PCC yn cynnwys polisi cenedlaethol sy'n ymwneud â datblygu sy'n ymateb i'r hinsawdd ~~ac yn pennu'r safonau adeiladu cynaliadwy presennol yng Nghymru,~~ a’r Hierarchaeth Ynni ac mae'n cynnwys polisi rheoli datblygu cenedlaethol o ran ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Yn unol â hynny, dylai datblygwyr gyfeirio at hwn am arweiniad pellach.” |
| PPC62 | Diwygio'r cyfeiriad at M4 yn nhrydedd frawddeg paragraff 7.538 i MW4 | MW1 | Diwygio'r cyfeiriad at M4 yn nhrydedd frawddeg paragraff 7.538 i MW4. |
| PPC63 | Diwygio'r cyfeiriad at M1 ym mharagraff 7.568 Polisi MW7 i MW1. | MW7 | Diwygio'r cyfeiriad at M1 ym mharagraff 7.568 i MW1. |

# Atodiad 1: Atodiadau CDLl Newydd Caerdydd - Newidiadau Arfaethedig i Atodiad 6: Fframwaith Monitro

## 14.Tabl 6.1: Dangosyddion Monitro Cyd-destunol

| DANGOSYDDION CYD-DESTUNOL | TARGED | SBARDUN | FFYNHONELL |
|---|---|---|---|
| Cyfradd ddiweithdra flynyddol | Mae'r gyfradd ddiweithdra flynyddol yn gostwng | Mae'r gyfradd ddiweithdra flynyddol yn cynyddu am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol. | Ystadegau'r Farchnad Lafur Ranbarthol (SYG) a Stats Cymru |
| % y boblogaeth yn y 100 ward â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru | Canran y boblogaeth yn y 100 ward â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn gostwng | Canran y boblogaeth yn y 100 ward â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru yn cynyddu am 2 flynedd ~~neu fwy~~yn olynol | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| Lefel troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghaerdydd | Gostyngiad yn y cyfraddau Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu | Mae cyfraddau Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn cynyddu am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol | Ystadegau Troseddu Lleol, y Swyddfa Gartref (SYG) |
| Canran yr oedolion sy'n bodloni'r canllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgarwch corfforol | Mae canran yr oedolion sy'n bodloni'r canllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cynyddu'n flynyddol dros gyfnod y Cynllun | Mae canran yr oedolion sy'n bodloni'r canllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgarwch corfforol yn gostwng am ddwy flynedd neu fwy yn olynol | Arolwg Iechyd Cymru |
| Cyfradd lleihau gwastraff | Cyfradd lleihau gwastraff o 1.2% bob blwyddyn i 2050 | Mae'r gyfradd lleihau gwastraff yn syrthio islaw 1.2% am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol | Is-adran Rheoli Gwastraff CDC |

## 15.Tabl 6.2.1 Dangosyddion Monitro Blynyddol: Ymateb i'n Hanghenion yn y Dyfodol

| **1. YMATEB I'N HANGEN YN Y DYFODOL** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| 1.1 | SP1, H1A, H1B, H2 | **CRAIDD**<br>Lefel flynyddol yr anheddau a gwblheir wedi'i monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (CAFR). | Yr anheddau blynyddol a gaiff eu cyflawni yn unol â'r CAFR fel y nodir yn y taflwybr tai mabwysiedig. | Mae'r gyfradd gyflawni yn is na'r CAFR am 2 flynedd yn olynol. | • Arolwg Monitro Tai y Cyngor |
| 1.2 | SP1, H1A, H1B, H2 | **CRAIDD**<br>Cyfanswm cronnol y cyflawniadau wedi ei fonitro yn erbyn y Gyfradd Gyflawni Gronnol Ddisgwyliedig (CGGDd). | Cyfanswm cronnol yr anheddau a gyflawnir yn unol â'r CAFR fel y nodir yn y taflwybr tai mabwysiedig. | Mae cyfanswm y cyflawniadau cronnol yn is na'r CAFR am 2 flynedd yn olynol. | • Arolwg Monitro Tai y Cyngor |
| 1.3 | SP1, H1A, H1B, H2 | **CRAIDD**<br>Nifer y tai marchnad cyffredinol ~~a fforddiadwy~~ ychwanegol a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun | Cyfradd adeiladu flynyddol o 1,~~6~~200 annedd y flwyddyn 2021 i 2036 | Mae'r cyflawni yn is na'r gyfradd adeiladu yn strategaeth y CDLlN am 2 flynedd yn olynol. | • Arolwg Monitro Tai y Cyngor |

| 1. YMATEB I'N HANGEN YN Y DYFODOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| 1.4 | SP1, H1A, H1B, H2 | **CRAIDD**<br>Nifer y tai fforddiadwy ychwanegol a adeiledir dros gyfnod y cynllun | Cyfradd adeiladu flynyddol o 400 annedd y flwyddyn 2021 i 2036 | Mae'r cyflawni yn is na chyfradd adeiladu strategaeth y CDLlN am 2 flynedd yn olynol. | • Arolwg Monitro Tai y Cyngor |
| 1.5 | H3 | **CRAIDD**<br>Canran y tai fforddiadwy ar y cam cwblhau a ddarparwyd mewn datblygiad o 5 annedd neu fwy ar safleoedd maes glas dros y ddwy flynedd ddiwethaf | 30% | Mae cyflawni yn llai na'r targed am 2 flynedd yn olynol. | • Arolwg Monitro Tai y Cyngor |
| 1.6 | H3 | **CRAIDD**<br>Canran y tai fforddiadwy ar y cam cwblhau a ddarparwyd mewn datblygiad o 5 annedd neu fwy ar safleoedd tir llwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf | 20% | Mae cyflawni yn llai na'r targed am 2 flynedd yn olynol. | • Arolwg Monitro Tai y Cyngor |
| 1.~~4~~7 | H10 a H11 | **LLEOL**<br>Cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu anghenion a nodwyd yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALlSTh) | Safle(oedd) Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd ym Mholisi H11 i'w gwblhau o fewn cyfnod y Cynllun i gwrdd â'r angen a nodwyd yn ALlSTh 2024. | Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer y safle(oedd) Sipsiwn a Theithwyr dyranedig a nodwyd ym Mholisi H11 yn ystod cyfnod y Cynllun, lle mae angen heb ei ddiwallu yn bodoli o hyd. | • Polisi Cynllunio CDC |
| 1.~~5~~8 | H10 a H11 | **LLEOL**<br>Cyfanswm nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer llety preswyl | Sicrhau bod y cyflenwad presennol o leiniau yn cael ei gynnal. (Pe na fyddai'r lleiniau presennol ar gael mwyach, ceisir lleiniau amgen) | Unrhyw golled net o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr | • Polisi Cynllunio CDC<br>• Gwasanaeth Tai CDC |
| 1.~~6~~9 | SP2, EC1-EC3 | **CRAIDD**<br>Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth. | Dim | Dim | • Monitro Busnes a Diwydiannol y Cyngor<br>Monitro Dosbarth Busnes Swyddfa y Cyngor |

**1. YMATEB I'N HANGEN YN Y DYFODOL**

| Cyfeirnod Monitro | Polisïau CDLlN Perthnasol | Dangosydd | Targed | Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach | Data Ffynhonnell/Dull Monitro |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.~~7~~10 | SP2, EC1-EC8 | **CRAIDD**<br>Defnydd blynyddol o dir Cyflogaeth (yn seiliedig ar gyflawniadau) yng Nghaerdydd (gan gynnwys ar Safleoedd Strategol – Polisi EC1. EC2) | Swyddfeydd (B1) = 18,600 metr sgwâr bob blwyddyn.<br><br>Diwydiannol (B1 b/c, B2, B8) = 5ha bob blwyddyn | Swyddfeydd (B1) = Mae'r defnydd dros 10% yn uwch neu'n is na'r targed ar gyfer 2 flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol Mae defnydd Diwydiannol (B1 b/c, B2, B8) = dros 10% yn uwch neu'n is na'r targed am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol. | • Monitro Busnes a Diwydiannol y Cyngor Monitro Dosbarth Busnes Swyddfa y Cyngor |
| 1.~~8~~11 | SP2, EC1-EC3 | **LLEOL**<br>Swm y tir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau nad ydynt yn gyflogaeth mewn safleoedd cyflogaeth sylfaenol a lleol (Polisi EC3) | Dim colli tir cyflogaeth (Polisi EC3) oni bai yn unol â Pholisi EC5. | Colli un neu fwy o adeiladau a feddiannir (dros 1000 metr sgwâr) neu barsel o dir (dros 0.2 ha) o fewn prif safleoedd cyflogaeth neu rai lleol (Polisi EC~~1~~3) oni bai ei fod yn unol â Pholisi EC~~3~~5 | • Monitro Busnes a Diwydiannol y Cyngor<br>• Monitro Dosbarth Busnes Swyddfa y Cyngor<br>• Monitro'r Cyngor – Ceisiadau a Chaniatâd Cynllunio |
| 1.~~9~~12 | SP1, SP2, SP8, SP9 EC1-EC10 | **LLEOL**<br>Creu swyddi net dros weddill cyfnod y Cynllun (Cyfanswm = 32,300 dros gyfnod y Cynllun cyfan, 9,000 o swyddi wedi eu creu rhwng 2021 a 2022) | 23,000 erbyn 2036 neu 1,664 y flwyddyn. Pennwyd y targed ar 1,700 o swyddi'r flwyddyn dros weddill cyfnod y Cynllun. | Os bydd creu swyddi newydd blynyddol yn gostwng mwy na 10% islaw'r gyfradd ddisgwyliedig o 1,700 o swyddi am 2 flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol. | • SYG (Ymholiad Busnes Blynyddol a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) |
| 1.13 | EC3 | **LLEOL**<br>Creu swyddi net yn Parc Caerdydd (6,000 o swyddi wedi'u creu erbyn 2036) | 2,000 o swyddi ar ôl cwblhau 30,000 metr sgwâr<br><br>3,300 o swyddi ar ôl cwblhau 50,000 metr sgwâr<br><br>6,000 o swyddi ar ôl cwblhau 90,000 metr sgwâr | Os yw creu swyddi yn disgyn o dan y lefelau a bennir yn y targedau | • Monitro Swyddfeydd Dosbarth Busnes y Cyngor<br>• Monitro'r Cyngor – Ceisiadau a Chaniatâd Cynllunio |

## 16.Tabl 6.2.2: Dangosyddion Monitro Blynyddol - Creu Dinas Gynaliadwy ac Iach sy'n Ymateb i Heriau Newid yn yr Hinsawdd ac yn Gwella Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

| 2. CREU DINAS GYNALIADWY AC IACH SY'N YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD AC YN GWELLA LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| 2.1 | SP12, R1-R8 | **LLEOL**<br>Unedau A1 (manwerthu) gweithredol o fewn Canolfannau Ardal a Lleol yn parhau fel y prif ddefnydd. | Unedau A1 yn 40% o'r holl unedau mewn Canolfannau Ardal a Lleol | Unedau A1 yn llai na 40% o'r holl unedau A1 o fewn canolfan. | • Monitro'r Cyngor/Arolygon Safle |
| 2.2 | SP8, R1-R8 | **LLEOL**<br>Cyfran ffryntiadau'r siopau yng Nghanol y Ddinas a warchodir gyda dros 50% o unedau (Siop) Dosbarth A1. | 100% | 90% | • Monitro'r Cyngor/Arolygon Safle |
| 2.3 | SP8, SP12, R1-R8 | **LLEOL**<br>Canran yr unedau manwerthu gwag ar y llawr gwaelod yn yr Ardal Siopa Ganolog, y Canolfannau Ardal a Lleol | Nid yw lefel unedau gwag yn uwch na chyfartaledd y DU | Lefelau unedau gwag yn codi'n uwch na chyfartaledd y DU am fwy na dwy flynedd yn olynol. | • Monitro'r Cyngor/Arolygon Safle<br>• Arolwg Defnydd Tir a Gofod Llawr Canol y Ddinas<br>• Data GOAD (Experian) |
| 2.4 | SP8, SP12, R1-R8 | **LLEOL**<br>Nifer y datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal nad ydynt yn unol â Pholisi R4~~6~~ ac asesiad o angen a glynu'n gaeth wrth y prawf dilyniannol. | Ni chaniateir datblygiadau manwerthu y tu allan i'r ardaloedd hyn (oni bai eu bod yn unol â Pholisi R4 ac asesiad o angen a glynu'n gaeth wrth y prawf dilyniannol | 1 neu fwy o ddatblygiadau manwerthu yn cael eu caniatáu y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal nad ydynt yn unol â Pholisi R4~~6~~ ac asesiad o angen a glynu'n gaeth wrth y prawf dilyniannol. | • Monitro Tu Allan i'r Canol y Cyngor<br>• Monitro'r Cyngor – Ceisiadau a Chaniatâd Cynllunio |
| 2.5 | SP20, W3 | **CRAIDD** Faint o ddatblygu ~~(yn ôl NCT 15 paragraff 5.1 categori datblygu)~~ a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir Parth 2 ~~C1~~ nad ydynt yn bodloni pob un ~~o'r profion NCT 15~~ o'r ystyriaethau derbynioldeb a nodir yn adran 11 NCT15 | Ni roddir unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygu sy'n agored iawn i ddifrod mewn Parth gorlifdir 2 ~~C1~~ nad yw'n bodloni ystyriaethau derbynioldeb ~~brofion~~ NCT15 | 1 cais wedi ei ganiatáu i'w ddatblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn nad yw'n bodloni ~~profion~~ ystyriaethau derbynioldeb NCT15 | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |
| 2.6 | SP20, W3 | **CRAIDD**<br>Faint o ddatblygu (yn ôl categori datblygu NCT15 paragraff 5.1) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir Parth 3 ~~C2~~. | Ni roddir unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygu sy'n agored iawn i ddifrod mewn ardal gorlifdir Parth 3 ~~C2~~ ar dir maes glas | Caniatâd i 1 cais ar gyfer datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |
| ~~2.7~~ | ~~PC1~~ | ~~**LLEOL**~~<br>~~Nifer yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer~~ | ~~Dim mwy na 4 ARhAA cyfredol ar waith~~ | ~~Un neu fwy o ARhAA yn ychwanegol~~ | ~~Monitro Diogelu'r Amgylchedd~~ |
| ~~2.8~~ | ~~SP20, RE1 ac RE2~~ | ~~**LLEOL**~~<br>~~Nifer a chapasiti (MW) y datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiateir~~ | ~~Cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir~~ | ~~Dim cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir am ddwy flynedd neu fwy yn olynol~~ | ~~Cronfa ddata ceisiadau cynllunio~~ |

| 2. CREU DINAS GYNALIADWY AC IACH SY'N YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD AC YN GWELLA LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| 2.~~9~~7 | SP23, MW8. MW9 | **LLEOL**<br>Cynnal digon o dir a chyfleusterau ar gyfer capasiti gwastraff Caerdydd | Cynnal capasiti digonol i drin gwastraff Caerdydd (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â NCT 21) | ~~Dim sbardun~~ Diffyg a nodwyd o ran capasiti neu fath o gyfleuster i ddarparu ar gyfer gofynion gwastraff Caerdydd | Is-adran Rheoli Gwastraff CDC |
| 2.~~10~~8 | SP18, SP19, H1A, T1-T7 | **LLEOL**<br>Cyflawni rhaniad moddol 76:24 ar gyfer pob taith erbyn 2030 a chynnal hynny erbyn 2036 | Cynnydd blynyddol yn y teithiau cynaliadwy a wneir drwy deithio cynaliadwy fel cyfran o'r rhaniad moddol at bob diben taith:<br>1) Gwaith (ac eithrio Gweithio Gartref) = 51% (2023)<br>2) Gwaith (gan gynnwys Gweithio Gartref) = 67% (2023)<br>3) Addysg = 51% (2023)<br>4) Siopa (Canol y Ddinas) = 64% (2023)<br>5) Siopa (Arall) = 44% (2023)<br>6) Hamdden = 59% (2023) | Methu â sicrhau cynnydd blynyddol at bob diben taith am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol | • Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol<br>• Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru<br>• Polisi Cynllunio CDC / Trafnidiaeth<br>• Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) Caerdydd |
| 2.~~11~~9 | SP18, SP19, H1A, T1-T7 | **LLEOL**<br>Canran y bobl sy'n cerdded (pob taith) | Cynnydd blynyddol mewn teithiau a wneir ar droed at bob diben taith:<br>1) Gwaith (ac eithrio Gweithio Gartref) = 16% (2023)<br>2) Addysg = 19% (2023)<br>3) Siopa (Canol y Ddinas) = 15% (2023)<br>4) Siopa (Arall) = 23% (2023)<br>5) Hamdden = 17% (2023) | Methu â sicrhau cynnydd blynyddol at bob diben taith am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol | • Arolygon Trafnidiaeth<br>• Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol<br>• Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru<br>• Mapio Hygyrchedd<br>• Monitro Tagfeydd |
| 2.~~12~~10 | SP18, SP19, H1A, T1-T7 | **LLEOL**<br>Canran y bobl sy'n beicio (pob taith) | Cynnydd blynyddol mewn teithiau a wneir ar feic at bob diben taith:<br>1) Gwaith (ac eithrio Gweithio Gartref) = 13% (2023)<br>2) Addysg = 10% (2023)<br>3) Siopa (Canol y Ddinas) = 7% (2023)<br>4) Siopa (Arall) = 6% (2023)<br>5) Hamdden = 10% (2023) | Methu â sicrhau cynnydd blynyddol at bob diben taith am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol | • Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol<br>• Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru<br>• Mapio Hygyrchedd<br>• Monitro Tagfeydd |
| 2.~~13~~11 | SP18, SP19, H1A, T1-T7 | **LLEOL**<br>Canran y bobl sy'n teithio ar fws (pob taith) | Cynnydd blynyddol teithiau a wneir ar fws at bob diben taith:<br>1) Gwaith (ac eithrio Gweithio Gartref) = 13% (2023)<br>2) Addysg = 12% (2023)<br>3) Siopa (Canol y Ddinas) = 27% (2023)<br>4) Siopa (Arall) = 9% (2023) | Methu â sicrhau cynnydd blynyddol at bob diben taith am ddwy flynedd ~~neu fwy~~ yn olynol | • Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol<br>• Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru<br>• Mapio Hygyrchedd<br>• Monitro Tagfeydd |

| 2. CREU DINAS GYNALIADWY AC IACH SY'N YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD AC YN GWELLA LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| | | | 5) Hamdden = 11% (2023) | | |
| 2.1412 | SP18, SP19, H1A, T1-T7 | **LLEOL**<br>Canran y bobl sy'n teithio ar y trên (pob taith) | Cynnydd blynyddol teithiau a wneir ar fws at bob diben taith:<br>1) Gwaith (ac eithrio Gweithio Gartref) = 7% (2023)<br>2) Addysg = 5% (20)<br>3) Siopa (Canol y Ddinas) = 11% (2023)<br>4) Siopa (Arall) = 3% (2023)<br>5) Hamdden = 10% (2023) | Methu â sicrhau cynnydd blynyddol at bob diben taith am ddwy flynedd neu fwy yn olynol | • Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol<br>• Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru<br>• Mapio Hygyrchedd<br>• Monitro Tagfeydd |
| 2.1513 | SP18, SP19, H1A, T1-T7 | **LLEOL**<br>Darparu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy newydd fel y nodir yn y Cynllun Seilwaith gan gynnwys: Coridorau Bws Cyflym, Rhwydwaith Beicio, Canolfannau Trafnidiaeth a chynlluniau CTLl i liniaru effeithiau datblygu a chefnogi newid moddol | I baratoi a rhoi ystod o gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy ar waith gan gynnwys cynlluniau a nodwyd yn CTLl Caerdydd sy'n cefnogi newid moddol a chyflawni'r egwyddorion Uwchgynllunio a nodir yn y CDLlN | Methu â chyflawni prosiectau a nodwyd o fewn amserlenni'r CTLl | • Polisi Cynllunio CDC / Trafnidiaeth<br>• Cynllun Trafnidiaeth Lleol Caerdydd |

**17.Tabl 6.2.3: Dangosyddion Monitro Blynyddol - Gofalu am Ein Hasedau Naturiol, Hanesyddol a Diwylliannol.**

| 3. GOFALU AM EIN HASEDAU NATURIOL, HANESYDDOL A DIWYLLIANNOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| 3.1 | SP17 | **LLEOL**<br>Nifer yr anheddau a ganiateir bob blwyddyn y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig nad sy'n bodloni gofynion polisïau'r CDLlN. | Nifer yr anheddau a ganiateir nad ydynt yn unol ag SP17 | 1 caniatâd neu fwy nad sy'n bodloni polisïau'r CDLlN | Arolwg Monitro Tai y Cyngor |
| 3.2 | SP16, CP1 | **LLEOL** Nifer y datblygiadau amhriodol a ganiateir o fewn y Lletem Las nad ydynt yn bodloni polisau'r CDLlN | Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiadau amhriodol yn groes i bolisïau SP16 a CP1 | Caniateir 1 cais ar gyfer datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |
| 3.3 | CP3 | **LLEOL** Nifer y caniatadau cynllunio a roddir yn groes i Bolisi CP3 a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig | Ni roddir caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad yn groes i Bolisi CP3 a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig | Caniateir 1 cais ar gyfer datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |

| 3. GOFALU AM EIN HASEDAU NATURIOL, HANESYDDOL A DIWYLLIANNOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| ~~3.4~~ | ~~BG1~~ | ~~**LLEOL**~~<br>~~Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd ar ardaloedd dynodedig SoDdGA neu SBCN.~~ | ~~Ni roddir caniatâd cynllunio i geisiadau a fyddai'n arwain at effaith annerbyniol na ellid ei lliniaru ar SoDdGA neu SBCN nad yw'n bodloni polisau'r CDLlN~~ | ~~Caniateir 1 cais ar gyfer datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn~~ | ~~Cronfa ddata ceisiadau cynllunio~~ |
| 3.~~5~~1 | BG4 | **LLEOL**<br>Nifer y datblygiadau newydd a gafodd ganiatâd cynllunio sy'n darparu manteision net ar gyfer bioamrywiaeth. | Pob datblygiad perthnasol sy'n darparu manteision net ar gyfer bioamrywiaeth. | Dim | Ceisiadau Cynllunio<br>cronfa ddata /monitro A106 / Monitro Amodau Cynllunio |
| 3.~~6~~2 | SP21, BG4 | **LLEOL**<br>Nifer y datblygiadau newydd a gafodd ganiatâd cynllunio sy'n darparu digon o Seilwaith Gwyrdd (SG) ar y safle yn unol â CCA SG. | Darperir digon o SG ar safleoedd datblygu ~~fel nad oes angen gwneud iawn oddi ar y safle~~ yn unol â'r CCA SG | Gostyngiad arfaethedig neu wirioneddol mewn darpariaeth SG gymeradwy sydd ar wahân i'r ddarpariaeth SDCau | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio gan gynnwys rhyddhau amodau, amrywiadau a diwygiadau ansylweddol |
| 3.~~7~~3 | SP21, OS2 | **LLEOL** Cyflawni gofyniad mannau agored gweithredol ledled Caerdydd fel y nodir ym Mholisi OS2 | 2.43 Ha o ofod agored swyddogaethol fesul 1,000 o'r boblogaeth fel y'i diffinnir yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio | Llai na 2.43 Ha o fannau agored gweithredol fesul 1,000 o'r boblogaeth | Polisi Cynllunio CDC |
| 3.~~8~~4 | SP11, MW1 | **LLEOL**<br>Cynnal banc tir ag o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd malurion creigiau | Cyflenwad 10 mlynedd | Llai na 10 mlynedd o gyflenwad | Adroddiad Blynyddol GARhD |
| 3.~~9~~5 | SP11, MW7 | **LLEOL**<br>Faint o ddatblygu a ganiateir sydd o fewn ardal ddiogelu mwynau | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad sterileiddio parhaol fel y'i diffinnir yn PCMC/MNCT1 o fewn ardal ddiogelu Mwynau sy'n groes i Bolisi x y Cynllun. | Caniatâd i 1 cais ar gyfer datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |
| 3.~~10~~6 | MW4 | **LLEOL**<br>Nifer y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiad amhriodol e.e. anheddau/gwaith mwynau, a ganiateir mewn Parthau Clustogfeydd Mwynau yn groes i Bolisi M4. | Caniatawyd 1 cais cynllunio | Caniatâd i 1 cais ar gyfer datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |
| 3.~~11~~7 | SP14, HE1 | **LLEOL**<br>Nifer y ceisiadau a ganiateir yn groes i Bolisi HE1 a fyddai'n effeithio'n andwyol ar Henebion Cofrestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, Adeiladau Rhestredig neu Ardaloedd Cadwraeth | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau yn ystod y Cynllun lle ceir gwrthwynebiad eithriadol gan gynghorwyr treftadaeth statudol neu a fyddai'n cael effaith andwyol ar Henebion Cofrestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, | Caniateir 1 cais i'w ddatblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn lle ceir gwrthwynebiad eithriadol gan gynghorwyr treftadaeth statudol | Cronfa ddata ceisiadau cynllunio |

| 3. GOFALU AM EIN HASEDAU NATURIOL, HANESYDDOL A DIWYLLIANNOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Monitro** | **Polisïau CDLlN Perthnasol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Sbardun ar gyfer Ymchwilio Pellach** | **Data Ffynhonnell/Dull Monitro** |
| | | | Adeiladau Rhestredig neu Ardaloedd Cadwraeth | | |

**Atodiad 2: Mapiau ar gyfer Newidiadau Arfaethedig i Fap Cynigion y CDLl Newydd**

**MAC PM1: Cynnig i ddiwygio ffin dyraniad SP9 Cefnogi Rôl Porthladd Caerdydd ar y Map Cynigion CDLl Newydd**

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM2: Cynnig i ddileu'r dyraniad H1.1 Tir yn ardaloedd 9-12, Llaneirwg o'r Map Cynigion CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi

CARDIFF
CAERDYDD




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM3: Cynnig i ddileu'r dyraniad H2.4 Doc y Rhath (Ochr y Gogledd) o'r Map Cynigion CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi

CARDIFF
CAERDYDD




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM4: Cynnig i ddiwygio ffin dyraniad H2.5 Porth Teigr a Phentir Alexandra Head ar y Map Cynigion CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM5 A: Cynnig i ddileu'r dyraniad Tir EC2 i'r de o Barc Busnes Llaneirwg

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi

CARDIFF
CAERDYDD




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

**MAC PM5 B: Cynnwys y Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg o fewn ardaloedd Polisi E3 Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig a ddynodir ar Fap Cynigion y CDLl Newydd**

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM6: Diwygio Ffin Safle Strategol C ar Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM7 A: Cynnig i ddileu Safle Tai Strategol SH1.1 o Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi

CARDIFF
CAERDYDD




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM7 B: Cynnig i ddileu ymrwymiad tai blaenorol Argo Wiggins o Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd:  Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM7 C: Cynnig i ddileu ymrwymiad tai Y Lanfa, Ffordd y Sgwner o Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

**MAC PM7 D: Cynnig i ddileu ymrwymiad tai Crawshay Court, Heol Curran o Fap Cynigion y CDLl Newydd**

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM7 E: Cynnig i ddileu ymrwymiad tai Ystâd Ddiwydiannol Anchor o Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM7 F: Cynnig i gynnwys ymrwymiad tai newydd Tir yn Church Farm (Rhan o Safle Strategol F y CDLl mabwysiedig) ar Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

**MAC PM7 G: Cynnig i gynnwys ymrwymiad tai newydd Asset House, Heol Penarth ar Fap Cynigion y CDLl Newydd**

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi

CARDIFF CAERDYDD




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

# MAC PM7 H: Cynnig i gynnwys ymrwymiad tai newydd Coleg Llanfihangel, Heol y Ddorop ar Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd:  Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi

CARDIFF
CAERDYDD




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513

## MAC PM7 I: Cynnig i gynnwys ymrwymiad tai newydd Knox Court, 10 Plas Fitzalan ar Fap Cynigion y CDLl Newydd

Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd: Ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans\AC0000816513